



hwb awen



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Achos Busnes Amlinellol Canolfan Hyfforddi a Datblygu Newydd

âRhagfyr 2025



ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

Cynnwys

1	Rheoli Dogfen.....	7
2	Rheoli Fersiynau.....	7
3	Crynodeb Gweithredol.....	8
3.1	Cyflwyniad	8
3.2	Crynodeb o'r Achos Strategol	8
3.3	Crynodeb o'r Achos Economaidd	9
3.4	Crynodeb o'r Achos Masnachol	10
3.5	Crynodeb o'r Achos Ariannol	10
3.6	Crynodeb o'r Achos Rheoli	11
3.7	Casgliad Cryno	11
4	Manylion yr Achos Busnes.....	13
5	Llwybr Cymeradwyo	17
6	Achos Strategol.....	19
6.1	Y Sefydliad	19
6.2	Y Cynnig	20
6.3	Yr Achos o blaid Newid	22
6.3.1	Cefndir	22
6.3.2	Heriau gydag Ansawdd a Natur Hen Ffasiwn y Cyfleusterau Presennol.....	22
6.3.3	Heriau gyda Lleoliad y Cyfleusterau Presennol	23
6.3.4	Rheoliadau Newydd a Gofynion Esblygol ar gyfer Cyfleusterau	23
6.3.5	Cyd-fynd ag amcanion/blaenoriaethau strategol.....	24
6.3.6	Amcanion Gwariant	28
6.4	Ystyriaethau Cyflawni Strategol a Chwmpas y Prosiect	30
6.4.1	Buddion.....	30
6.4.2	Risgiau Strategol	35
6.4.3	Cyfyngiadau	36
6.4.4	Dibyniaethau.....	36
6.5	Budd-ddeiliaid Allweddol	37
6.6	Crynodeb o'r Achos Strategol	38
7	Yr Achos Economaidd	40
7.1	Cyflwyniad	40

7.2	Y Broses.....	40
7.2.1	Cam 1: Datblygu rhestr hir a sgrinio ansoddol.....	40
7.2.2	Cam 2: Arfarnu'r rhestr fer a'r Opsiwn a Ffafrir.....	41
7.3	Amcanion Gwariant.....	42
7.4	Ffactorau llwyddiant hanfodol.....	42
7.5	Opsiynau ar y Rhestr Hir.....	43
7.5.1	Ffafiaeth o ran Opsiynau'r Rhestr Hir.....	43
7.6	Opsiynau ar y Rhestr Fer.....	44
7.6.1	Opsiwn 1 – Gwneud Dim.....	45
7.6.2	Opsiwn 2 – Gwneud y Lleiaf Posibl.....	45
7.6.3	Opsiwn 3 – Canolfan Hyfforddi Newydd.....	45
7.6.4	Opsiwn 4 – Canolfan Hyfforddi Well Newydd.....	46
7.6.5	Cymharu'r Opsiynau ar y Rhestr Fer.....	46
7.7	Dadansoddi Hygyrchedd y Safle.....	47
7.8	Arfarniad o Fuddion.....	48
7.8.1	Buddion Ariannol.....	49
7.8.2	Buddion Mesuradwy.....	51
7.8.3	Buddion y gellir eu Meintoli.....	51
7.9	Dadansoddiad o Werth am Arian.....	55
7.9.1	Dull Dadansoddol.....	55
7.9.2	Rhagdybiaethau Allweddol.....	55
7.9.3	Crynodeb o'r Costau Cyfalaf a Refeniw.....	58
7.9.4	Canfyddiadau'r Dadansoddiad Adennill Costau.....	58
7.10	Asesiad Risg.....	59
7.10.1	Tuedd Optimistiaeth (OB).....	59
7.10.2	Risgiau Allweddol y Rhaglen.....	59
7.10.3	Dadansoddiad Sensitifrwydd.....	60
7.11	Opsiwn a Ffafrir.....	61
7.11.1	Meini Prawf Dethol.....	61

7.11.2	Asesiad o Werth am Arian	61
7.12	Casgliad	62
8	Yr Achos Masnachol.....	63
8.1	Cyflwyniad	63
8.2	Strategaeth gaffael	63
8.2.1	Llwybr i'r farchnad	63
8.2.2	Dull Contractio	65
8.2.3	Amserlenni caffael	66
8.2.4	Ymgysylltu â'r farchnad	66
8.3	Dyrannu a throsglwyddo risg	67
8.3.1	Strategaeth Dyrannu Risg	68
8.3.2	Risgiau masnachol allweddol	70
8.3.3	Dull o drosglwyddo risg	73
8.4	Trefniadau cytundebol.....	74
8.4.1	Rheoli newid	74
8.4.2	Strwythur cytundebol arfaethedig	75
8.4.3	Mecanwaith talu	75
8.4.4	Dangos Gwerth am Arian trwy Drefniadau Masnachol	75
8.4.5	Hyd y contract a strategaeth ymadael	76
8.4.6	Datrys Anghydfodau	76
8.4.7	Ymrwymadau Cynaliadwyedd a Sero Net	77
8.4.8	Risgiau Masnachol.....	78
8.5	Goblygiadau personél	79
8.5.1	Ystyriaethau TUPE.....	79
8.5.2	Pontio'r gweithlu.....	79
8.6	Crynodeb o'r Achos Masnachol	80
9	Yr Achos Ariannol.....	81
9.1	Cyflwyniad	81
9.2	Arfarniad ariannol	81

9.2.1	Costau cyflenwi cyfalaf	81
9.2.2	Llif arian cyflenwi cyfalaf	82
9.2.3	Rhagdybiaethau allweddol cyflenwi cyfalaf	82
9.3	Costau prosiect hanesyddol a chostau galluogi eraill	83
9.4	Trin costau a lwfansau risg sydd wedi'u hepgor	84
9.5	Arfarniad ariannol – costau gweithredu a chylch bywyd	84
9.6	Tuedd optimistiaeth	85
9.7	Cyllid a fforddiadwyedd	86
9.7.1	Benthyca a Rheoli'r Trysorlys	88
9.7.2	Opsiynau Cyllido Cyfalaf	88
9.7.3	Incwm a Chyfleoedd Cydweithredu Posibl	89
9.7.4	Sicrhau'r Gwerth Cyhoeddus Mwyaf Posibl trwy Gyllid ac Incwm	89
9.8	Triniaeth gyfrifyddu	90
9.8.1	Cyfalafu costau	90
9.8.2	Refeniw a chostau gweithredol	90
9.8.3	Taliadau Cyfalaf	90
9.8.4	TAW a Thriniaeth Treth	91
9.8.5	Effaith a Ragwelir ar Ddatganiadau Ariannol	91
9.9	Asesiad Fforddiadwyedd	92
9.10	Crynodeb o'r Achos Ariannol	92
10	Achos rheoli	93
10.1	Cyflwyniad	93
10.2	Amserlenni'r prosiect	93
10.3	Dull Rheoli Prosiect a Llywodraethu	93
10.3.1	Strwythur Llywodraethu	95
10.3.2	Rolau a Chyfrifoldebau	96
10.3.3	Bwrdd y Prosiect	96
10.3.4	Grŵp Prosiect	96
10.3.5	Tîm ac Adnoddau'r Prosiect	96
10.3.6	Cynlluniau Rheoli Prosiect	97

10.4	Cynllunio Adnoddau	97
10.5	Cynllunio'r Gweithlu	98
10.6	Rheoli risg	98
10.7	Cynllun Gwireddu Buddion.....	104
10.7.1	Monitro ac Adrodd.....	104
10.8	Proses Cymeradwyo Porth.....	105
10.9	Trefniadau Gwerthuso Ôl-Brosiect	106
10.10	Trawsnewid a Rheoli Newid.....	106
10.11	Crynodeb o'r Achos Rheoli.....	107
11	Casgliadau	108
11.1	Materion Amlycaf i'w Hystyried Ymhellach	108
12	Atodiadau	109
12.1	Atodiad 1 – Strategaeth y Rhaglen	109
12.2	Atodiad 2 Cynllun y Safle	110
12.3	Atodiad 3 – Cofrestr Risg	112
12.4	Atodiad 4 – Cynllun Gwireddu Buddion	113
12.5	Atodiad 5 – Cydredeg ag Amcanion Gwario a Ffactorau Llwyddiant Hanfodol	114
12.6	Atodiad 6 – Cyfleoedd Cydweithredu a Chodi Tâl.....	117
12.7	Atodiad 7 – Strategaeth Gaffael	120
12.8	Atodiad 8 – Strategaeth Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a Chyfathrebu	121
12.9	Atodiad 9 – Cofnod Ymgynghori â Budd-ddeiliaid.....	122
12.10	Atodiad 10 – Cynllun Adnoddau.....	123
12.11	Atodiad 11 - Geirfa.....	124

1 Rheoli Dogfen

Teitl y Ddogfen	Achos Busnes Amlinellol y Ganolfan Hyfforddi
Fersiwn	9.0
Paratowyd gan	G Grant
Dyddiad	10 Rhagfyr 2025
Gwiriwyd gan	L Bourne
Dyddiad	15 Rhagfyr 2025

2 Rheoli Fersiynau

Fersiwn	Dyddiad	Disgrifiad o'r newid/iadau	gan
3.0	15/07/25	Cynnwys cychwynnol ar gyfer pob un o'r 5 Achos	G Grant
4.0	22/09/25	Datblygu cynnwys ymhellach ar gyfer pob un o'r 5 Achos	G Grant
5.0	22/10/25	Cynnwys wedi'i ymgorffori o ddogfennau prosiect GTAGC, gan gynnwys Strategaeth y Rhaglen, Crynodeb Gweithredol drafft	G Grant
6.0	04/11/25	Drafftio golygiadau i bob pennod, wedi ychwanegu brandio newydd	G Grant
6.5	02/12/25	Achos Economaidd wedi'i ailstrwythuro, drafftio golygiadau i bob pennod	G Grant
8.0	10/12/25	Diweddariadau i'r fformat, newidiadau terfynol i'r cynnwys	G Grant
9.0	29/12/25	Diweddariadau i'r fformat	L.Bourne

3 Crynodeb Gweithredol

3.1 Cyflwyniad

Yn yr Achos Busnes Amlinellol hwn, nodir y rhesymeg, yr opsiynau a'r opsiwn a ffafrir ar gyfer datblygu Canolfan Hyfforddi newydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), o'r enw Hwb Awen, ym Mharc Busnes Llanelwy.

Mae'r enw Hwb Awen yn adlewyrchu pwrpas ac uchelgais y cyfleuster. Mae Hwb yn cyfleu syniad pwynt canolog - canolbwynt o egni, gweithgarwch a chysylltiad sy'n cryfhau'r sefydliad trwy ddod â phobl a gallu at ei gilydd. Mae Awen, sy'n golygu ysbrydoliaeth, yn tynnu ar dreftadaeth ddiwylliannol Cymru a'r traddodiad o ddysgu, creadigrwydd a thrawsnewid. Gyda'i gilydd, mae Hwb Awen yn cynrychioli man lle mae sgiliau'n cael eu cryfhau, ysbrydoliaeth yn cael ei meithrin a phobl yn cael eu cefnogi i dyfu, gan gydredeg yn uniongyrchol ag ymrwymiad y Gwasanaeth i ddatblygu gweithlu galluog, hyderus a gwydn.

Ceisio'r cynnig ddisodli safleoedd hyfforddi'r Gwasanaeth, sydd wedi dyddio ac ar wasgar yn ddaearyddol, ag un cyfleuster modern, cynhwysol a chynaliadwy sy'n bodloni gofynion hyfforddi statudol, yn cefnogi datblygu'r gweithlu ac yn cyfrannu at nodau cynaliadwyedd a llesiant ehangach Cymru.

Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn dilyn Model Pum Achos Trysorlys EF a chanllawiau Gwell Achosion Busnes Llywodraeth Cymru. Dengys fod y buddsoddiad arfaethedig yn strategol angenrheidiol, yn economaidd fanteisiol, yn fasnachol hyfyr, ac yn gyraeddadwy o fewn fframweithiau llywodraethu a risg realistig, gyda fforddiadwyedd yn ddibynnol ar sicrhau cyllid cyfalaf llawn Llywodraeth Cymru.

Mae'r Gwasanaeth eisoes wedi sicrhau safle addas o fewn ei raglen ystadau presennol ac mae'n hunanariannu pob cam paratoi a dylunio i sicrhau bod y prosiect wedi'i ddatblygu'n llawn ac yn barod ar gyfer ystyriaeth ariannu adeiladu Llywodraeth Cymru.

3.2 Crynodeb o'r Achos Strategol

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn gweithredu nifer o safleoedd hyfforddi ar draws Dolgellau, y Rhyl, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, ynghyd â defnydd cyfyngedig o gyfleuster ymddygiad tân 3^{ydd} parti. Mae'r cyfleusterau hyn yn heneiddio, yn amgylcheddol aneffeithlon ac nid ydynt bellach yn bodloni safonau modern ar gyfer diogelwch, cynhwysiant na realaeth weithredol.

Mae'r ganolfan hyfforddi newydd arfaethedig yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â thair her fawr:

- **Ansawdd a chyflwr** - mae safleoedd presennol yn agosáu at ddiwedd eu hoes weithredol ac nid ydynt yn bodloni'r safonau cyfredol ar gyfer awyru, efelychu na lles.
- **Lleoliad tameidiog** - mae nifer o safleoedd bach yn creu aneffeithlonrwydd, teithio gormodol a hyfforddiant anghyson.

- **Cydymffurfiaeth reoleiddiol ac amgylcheddol** - ni ellir bodloni gofynion iechyd, diogelwch a Sero Net newydd o fewn yr ystâd bresennol.

Mae'r prosiect yn cydreddeg yn gryf â:

- **Cynllun Rheoli Risg Cymunedol GTAGC (2024–2029);**
- Nodau **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;**
- **Blaenoriaethau cynaliadwyedd a datgarboneiddio Llywodraeth Cymru;** ac
- Argymhellion gan **Brif Gyngorydd Tân ac Achub (CFRA) Cymru** ar gysondeb a gallu hyfforddi.

Yr opsiwn a ffafrir gan y Gwasanaeth yw cyfleuster pwrpasol, canolog yn Llanelwy, sy'n cynnig amgylcheddau hyfforddi realistig, darpariaeth les fodern a hygyrchedd llawn. Mae'n ateb strategol, hirdymor sy'n galluogi GTAGC i hyfforddi'n ddiogel, yn gynhwysol ac yn gynaliadwy.

3.3 Crynodeb o'r Achos Economaidd

Dengys yr Achos Economaidd fod yr opsiwn a ffafrir ar gyfer canolfan hyfforddi ganolog newydd yn Llanelwy yn cynnig y gwerth cyffredinol gorau am arian i GTAGC a'r sector cyhoeddus ehangach. Arfarnwyd yr opsiynau'n drylwyr yn unol â methodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF a methodoleg Gwell Achosion Busnes Llywodraeth Cymru. Roedd y broses hon yn ystyried dros 100 o syniadau cychwynnol, wedi'u mireinio i 37 o opsiynau ar y rhestr hir, ac yna wedi'u cydgrynhoi'n bedwar opsiwn ar y rhestr fer:

1. **Gwneud Dim** - parhau i ddefnyddio'r safleoedd cyfredol.
2. **Gwneud y Lleiaf Posibl** - ychydig bach o waith uwchraddio cydymffurfiaeth yn unig.
3. **Canolfan Hyfforddi Newydd (yr Opsiwn a Ffafrir)** - adeiladu cyfleuster pwrpasol un asiantaeth yn Llanelwy.
4. **Canolfan Hyfforddi Well Newydd** - Yn unol ag Opsiwn 3 ynghyd â phropiau anstatudol ychwanegol ac ardaloedd arbenigol.

Aseswyd pob opsiwn yn erbyn Amcanion Gwario a Ffactorau Llwyddiant Hanfodol pendant. Daeth yr arfarniad i'r casgliad mai **Opsiwn 3** sy'n darparu'r gwerth cyffredinol gorau am arian.

Yn ôl dadansoddiad economaidd rhagarweiniol, mae Opsiwn 3 yn darparu effeithlonrwydd costau, arbedion gweithredol a buddion anariannol sylweddol, oes gyfan gan gynnwys:

- Gwell effeithlonrwydd gweithredol ac enillion ar fuddsoddiad hyfforddi (BTC01);
- Gwell ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd hyfforddiant (BTC02);
- Gwell lles, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu (BTC03);
- Llai o effaith amgylcheddol trwy ddyluniad cynaliadwy, ynni-effeithlon (BTC04); a

- Mwy o werth cymdeithasol trwy gyflogaeth leol, prentisiaethau ac ymgysylltu â'r gymuned (BTC05).

Dengys y dadansoddiad adennill costau'r rhesymeg economaidd gymhellol dros fuddsoddi. Byddai atal tuag **1.6 marwolaeth y flwyddyn** yn cyfiawnhau'r gwariant cyfalaf cyfan ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd. Nid yw'r cyfrifiad hwn yn cynnwys buddion ychwanegol fel lleihau anafiadau, osgoi difrod i eiddo, a gwell gwydnwch gweithredol. Pan ystyrir y buddion ehangach hyn, daw'r achos dros fuddsoddi yn gryfach byth, gan danlinellu potensial achub bywydau a gwerth cyhoeddus yr opsiwn a ffafir.

Bydd metrigau meintiol fel Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (NPSV) a Chymhareb Cost a Budd (BCR) yn cael eu cwblhau yn y cam Achos Busnes Llawn yn dilyn modelu ariannol manwl. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth gyfunol o ddadansoddi costau, trothwyon adennill costau, a buddion ansodol yn cefnogi'n gryf Opsiwn 3 yn ffordd ymlaen a ffafir.

I grynhoi, mae'r ganolfan hyfforddi newydd arfaethedig yn fuddsoddiad strategol, sy'n addas i'r dyfodol sy'n sicrhau'r gwerth cyhoeddus mwyaf posibl, yn gwella gallu gweithredol, ac yn cydreddeg â nodau cynaliadwyedd a chynhwysiant cenedlaethol.

3.4 Crynodeb o'r Achos Masnachol

Mae'r prosiect yn fasnachol hyfyw a bydd yn cael ei gyflawni trwy ddull Dylunio ac Adeiladu dau gam gan ddefnyddio fframweithiau sector cyhoeddus sefydledig.

Cafodd gwasanaethau dylunio eu caffael drwy fframwaith SCAPE, a bwriad y Gwasanaeth yw penodi priif contractwr drwy Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru.

Mae'r dull hwn yn sicrhau tryloywder, cystadleuaeth yn y farchnad a chyflawni gwerth cymdeithasol sy'n gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Bydd cymorth cyfreithiol yn cael ei ddarparu gan Veal Wasbrough Vizards LLP (VWV) o dan Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron.

Bydd risgiau masnachol (gan gynnwys cynnydd mewn costau, newidiadau dylunio a pherfformiad contractwyr) yn cael eu rheoli trwy fecanweithiau cytundebol safonedig, gan gynnwys darpariaethau peirianeg gwerth a rheoli newid clir.

3.5 Crynodeb o'r Achos Ariannol

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eisoes wedi sicrhau'r safle ym Mharc Busnes Llanelwy yn rhan o'i strategaeth ystadau ehangach, a ariennir drwy adnoddau cyfalaf presennol. Roedd y caffaeliad hwn yn benderfyniad strategol i sicrhau lleoliad prin ac addas yn hytrach nag ymrwymiad i unrhyw opsiwn cyflenwi unigol. Os bydd yr opsiwn a ffafir yn newid yn y cam Achos Busnes Llawn, mae'r safle'n cadw gwerth yn y farchnad a gellid ei werthu neu ei addasu at ddibenion gwahanol heb niwed ariannol.

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i hunan-ariannu'r holl weithgareddau hyd at a chan gynnwys Cam 4 RIBA, gan gynnwys dichonoldeb, datblygu dylunio, cynllunio a dogfennaeth dechnegol. O Gam 5 RIBA ymlaen, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu ceisio cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, yr amcangyfrifir ei fod yn **£50 miliwn**, i gyflawni'r gwaith adeiladu, gosod a chomisiynu.

Mae modelu fforddiadwyedd ar y gweill a bydd yn cael ei gwblhau cyn cyflwyno Achos Busnes Llawn. Awgryma'r arwyddion cynnar y gellir cynnwys yr opsiwn a ffafrir yng nghynllun ariannol tymor canolig y Gwasanaeth, yn amodol ar gadarnhau cyllid grant Llywodraeth Cymru. Mae oddeutu **£6.7 miliwn** o gostau hanesyddol a chostau galluogi eisoes wedi'u hymrwymo, sy'n dangos ymrwymiad cryf y Gwasanaeth i'r prosiect.

Modelwyd costau refeniw a chylch bywyd ar sail ddangosol a disgwylir iddynt fod yn ddichonadwy o fewn strategaeth ariannol y Gwasanaeth sydd ar ddod. Rhagwelir y bydd effeithlonrwydd gweithredol, gan gynnwys cydgrynhoi safleoedd hyfforddi a llai o deithio, yn arbed dros £0.3 miliwn y flwyddyn, gan gefnogi fforddiadwyedd hirdymor.

I grynhoi, mae'r Achos Ariannol yn cadarnhau bod yr opsiwn a ffafrir yn fforddiadwy gan ragdybio cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y prif gyfnod cyfalaf. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid a bydd yn mireinio amcangyfrifon costau, lwfansau risg a chyflleoedd arbed costau yn y cam Achos Busnes Llawn.

3.6 Crynodeb o'r Achos Rheoli

Mae trefniadau llywodraethu cadarn eisoes ar waith, dan oruchwyliaeth y Bwrdd Prosiect, wedi'i gadeirio gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sy'n gyfrifol am Hyfforddiant. Rheolir y prosiect gan y Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu ac fe'i cefnogir gan dîm prosiect amlddisgyblaethol a chynghorwyr allanol.

Mae Cynllun Prosiect, Cofrestr Risg a Chynllun Gwireddu Buddion clir wedi'u sefydlu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Cynhelir Adolygiadau Porth yn ystod cyfnodau allweddol i sicrhau parodrwydd a sicrwydd cyn symud ymlaen i Achos Busnes Llawn a chaffael.

Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau a bod ar waith yn 2029, yn amodol ar gymeradwyaeth cynllunio a chadarnhad cyllid.

3.7 Casgliad Cryno

Dengys yr Achos Busnes Amlinellol achos clir a chymhellol o blaid buddsoddi mewn Canolfan Hyfforddi newydd yn Llanelwy.

Mae'r opsiwn a ffafrir yn cyflawni'r cydbwysedd cryfaf o ran cyfatebiaeth strategol, gwerth am arian, y gallu i gyflawni a fforddiadwyedd, wrth hyrwyddo nodau cynaliadwyedd a llesiant Cymru.

Mae'n cydgrynhoi hen gyfleusterau sydd ar wasgar yn ganolfan fodern, gynhwysol ac amgylcheddol gyfrifol sy'n bodloni gofynion hyfforddiant statudol ac anghenion gweithlu'r dyfodol.

Yn amodol ar sicrhau cyllid cyfalaf llawn Llywodraeth Cymru, mae'r prosiect yn fforddiadwy o fewn strategaeth ariannol tymor canolig y Gwasanaeth. Bydd y gefnogaeth hon yn galluogi GTAGC i wireddu effeithlonrwydd gweithredol sylweddol, lleihau costau hirdymor a darparu gwerth cymdeithasol mesuradwy.

Bydd y Ganolfan Hyfforddi newydd yn darparu amgylchedd addas ar gyfer y dyfodol sy'n gwella diogelwch diffoddwyr tân, yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn dangos arweinyddiaeth y sector cyhoeddus mewn cynaliadwyedd. Mae'n sicrhau y gall y Gwasanaeth barhau i amddiffyn pobl a chymunedau Gogledd Cymru yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gyfrifol am ddegawdau i ddod.

4 Manylion yr Achos Busnes

Enw'r Prosiect	Canolfan Hyfforddi
Noddwr y Prosiect	Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Rheolwr Prosiect	Lee Bourne, Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu
Cyfeirnod y Prosiect	OBCNP001
Gwerthoedd Craidd GTAGC	Ymdrechu i gael Rhagoriaeth Trwy gynnig hyfforddiant hygyrch, o ansawdd uchel, mae'r ganolfan yn cefnogi'r holl staff i adeiladu ar eu cryfderau a mynd i'r afael â meysydd twf - gan helpu pawb i gyrraedd ei botensial llawn. Bydd dulliau hyfforddi blaengar a senarios realistig yn creu amgylchedd sy'n meithrin arloesedd, dysgu parhaus a thwf proffesiynol. Pobl Trwy gynnig mynediad cyfartal at gyfleoedd hyfforddi a datblygu, mae'r ganolfan yn helpu i sicrhau bod cyflawniad ac ymdrech yn cael eu cydnabod a'u gwobrwyo'n deg. Mae'r ganolfan yn cael ei dylunio i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch, gan sicrhau bod yr holl staff - waeth beth fo'u cefndir neu eu rôl - yn gallu hyfforddi mewn amgylchedd diogel, cefnogol sy'n parchu anghenion unigol. Datblygwyd y prosiect wedi'i ddatblygu gyda thryloywder a chydweithrediad wrth ei wraidd. Mae'r dull agored hwn yn magu ymddiriedaeth i'r ddwy ochr ac yn atgyfnerthu ymrwymiad y Gwasanaeth i uniondeb Amrywiaeth a Chynhwysiant Mae'r ganolfan hyfforddi'n cael ei dylunio gyda phwyslais clir ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd yn cynnwys cyfleusterau lles modern sy'n mynd i'r afael â diffygion presennol ac yn sicrhau hygyrchedd i'r holl staff, waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau. Mae llywodraethu'r prosiect yn cynnwys ymgysylltu gweithgar â staff, fel gweithgorau a dolenni adborth, gan sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi. Gwasanaethu'r Gymuned Bydd propiau'r ganolfan hyfforddi yn galluogi senarios hyfforddi lleol i ddiogelu'r cymunedau a wasanaethwn yn well. Gall y ganolfan wasanaethu fel cyfleuster a rennir ar gyfer hyfforddiant ar y cyd â gwasanaethau brys eraill a grwpiau cymunedol. Mae hyn yn meithrin cydweithio, yn gwella'r gallu i ryngweithredu, ac yn cryfhau galluedd ymateb ar y cyd - sy'n allweddol i weithio'n effeithiol gyda phartneriaid. Bydd y cynllun ymgysylltu a chyfathrebu â budd-ddeiliaid yn sicrhau ein

	bod yn cyflawni'r prosiect gyda thryloywder, gan ddal ein hunain yn atebol i'r rhai a wasanaethwn. 
Lliniaru Risg	Cymerwyd y risgiau canlynol o Log Risgiau Corfforaethol y Gwasanaeth ac maent yn defnyddio'r un cyfeirnodau (e.e. TD1) i gefnogi croesgyfeirio. TD 1 - Oherwydd ansicrwydd o ran argaeledd cyllid ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, mae risg na allai cyfleusterau hyfforddi fod yn addas i'r diben mwyach os na fuddsoddir mewn cynnal a chadw a gwella cyfleusterau yn y dyfodol. TD2 - Mae argaeledd cyfleusterau hyfforddi presennol yn dibynnu'n fawr ar y seilwaith presennol a lleoliadau trydydd parti. Mae risg y gallai newidiadau annisgwyl i gytundebau allanol neu gyfyngiadau amgylcheddol amharu ar fynediad i'r cyfleusterau hyn, gan effeithio ar barhad wrth gyflwyno hyfforddiant. Byddai'r ganolfan hyfforddi newydd yn lliniaru'r risg hon gan y bydd y safle'n cefnogi amcanion amgylcheddol. Hefyd byddai bod yn berchen ar y safle yn lliniaru problemau sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfleusterau trydydd parti. TD7 - Oherwydd argymhellion a wnaed gan y Prif Gyngorydd ac Arolygydd Tân ac Achub, mae perygl y bydd angen gwneud newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae tactegau diffodd tân yn cael eu haddysgu. Nod y dyluniad hyfforddi newydd yw paratoi at y dyfodol gyda'r gallu i addasu i anghenion hyfforddi esblygol. TD10 - Oherwydd diffyg cyfleusterau cynhwysol mae risg y gall aelodau o grwpiau lleiafrifol deimlo eu bod wedi'u heithrio neu eu bod yn destun gwahaniaethu.

	Bydd hygyrchedd a chynhwysiant yn brif ystyriaeth wrth ddylunio'r ganolfan hyfforddi. TD11 - Oherwydd mannau lles cyfyng gydag awyru a goleuadau gwael mewn rhai safleoedd hyfforddi, mae risg y gall unigolion niwroamrywiol neu rai sydd â sensitifrwydd synhwyrdd fod yn fwy anghysurus neu ofidus. Bydd hygyrchedd a chynhwysiant yn brif ystyriaeth wrth ddylunio'r ganolfan hyfforddi.
Amcan Adrannol	TD01- Cyflawni Prosiect y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu Mae'r amcan adrannol hwn yn cyfrannu tuag at ein nod tymor hwy o hyfforddiant i ddarparu rhagoriaeth weithredol ac i sicrhau bod gennym brosesau hyfforddi a datblygu pobl sy'n harneisio technoleg ar gyfer cyflawni effeithlon. TD03 - Parhau i feithrin diwylliant gweithle cynhwysol sy'n grymuso pob aelod o staff i ragori a mynd i'r afael yn effeithiol ag anghenion amrywiol ein cymunedau Bydd y ganolfan hyfforddi newydd yn creu amgylchedd cefnogol, hygyrch a chynhwysol lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso i berfformio ar eu gorau.
Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Mae'r ganolfan hyfforddi newydd yn cefnogi Nodau Llesiant Cymru drwy greu cyfleuster modern, cynhwysol a chynaliadwy sydd o fudd i staff, cymunedau a'r amgylchedd. • Cymru lewyrchus - Bydd y ganolfan yn creu cyflogaeth leol ac yn cefnogi cyflenwyr lleol, gan helpu i ysgogi'r economi ranbarthol. • Cymru gydnerth - Mae gwell hyfforddiant yn golygu parodrwydd gweithredol cryfach, gan wella diogelwch a gwydnwch y cyhoedd. • Cymru iachach - Dim llosgiadau carbonaidd heb dechnoleg sgwrio gymeradwy, gan ddiogelu ansawdd aer lleol ac iechyd y cyhoedd. • Cymru fwy cyfartal - Mae cyfleusterau cwbl hygyrch, cynhwysol yn sicrhau bod pawb yn gallu hyfforddi a gweithio'n ddiogel ac yn hyderus. • Cymru o gymunedau cydlynus - Bydd ymweliadau cymunedol, ymarferion ar y cyd a diwrnodau agored yn meithrin ymddiriedaeth ac yn cryfhau perthnasoedd lleol.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** - Bydd arwyddion dwyieithog, defnydd o enwau lleoedd Cymraeg a digwyddiadau diwylliannol yn adlewyrchu ac yn dathlu hunaniaeth Gymreig.
- **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang** - Targedu "Ardderchog" BREEAM, lleihau allyriadau teithio a chydgrynhoi cyfleusterau i leihau ôl troed carbon a defnydd adnoddau.

Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi dangosyddion cenedlaethol allweddol, gan gynnwys sgiliau a chymwysterau, ynni adnewyddadwy, llai o allyriadau carbon, defnydd o'r Gymraeg, cyfranogiad cymunedol ac amgylcheddau lleol iach.

5 Llwybr Cymeradwyo

Cyflwyniad gan PM i:

Cymeradwywyd gan	Dyddiad	Llofnod
Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd	18/12/2025	T: AL
Pennaeth Perfformiad, Cynllunio a Thrawsnewid	18/12/2025	MR Plat
Is-grŵp Cyllid	10/12/2025	ER ar ran yr is-grŵp
Is-grŵp Gaffael	15/12/2025	Jack Millward JM ar ran yr is-grŵp
Is-grŵp Adnoddau Dynol	18/12/2025	LMH ar ran yr is-grŵp
Is-grŵp Cyfathrebu	15/12/2025	LLRE ar ran yr is-grŵp
Grŵp Prosiect	05/01/2026	LB ar ran yr grŵp
Bwrdd y Prosiect	19/12/2025	PSTC Justin Evans
Noddwr y Prosiect	17/12/2025	PSTC Justin Evans
Tîm Arweinyddol Ffurfiol y Gwasanaeth	17/12/2025	ar ran y Tîm Arweinyddol Ffurfiol y Gwasanaeth
Yr Awdurdod Tân	19/01/2026	

6 Achos Strategol

Mae'r Achos Strategol yn gosod y cyd-destun ar gyfer y buddsoddiad arfaethedig ac yn disgrifio sut mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'n cynnwys:


- Proffil o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC);
- Crynodeb o'r ffordd y mae'r cynllun yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol;
- Sut y bydd y cynllun yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau GTAGC;
- Yr achos o blaid newid;
- Sut mae budd-ddeiliaid wedi'u cynnwys ac wedi cyfrannu at ddatblygiad yr achos; a
- Rhyng-ddibyniaeth a chyfyngiadau ar y cynllun arfaethedig.

6.1 Y Sefydliad

Arweinir y cynnig ar gyfer canolfan hyfforddi ganolog newydd gan GTAGC, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau tân ac achub ledled y rhanbarth. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu o dan gyfarwyddyd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC), sydd â dyletswydd statudol o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i sicrhau bod hyfforddiant priodol ar waith ar gyfer ymateb i danau, gwrthdrawiadau ar y ffordd ac argyfyngau eraill.

Mae llywodraethu'r prosiect yn cynnwys nifer o fudd-ddeiliad allweddol o fewn y Gwasanaeth. Cafodd yr achos busnes gefnogaeth mewn egwyddor gan Weithgor Aelodau'r Ganolfan Hyfforddi¹, Pwyllgor Craffu ar Gyllideb yr Aelodau a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur. Ym mis Hydref 2024, [cymeradwyodd ATAGC yn ffurfiol](#) yr Achos Amlinellol Strategol. Mae'r gymeradwyaeth derfynol ar gyfer y datblygiad yn perthyn i ATAGC. Arweinir y prosiect gan Justin Evans, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol ac fe'i rheolir gan Lee Bourne, y Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu.

¹ Roedd Gweithgor Aelodau'r Ganolfan Hyfforddi yn cynnwys aelodau enwebedig o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.



Figur 1 : Ardal Wasanaeth GTAGC

6.2 Y Cynnig

Mae'r cynnig ar gyfer datblygu canolfan hyfforddi ganolog newydd ym Mharc Busnes Llanelwy yn Sir Ddinbych. Rhagwelir y bydd y cyfleuster pwrrpasol hwn yn ganolfan fodern ag adnoddau cyfoes a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion hyfforddi a gofynion gweithredol esblygol y gwasanaeth tân ac achub.

Bydd y ganolfan hyfforddi newydd yn mabwysiadu dull pensaernïol thematig, gan sefydlu parthau gwahanol sy'n adlewyrchu'r risgiau presennol a disgwyliedig sydd yn gyffredin yng Ngogledd Cymru. Bydd y sectorau rhyng-gysylltiedig hyn yn golygu bod modd efelychu senarios argyfwng cymhleth, aml-asiantaeth o fewn amgylchedd hyfforddi diogel a realistig. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl bersonél gwasanaeth yn cael hyfforddiant trochi trylwyr ac ymarferol, gan wella eu sgiliau, eu cydlynw a'u galluoedd gwneud penderfyniadau.

Ar ben hynny, mae'r weledigaeth yn cynnwys meithrin cydweithio â phartneriaid o [Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru](#) drwy ymarferion hyfforddi amlasiantaethol. Bydd yr integreiddio hwn yn hyrwyddo gweithrediad effeithiol [Cyd-egwyddorion Rhyngweithredu'r Gwasanaethau Brys \(JESIP\)](#) ac yn cryfhau galluoedd ymateb brys cyffredinol ar draws y rhanbarth.



Figur 2 : Argraff Artist o Ganolfan Hyfforddi newydd Hwb Awen

Bydd y ganolfan newydd yn cael ei dylunio gyda ffocws ar gydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol cynyddol a nodau cynaliadwyedd, gan anelu at safon Ddi-garbon ar gyfer ynni a reoleiddir ac asesiad BREEAM² 'Ardderchog'. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â diffygion cyfredol mewn cyfleusterau lles a darpariaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Yn y pen draw, gweledigaeth y Gwasanaeth yw creu amgylchedd hyfforddi addas ar gyfer y dyfodol sy'n sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd personél y gwasanaeth, yn bodloni dyletswyddau statudol ac yn hyrwyddo dull cyfrifol byd-eang o baratoi at argyfwng.

Yn dilyn arfarniad opsiynau cynhwysfawr, a ddisgrifir yn yr Achos Economaidd, gwerthusodd y Gwasanaeth wahanol ddulliau ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau sylweddol gyda'r cyfleusterau hyfforddi presennol. Nodwyd mai datblygu cyfleuster hyfforddi canolog newydd yn Llanelwy oedd yr opsiwn a ffafrir. Dewiswyd yr opsiwn hwn gan ei fod yn cynnig y cydbwysedd gorau o welliant gweithredol a chyfrifoldeb cyllidol. Dangosodd dadansoddiad fod yr opsiwn hwn yn darparu'r 'gwerth am arian' gorau ymhlith yr opsiynau a ystyrir. Ar ben hynny, mae'n lliniaru'n sylweddol y risgiau gweddilliol sy'n gysylltiedig â chynnal neu uwchraddio'r cyfleusterau sydd wedi dyddio ac sydd ar wasgar, gan gyd-fynd ag angen y Gwasanaeth am alluoedd hyfforddi modern, canolog a hyblyg sy'n bodloni gofynion craidd ac yn caniatáu ehangu yn y dyfodol.

² Mae BREEAM yn safon fyd-eang ar gyfer asesu ac ardystio cynaliadwyedd yr amgylchedd adeiledig.

6.3 Yr Achos o blaid Newid

6.3.1 Cefndir

Mae Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn gosod dyletswydd statudol ar ATAGC i ddarparu hyfforddiant i ddelio â thanau, gwrthdrawiadau ar y ffordd ac argyfyngau rhagnodedig eraill. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn gweithredu cyfleusterau hyfforddi yn Nolgellau, y Rhyl, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, ac mae ganddo ddefnydd cyfyngedig o gyfleuster 3^{ydd} parti ar gyfer Hyfforddiant Ymddygiad Tân. Er bod y safleoedd hyn yn addas i'r diben pan gawsant eu hadeiladu gyntaf, mae adolygiad o'r ystâd gyfan yn dangos nad ydynt bellach yn gallu cadw i fyny â safonau modern nac ag ymrwymiad y Gwasanaeth i gyrraedd carbon sero net erbyn 2030.

Adeiladir yr achos dros newid o amgylch tair her graidd y cyfleusterau presennol:

- 1) Eu hansawdd a'u natur
- 2) Y lleoliad
- 3) Bodloni gofynion rheoleiddiol newydd

Disgrifir y rhain yn fanwl yn y paragraffau canlynol.

6.3.2 Heriau gydag Ansawdd a Natur Hen Ffasiwn y Cyfleusterau Presennol

Oedran a Chylflwr: Mae'r rhan fwyaf o adeiladau presennol yn dyddio o'r 1990au neu'n gynharach, gyda systemau awyru, tynnu, TG ac efelychu hen ffasiwn sy'n gostus i'w cynnal. Er enghraifft, yn adeilad Dolgellau, a godwyd ym 1992, nid oes cyfleusterau tynnu mwg na goleuadau diogelwch ac mae adolygiad allanol gan IKG Consulting wedi amlygu bod ganddo lai na phum mlynedd ddefnyddiol ar ôl heb fuddsoddiad sylweddol. Mae offer clyweledol adeilad y Rhyl wedi dyddio, ac mae angen adnewyddu'r dechnoleg yn llawn yn ei ystafell meistroli digwyddiadau, ac angen ei huwchraddio'n sylweddol cyn pen deng mlynedd i gynnal yr ymarferoldeb presennol.

Bylchau Capasiti a Realiaeth: Nid oes dim gallu ar gyfer adeiladau canolig neu uchel iawn ar draws yr ystâd, dim capasiti ar gyfer defnyddio ewyn hyfforddi yn ddiogel, dim digon o arwyneb solet ar gyfer senarios ar raddfa fawr a dim canolfan bwrpasol ar gyfer cynadleddau na chysiau meistroli digwyddiadau mawr. Yn hanfodol, nid yw'r cyfleusterau Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adran (CFBT) presennol yn adlewyrchu realiti tanau modern, sydd â chyfraddau rhyddhau gwres llawer uwch oherwydd cynnwys a deunydd inswleiddio adeiladau cyfoes. Yn aml, mae'n rhaid i hyfforddwyr gael benthg offer o safleoedd Gwasanaeth eraill, gan danlinellu'r diffyg adnoddau pwrpasol ar gyfer hyfforddiant realistig ac effeithiol.

Darpariaeth Annigonol o ran Lles a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Nid yw'r cyfleusterau presennol yn darparu cyfleusterau lles digonol, gan ddangos darpariaeth gyfyngedig ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae hyn yn cynnwys diffyg gwahanu cyfleusterau, absenoldeb ystafell ffydd neu ystafell dawel, a diffyg penodol cyfleusterau rhywedd-niwtral mewn ardaloedd cawod gymunedol, gan fethu â chyrraedd safonau cyfoes o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a gofynion gweithlu'r dyfodol.

Cyfngiadau wrth Ddiheintio: Er bod y cyfleusterau hyfforddi presennol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch gyfredol, ni chawsant eu dylunio i adlewyrchu ymchwil ac arfer gorau diweddaraf y sector o ran diffoddwyr tân yn dod i gysylltiad â halogion. Mewn astudiaethau diweddar, amlygwyd pwysigrwydd cyfleusterau diheintio cyflym a chynhwysfawr (e.e. protocolau "cawod o fewn yr awr"). Am fod safleoedd hyfforddi presennol y Gwasanaeth wedi dyddio ac ar wasgar, anodd yw cyrraedd yn gyson y safonau hyn sy'n dod i'r amlwg, a rhai ymarferion yn mynnu bod personél ac offer yn symud rhwng safleoedd (e.e. y cyfleuster 3^{ydd} parti a Glannau Dyfrdwy) a hynny mewn cyflwr halogedig posibl.

6.3.3 Heriau gyda Lleoliad y Cyfleusterau Presennol

Ôl Troed Tameidiog ac Aneffeithlonrwydd Gweithredol: Mae lledaeniad safleoedd hyfforddi (Dolgellau, y Rhyl, Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a defnydd cyfyngedig o gyfleuster 3^{ydd} parti) yn gorfodi criwiau, peiriannau a hyfforddwyr i deithio'n bell, yn rhwystro ymarferion aml-bwmp ac aml-asiantaeth ac yn arwain at ddarparu hyfforddiant anghyson.

Materion Hygyrchedd: Mae lleoliad safle Dolgellau yn golygu nad yw o fewn cyrraedd hawdd i fwyafriaf y gorsafoedd ar draws ardal y Gwasanaeth. Mae teithio i nifer o leoliadau gwasgaredig, a theithio rhyngddynt, yn cynyddu cymhlethdodau logistaidd a chostau gweithredol a hefyd yn cyfrannu at allyriadau carbon.

Dibyniaeth ar Gyfleusterau Trydydd Parti: Defnyddir yr uned ymddygiad tân 3^{ydd} parti o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn hytrach na phrydles ffurfiol, gan beri risg uchel na fydd y safle ar gael ar fyr rybudd oherwydd anghenion gweithredol y cwmni. Mae'r cyfleuster hwn hefyd yn cyflwyno heriau gweithredol fel mynediad cyfyngedig oherwydd diogelwch uchel, anhawster cynnal a chadw a mynediad cyfyngedig i gyfleusterau ystafell ddosbarth a lles, sy'n aml yn gofyn am ddefnydd ar y cyd â Gorsaf Dân Glannau Dyfrdwy.

Cyfngiadau Penodol i Safle (Sŵn/Cynllunio): Mae Wrecsam a Glannau Dyfrdwy yn agos at dai, sy'n byrhau ffenestri gweithredu, yn cyfyngu ar ymarferion sy'n cynhyrchu sŵn ac yn wynebu terfynau cynllunio sy'n cyfyngu ar ymarferion llosgi ac yn cyfyngu ar ehangu yn y dyfodol. Mae Dolgellau o fewn parth llifogydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac mae llosgiadau hyfforddi lle nad yw'r mwg yn cael ei ddal na'i hidlo ar hyn o bryd wedi ysgogi cwynion lleol ac yn peri perygl camau gorfodi neu gau'n sydyn.

6.3.4 Rheoliadau Newydd a Gofynion Esblygol ar gyfer Cyfleusterau

Dyletswyddau Statudol a Safonau Cenedlaethol: Byddai dibyniaeth barhaus ar gyfleusterau presennol yn gadael bylchau clir yn erbyn safonau cenedlaethol ar gyfer meistrolï digwyddiadau, ymateb gweithredol a chydweithio. Mae esblygiad egwyddorion meistrolï digwyddiadau, gyda mwy o ffocws ar asesu risg, ymwybyddiaeth sefyllfaol a chydweithio, yn golygu bod angen cyfleusterau modern.

Argymhellion Prif Gyngorydd Tân ac Achub Cymru: Nododd [adolygiad thematig 2022 y Prif Gyngorydd](#) o hyfforddiant gweithredol heriau hanfodol, gan gynnwys diffyg amser ar gyfer hyfforddiant, diffyg hyfforddiant ymarferol safonol, problemau gyda phellteroedd teithio a Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adran nad yw'n adlewyrchu realiti tân modern. Mae'r ganolfan newydd arfaethedig yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r rhain, gan ddarparu cyfleusterau

effeithlon, mannau pwrpasol ar gyfer hyfforddiant safonedig, lleoliad mwy hygrych a phropiau hyfforddi tân realistig ar gyfer amodau tân cyfoes.

Rheoliadau Amgylcheddol a Nodau Cynaliadwyedd: Ar hyn o bryd nid oes gan yr un o'r safleoedd presennol dechnoleg glanhau mwg na systemau ynni modern, gan olygu nad yw'r ystâd yn cydreddeg â rheoliadau amgylcheddol esblygol nac ymrwymiad yr Awdurdod i gyrraedd carbon sero net erbyn 2030. Ni fyddai dull "gwneud y lleiaf posibl" yn bodloni'r ymrwymiad hwn ac mae'n mentro erlyn amgylcheddol neu wrthwynebiadau cynllunio. Y nod gyda'r ganolfan newydd yw bod yn Ddi-garbon ar gyfer ynni dan reolaeth ac asesiad BREEAM 'Ardderchog', sy'n cyd-fynd â'r targedau hanfodol hyn.

Mae'r prosiect bellach wedi'i gofrestru'n ffurfiol o dan BREEAM Fersiwn 6 (Rhif Cofrestru: BREEAM-0136-2847). Mae'r cofrestriad cynnar hwn yn dangos ymrwymiad y Gwasanaeth i ddarparu adeilad cynaliadwy, uchel ei berfformiad ac yn sicrhau bod gofynion BREEAM yn cael eu hymgorffori o ddechrau'r dylunio.

Bydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod y safonau Sero Net a chynaliadwyedd hyn yn egwyddorion dylunio ond eu bod hefyd wedi'u hymgorffori yn y broses gaffael, gyda chydymffurfiaeth yn cael ei monitro a'i gorfodi trwy ddangosyddion perfformiad allweddol cyflenwyr a strwythurau llywodraethu prosiectau.

Yn ogystal, bydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod cynhyrchion adeiladu yn cael eu cyrchu'n gyfrifol, gyda gofynion wedi'u hymgorffori'n gytundebol mewn caffael a'u gwirio trwy safonau ardystio ac adrodd cydnabyddedig.

Anghenion y Gweithlu yn y Dyfodol: Mae anallu'r cyfleusterau presennol i fodloni gofynion y gweithlu yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a chyfleusterau rhywedd-niwtral, yn amlygu bwlch pwysig. Dyluniwyd y cyfleuster newydd gyda phwyslais clir ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys cyfleusterau lles modern i sicrhau hygrychedd a pharch at anghenion unigol.

6.3.5 Cyd-fynd ag amcanion/blaenoriaethau strategol

Mae'r cyfleuster hyfforddi newydd arfaethedig yn dangos cyfatebiaeth glir ag amcanion a blaenoriaethau strategol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'n cefnogi dyletswyddau statudol a Chynllun Rheoli Risg Cymunedol y Gwasanaeth, yn cyfrannu at nodau polisi Llywodraeth Cymru ynghylch cynaliadwyedd a gwydnwch, ac yn adlewyrchu safonau cenedlaethol a osodwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Penaeithiaid Tân a chyrrff rheoleiddio eraill. Manylir ymhellach ar sut mae'n cyd-fynd â'r amcanion a'r blaenoriaethau hyn yn yr is-adrannau canlynol.

6.3.5.1 Amcanion Strategol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Arweinir ATAGC gan bum egwyddor graidd, fel y disgrifir yn ei [Gynllun Rheoli Risg Cymunedol \(CRhRC\) 2024-2029](#). Mae datblygu canolfan hyfforddi ganolog newydd yn fenter strategol a fydd yn cefnogi cyflawni a gwella pob un o'r egwyddorion hyn, gan sicrhau y gall y Gwasanaeth barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.



Ffigur 3 : Pum Egwyddor y Gwasanaeth

Egwyddor y Gwasanaeth Tân	Sut mae'r Ganolfan Hyfforddi yn Cefnogi'r Egwyddor Hon
Ein Hegwyddor Pobl <i>Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir</i>	Bydd y ganolfan yn galluogi hyfforddiant cyson, o ansawdd uchel, mewn man canolog ar gyfer criwiau gweithredol a rolau arbenigol, gan sicrhau bod gan bersonél y sgiliau a'r hyder cywir pan gaiff ei ddefnyddio. Bydd cyfleusterau gwell hefyd yn cefnogi recriwtio, cadw a lles staff.
Ein Hegwyddor Atal <i>Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel</i>	Bydd y safle'n cefnogi gweithgareddau hyfforddi amlasiantaethol a chymunedol, gan ganiatáu i swyddogion atal hyfforddi a chydweithio â phartneriaid allanol (e.e. ysgolion, iechyd a llywodraeth leol) mewn amgylchedd mwy cynhwysol a hygyrch.
Ein Hegwyddor Diogelu <i>Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd</i>	Bydd y ganolfan yn cefnogi hyfforddiant ymarferol ar gyfer swyddogion diogelwch tân ac aseswyr risg, gan alluogi dysgu seiliedig ar senarios sy'n adlewyrchu amgylcheddau masnachol a diwydiannol yn y byd go iawn. Bydd hefyd yn caniatáu ymarferion cydweithredol gyda busnesau lleol a phartneriaid rheoleiddio, gan gefnogi canlyniadau diogelwch tân mwy cyson ac effeithiol ledled y rhanbarth.
Ein Hegwyddor Ymateb <i>Darparu ymateb brys effeithiol</i>	Trwy gydgrynhoi asedau hyfforddi mewn canolfan bwrpasol, bydd y ganolfan yn gwella parodrwydd, cysondeb a gallu'r Gwasanaeth ar draws meysydd meistroli digwyddiadau, achub technegol a defnyddio gweithredol.

Ein Hegwyddor Amgylchedd <i>Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.</i>	Bydd y ganolfan yn bodloni safonau cynaliadwyedd uchel, yn lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio ac yn dileu adeiladau etifeddol aneffeithlon, allyriadau uchel - gan gefnogi lleihau carbon a chydymffurfiaeth amgylcheddol.
---	--

Tabl 1 : Sicrhau bod y Cyfleusterau Hyfforddi Newydd yn cyd-fynd ag Egwyddorion Craidd y Gwasanaeth

6.3.5.2 Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Mae'r Ganolfan Hyfforddi newydd arfaethedig yn dangos cyfatebiaeth glir a mesuradwy â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar draws pum maes polisi craidd:

1. Sero Net a Chynaliadwyedd Amgylcheddol

Bydd y prosiect yn darparu cyfleuster 'Ardderchog' BREEAM, Di-garbon ar gyfer ynni dan reolaeth, gan gefnogi'n uniongyrchol gynllun [Sero Net Cymru \(2021–2025\)](#) a [thargedau lleihau carbon 2030 Llywodraeth Cymru](#). Bydd cydgyrnhoi pum safle gwasgaredig mewn un campws modern yn lleihau milltiroedd cerbydau ac allyriadau cysylltiedig, gan gyd-fynd ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatgarboneiddio'r ystâd gyhoeddus ac ymgorffori meddwl sero net ym mhob buddsoddiad cyhoeddus.

2. Cymru Lewyrchus a Chydnerth

Bydd adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Hyfforddi yn creu cyfleoedd lleol o ran cyflogaeth, prentisiaethau a'r gadwyn gyflenwi, gan gefnogi amcanion [Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru](#) a [Bargen Twf Gogledd Cymru](#) o fuddsoddi mewn sgiliau a swyddi cynaliadwy. Trwy wella realaeth hyfforddi a'i allu i ryngweithredu, mae'r prosiect hefyd yn adeiladu gwydnwch sefydliadol a chymunedol yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru.

3. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r ganolfan newydd yn ymgorffori dylunio cynhwysol a darpariaeth les rywedd-niwtral, gan fodloni ymrwymïadau [Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 i 2029](#) a hyrwyddo'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o dan adran 1 [Deddf Cydraddoldeb 2010 \(Cymru\)](#). Mae'n cefnogi nod "Cymru fwy cyfartal" Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy sicrhau bod yr holl staff, waeth beth fo'u cefndir, eu hiaith neu eu gallu, yn gallu hyfforddi'n ddiogel ac yn hyderus.

4. Partneriaeth a Chydweithio

Bydd y ganolfan megis canolfan ranbarthol ar gyfer hyfforddiant amlasiantaethol ar draws Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru, gan gefnogi'n uniongyrchol egwyddorion JESIP a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus integredig o dan Genedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae'n cynnig llwyfan gwirioneddol ar gyfer arloesi traws-sector, parodrwydd i ymateb i argyfwng a rhannu ymgysylltiad â'r gymuned.

5. Diwylliant, Iaith a Chymuned

Yn unol â strategaeth [Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr](#), bydd yr holl arwyddion a deunyddiau diogelwch yn ddwyieithog, a'r Gymraeg yn cael yr un amlygrwydd. Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu defnyddio'r adeilad i gynnal digwyddiadau cymunedol a rhaglenni ymgysylltu ag ysgolion, gan gryfhau gwead diwylliannol Sir Ddinbych a chyfrannu at "Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu."

Mae'r Ganolfan Hyfforddi newydd arfaethedig yn cefnogi saith nod llesiant [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#):

- **Cymru lewyrchus** - Oherwydd graddfa gynyddol ac anghenion gweithredol safle mwy o faint, mae cyfle posibl y bydd angen rolau ychwanegol i gefnogi'r cyfleuster, megis personél diogelwch, staff arlwyo, a chynnal a chadw safle, a allai arwain at greu cyfleoedd swyddi lleol newydd a gwell ymgysylltu â'r gymuned.
- **Cymru gydnerth** - Mae gwell darpariaeth hyfforddiant yn arwain at well ymateb gweithredol, sydd yn ei dro'n cryfhau diogelwch cymunedol ac yn cyfrannu at Gymru fwy cydnerth.
- **Cymru iachach** - Drwy ddarparu mannau lles hygyrch a chyfleusterau campfa ar y safle, mae'r ganolfan yn annog staff i ddewis ffyrdd iachach o fyw, gan gefnogi gwell lles corfforol a meddyliol a chyfrannu at Gymru iachach.
- **Cymru fwy cyfartal** - Drwy sicrhau bod y ganolfan hyfforddi yn gwbl gynhwysol a hygyrch, mae canlyniad cadarnhaol y gall pob unigolyn - waeth beth fo'i allu, ei hunaniaeth rhywedd, neu ei gefndir - gymryd rhan yn gyfartal ac yn ddiogel, a allai arwain at fwy o gyfle cyfartal, gwell ymddiriedaeth gymunedol, a symud tuag at Gymru fwy cyfartal.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** - Dyluniwyd y ganolfan hyfforddi i fod yn gyfleuster ar gyfer rhagoriaeth weithredol ond hefyd yn ganolbwynt ar gyfer rhyngweithio cymunedol. Bydd y ganolfan yn cynnal diwrnodau agored, rhaglenni ymwybyddiaeth, ac ymarferion ar y cyd â chymunedau lleol. Mae'r gweithgareddau hyn yn meithrin cyd-ddealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng y gwasanaethau brys a'r cyhoedd, sy'n hanfodol ar gyfer cymunedau cydlynus.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** - Trwy ymgorffori'r Gymraeg a'i diwylliant yn ffabrig y profiad hyfforddi - o sesiynau briffio diogelwch i efelychiadau trochi - daw'r ganolfan yn fan lle mae hunaniaeth ddiwylliannol yn cael ei pharchu ond hefyd ei dathlu. Bydd gan yr adeilad arwyddion dwyieithog, a'r Gymraeg yn cael yr un amlygrwydd. Bydd ystafelloedd neu'r adeilad yn cael eu henwi ar ôl lleoedd yng Nghymru i adlewyrchu hunaniaeth ranbarthol. Bydd y man cynadleda'n caniatáu i staff ymuno â'i gilydd, gan gynnal digwyddiadau sy'n dathlu ein diwylliant.
- **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang** - Nod y ganolfan hyfforddi yw ennill sgôr 'Ardderchog' BREEAM sy'n dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd. Trwy gydgrynhoi hyfforddiant mewn cyfleuster canolog, effeithlon, mae GTAGC yn lleihau dyblygu, allyriadau teithio, a gwastraff adnoddau. Mae hyn yn cefnogi ymrwymïadau hinsawdd ehangach Cymru ac yn dangos sut y gall gwasanaethau cyhoeddus arwain trwy esiampl o ran lleihau'r effaith amgylcheddol.

Bydd prosiect y ganolfan hyfforddi hefyd yn cyfrannu at y [Dangosyddion a Cherrig Milltir Cenedlaethol](#) canlynol:

- **08** Oedolion â chymwysterau
- **12** Ynni adnewyddadwy
- **14** Ôl troed byd-eang
- **23** Pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys
- **36** Pobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd
- **41** Allyriadau nwyon tŷ gwydr
- **43** Ecosystemau iach

Ar y cyd, mae'r cyfatebiaethau hyn yn dangos y bydd y ganolfan hyfforddi newydd yn hyrwyddo'r gwaith o gyflawni canlyniadau lluosog Llywodraeth Cymru - datgarboneiddio, gwaith teg, cydraddoldeb, gwydnwch cymunedol, datblygu sgiliau a chadwraeth ddiwylliannol.

Yn unol â hynny, mae'r prosiect yn cydreddeg yn benigamp â'r [Rhaglen Lywodraethu \(2021-2026\)](#) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan atgyfnerthu'r achos dros gymorth grant cyfalaf llawn.

6.3.5.3 Blaenoriaethau'r Sector Tân Cenedlaethol

Yn [adolygiad thematig](#) Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru a amlygwyd yn adran 6.3.4, tanlinellir pwysigrwydd dadansoddi hyfforddiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth a mynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig ag argaeledd diffoddwyr tân a safoni hyfforddiant. Mae datblygu canolfan ganolog gyda chyfleusterau modern yn ymateb yn uniongyrchol i'r ystyriaethau cenedlaethol hyn trwy alluogi darparu hyfforddiant cyson o ansawdd uchel. Hefyd, mae esblygiad meistrolï digwyddiadau gyda ffocws ar egwyddorion cydweithio ac asesu risg yn cael ei gefnogi gan y gallu i gynnal senarios hyfforddi cymhleth, aml-asiantaeth yn y ganolfan newydd. Mae'r pwyslais ar iechyd a diogelwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, diogelu'r amgylchedd a safonau diogelwch y cyhoedd o fewn y prosiect yn cydreddeg â gofynion rheoleiddio cenedlaethol ac arferion gorau o fewn y Gwasanaeth.

6.3.5.4 Amcanion y Fforwm Gwydnwch Lleol

Mae'r nod penodol o wahodd partneriaid o Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru ar gyfer hyfforddiant a chydweithio amlasiantaethol yn cefnogi'n uniongyrchol amcanion y Fforwm o wella'r gallu i ryngweithredu a chydweithio ymhlith ymatebwyr brys yn y rhanbarth. Mae hyn yn cyd-fynd â JESIP ac yn cyfrannu at ymateb mwy cydgysylltiedig ac effeithiol i argyfyngau lleol.

6.3.6 Amcanion Gwariant

Amcanion Gwariant y prosiect hwn yw:

6.3.6.1 Cyfleusterau Hyfforddi o Ansawdd Uchel wedi'u Diogelu at y Dyfodol

Darparu amgylchedd hyfforddi trochi, modern o ansawdd uchel sy'n gwella diogelwch diffoddwyr tân, yn galluogi dysgu realistig yn seiliedig ar senarios, ac yn mynd i'r afael â phroffiliau risg lleol, gan gynnwys y gallu i wneud pethau fel diheintio, ac sy'n gallu addasu mewn ymateb i newidiadau o ran gofynion hyfforddi, technoleg a datblygiad rhanbarthol yn y dyfodol.

6.3.6.2 Cyfleusterau Cynhwysol a Hygyrch

Darparu canolfan hyfforddi sy'n adlewyrchu gwerthoedd modern (gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant) ac sy'n darparu ar gyfer anghenion hyfforddi'r Gwasanaeth, gan gynnwys gofynion amserlennu diffoddwyr tân rhan-amser.

6.3.6.3 Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Darparu canolfan carbon niwtral, cost-effeithlon sy'n cyd-fynd â nodau amgylcheddol ehangach ac yn cynnig gwerth am arian, gan gefnogi fforddiadwyedd gweithredol hirdymor trwy resymoli asedau.

Mae cofrestriad BREEAM wedi'i sicrhau o dan Fersiwn 6 (Rhif Cofrestru: BREEAM-0136-2847), gan alluogi asesu ffurfiol ac olrhain yn erbyn sgôr darged 'Ardderchog'.

Bydd trothwyon perfformiad (% gostyngiad, % gwelliant, ac ati) yn cael eu graddnodi yn ystod y cam Achos Busnes Llawn, yn dilyn cadarnhad sylfaenol a deialog fasnachol gyda chyflenwyr, ac yna wedi'u hymgorffori fel dangosyddion perfformiad allweddol.

6.3.6.4 Crynodeb

Mae'r Amcanion Gwariant hyn yn sefydlu'r canlyniadau y mae'n rhaid i'r buddsoddiad eu cyflawni. Yn yr Achos Economaidd dilynol, caiff pob opsiwn posibl ei asesu yn erbyn set o Ffactorau Llwyddiant Hanfodol sy'n adlewyrchu'r amcanion hyn ac yn profi'r gallu i'w cyflawni, eu fforddiadwyedd a sut maent yn cyd-fynd â'r strategaeth.

Bydd y ganolfan hyfforddi ganolog newydd arfaethedig yn Llanelwy, a ddewiswyd yn opsiwn a ffafrir, yn bodloni'r Amcanion Gwariant hyn. Ei nod yw creu cyfleusterau hyfforddi trochi realistig, sy'n cynrychioli buddsoddiad strategol i wella sgiliau, parodrwydd ac addasrwydd personél y gwasanaeth trwy ddarparu amgylchedd hyfforddi o ansawdd uchel sy'n gallu addasu i risgiau sy'n dod i'r amlwg a bodloni dyletswyddau statudol yn effeithiol. Bwriedir i'r opsiwn hwn fodloni gofynion hyfforddi craidd gwasanaeth tân ac achub modern wrth gynnig hyblygrwydd a darpariaeth ar gyfer ehangu a datblygu yn y dyfodol. Yn benodol, mae'n cynnwys nodweddion yn benodol fel Ysgol Offer Anadlu gyda chyfleusterau diheintio a darpariaeth ar gyfer anghenion y gweithlu amrywiol sy'n esblygu, gan fynd i'r afael â'r diffygion presennol yn y cyfleusterau lles a'r ddarpariaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a nodwyd gyda'r safleoedd presennol.

Ar ben hynny, mae gan y prosiect darged o gyflawni sgôr 'Ardderchog' BREEAM ac mae'n anelu at safonau Di-garbon ar gyfer ynni dan reolaeth. Mae hyn yn lliniaru'n sylweddol y risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau gwasgaredig presennol, gan gydredeg â rheoliadau amgylcheddol cynyddol a'r gofyniad statudol i gyflawni sero net erbyn 2030.

Yn y gwerthusiad o'r rhestr fer o opsiynau posibl a'r arfarniad meintiol ac ansoddol manwl, dangosir sut mae'r opsiwn a ffafrir yn cyd-fynd â'r Amcanion Gwario hyn ac yn cyflawni mewn perthynas â hwy fel y nodir yn yr Achos Economaidd.

6.4 Ystyriaethau Cyflawni Strategol a Chwmpas y Prosiect

Yn yr adran hon, amlinellir paramedrau a chwmpas pendant y ganolfan hyfforddi newydd arfaethedig. Mae'n manylu ymhellach ar fanteision disgwylidig y buddsoddiad, yn nodi risgiau strategol allweddol i'w lliniaru ac yn egluro'r prif gyfyngiadau a dibyniaethau a fydd yn dylanwadu ar gyflawniad llwyddiannus y prosiect a'i effaith hirdymor.

6.4.1 Buddion

Rhagwelir y bydd datblygu canolfan hyfforddi ganolog newydd yn darparu ystod eang o fuddion sylweddol. Mae'r buddion hyn wedi'u nodi, eu diffinio a'u cymeradwyo trwy Gynllun Gwireddu Buddion y Gwasanaeth ac maent wedi'u grwpio o dan bum prif gategori buddion (BTC01 – BTC05).

Gyda'i gilydd maent yn sicrhau bod y prosiect yn cyflawni canlyniadau gweithredol, amgylcheddol a chymunedol ystyrlon sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

BTC01 - Gwell Effeithlonrwydd Gweithredol ac Enillion Uwch ar Fuddsoddiad Hyfforddiant

Mae buddsoddi mewn amgylchedd hyfforddi ganolog a chefnogaeth dda yn arwain at ganlyniadau a chost-effeithlonrwydd gwell yn sylweddol. Trwy symleiddio darpariaeth, lleihau dyblygu ymdrech ac adnoddau, a gwella ansawdd cyffredinol hyfforddiant, gall sefydliadau wneud y mwyaf o effaith eu rhaglenni hyfforddi.

Mae gwell presenoldeb, gwell mynediad at offer, a llai o orbenion logistaidd yn cyfrannu at brofiadau dysgu mwy effeithiol. Gall hyfforddwyr ganolbwyntio ar ddarparu cynnwys o ansawdd uchel yn hytrach na rheoli gosodiadau tameidiog, tra bod dysgwyr yn elwa o sesiynau cyson, adnoddau'n dda. Mae'r effeithlonrwydd hwn nid yn unig yn lleihau costau gweithredol ond hefyd yn sicrhau bod hyfforddiant yn darparu gwerth mesuradwy - o ran canlyniadau dysgwyr a pherfformiad sefydliadol.

BTC02 – Gwell Ansawdd ac Effeithlonrwydd Hyfforddiant- Gweithlu mwy medrus gyda chymhelliant cryfach

Bydd gwell boddhad swydd yn cael ei gyflawni trwy wella'r profiad hyfforddi cyffredinol, gan sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u paratoi i gyflawni eu rolau yn hyderus. Mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant cyson o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu realiti gweithredol, yn annog adborth, ac yn meithrin diwylliant cadarnhaol yn y gweithle.

Trwy fuddsoddi mewn hyfforddiant sy'n meithrin cymhwysedd a hyder, mae'r sefydliad yn cefnogi datblygiad staff, yn gwella apêl recriwtio, ac yn cryfhau perfformiad gweithredol. Mae gweithlu llawn cymhelliant a medrus wedi'i baratoi'n well i fodloni gofynion gwasanaeth, addasu i heriau, a chyfrannu at sefydliad gwydn sy'n perfformio'n uchel.

BTC03 – Gwelliannau o ran Lles, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Bydd diwylliant, lles, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gwell yn cael ei gefnogi trwy welliannau i'r amgylchedd hyfforddi ffisegol, gan sicrhau ei fod yn groesawgar, yn hygyrch ac yn adlewyrchu anghenion amrywiol y gweithlu. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cyfleusterau cynhwysol fel ystafell weddi bwrpasol, toiledau niwtral o ran rhywedd, a mannau hygyrch sy'n hyrwyddo urddas, preifatrwydd a pharch at bob unigolyn.

Trwy greu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn gallu bod ynddyn nhw eu hunain, mae'r sefydliad yn atgyfnerthu ei ymrwymiad i degwch a chreu ymdeimlad o berthyn. Mae'r newidiadau hyn yn helpu i gael gwared ar rwystrau i gyfranogiad, cefnogi grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, ac yn cyfrannu at ddiwylliant mwy cynhwysol a chefnogol - yn y pen draw bydd yn newidiadau yn gwella lles, ymgysylltiad a chadw staff.

BTC04 - Gwell Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Bydd gwell cynaliadwyedd amgylcheddol yn cael ei gyflawni trwy ymgorffori arferion sy'n gyfrifol yn amgylcheddol i ddylunio, gweithredu a darparu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys lleihau teithio trwy well mynediad at offer ar y safle, defnyddio cyfleusterau ynni-effeithlon, a lleihau gwastraff trwy adnoddau digidol a chaffael cynaliadwy. Trwy flaenoriaethu cynaliadwyedd, mae'r sefydliad yn dangos ei ymrwymiad i stiwardiaeth amgylcheddol a rheoli adnoddau'n gyfrifol.

BTC05 – Mwy o werth cymdeithasol

Bydd mwy o werth cymdeithasol yn cael ei gyflawni trwy ymgorffori budd cymunedol i gynllunio, cyflawni a gweithredu'r prosiect canolfan hyfforddi. Mae hyn yn cynnwys defnyddio fframweithiau caffael sy'n blaenoriaethu gwerth cymdeithasol, ymgysylltu â chontractwyr lleol i gefnogi'r economi ranbarthol, a chreu cyfleoedd cyflogaeth a phrentisiaeth fel rhan o'r gwaith adeiladu a gweithrediadau parhaus.

Bydd y prosiect hefyd yn gwella ymgysylltiad â'r gymuned trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau allgymorth, a thrwy sicrhau bod mannau cynadledda a chyfarfod ar gael ar gyfer hurio cymunedol.

Caiff y Cynllun Gwireddu Buddion llawn ei gynnwys yn yr adran 12.4, ond mae'r tablau canlynol yn darparu crynodeb o'r prif fuddion ym mhob un o'r pum categori.

Budd	Canlyniad	Mesur	Targed	Perchennog hir dymor	Amserlen ar gyfer Cyflawni
BTC01 Gwell effeithlonrwyd d gweithredol - Enillion uwch ar fuddsoddiad mewn hyfforddi	BTC01.01 - Gwell presenoldeb ar gyrsiau = llai o gyrsiau'n cael eu rhedeg a llai'n cael eu canslo	Cyfradd defnydd cyrsiau	Cynnydd o 5%	Pwyllgor Datblygu Pobl a'r Sefydliad	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl lansiad Monitro: Chwarterol
	BTC01.02 - Gostyngiad mewn costau teithio	Pellter a theithiwyd mewn cerbydau'r Gwasanaeth	Gostyngiad o 70%	Pwyllgor Datblygu Pobl a'r Sefydliad	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 48 mis ar ôl lansiad

Budd	Canlyniad	Mesur	Targed	Perchennog hir dymor	Amserlen ar gyfer Cyflawni
					Monitro: Blynyddol
	BTC01.03 – Llai o gostau cerbydau	Nifer y ceir a neilltuir i Hyfforddwyd Gweithredol	Gostyngiad o 75%	Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 12 mis ar ôl lansio Monitro: Chwarterol
	BTC01.04 - Offer hyfforddi ar y safle	Faint o amser yn lle a gronwyd wrth gasglu offer hyfforddi	Gostyngiad o 75%	Pwyllgor Datblygu Pobl a'r Sefydliad	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 12 mis ar ôl lansio Monitro: Chwarterol

Tabl 2 : Buddion o fewn categori BTC01

Budd	Canlyniad	Mesur	Targed	Perchennog hir dymor	Amserlen ar gyfer Cyflawni
BTC02 Hyfforddiant o well ansawdd ac effeithiolrwydd - gweithlu â mwy o gymhelliant	BTC02.01 Apêl recriwtio gryfach	Nifer o ymgeiswyr Adborth o arolwg 12 mis gweithwyr newydd Adborth ar gyfleusterau	Cynnydd o 2% Cynyddu i 4/5 Cynyddu i 4/5	Pwyllgor Datblygu Pobl a'r Sefydliad	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl lansio Monitro: Chwarterol
	BTC02.02 Gwellu hyder a sgiliau staff	Adborth staff ar realaeth	Cynyddu i 4/5	Pwyllgor Datblygu Pobl a'r Sefydliad	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl lansio Monitro: Chwarterol
	BTC02.03 Lleihau damweiniau yn y gwaith sy'n gysylltiedig ag anghenion hyfforddi	Nifer o ddamweiniau Nifer yr hawliadau anaf personol ar safleoedd hyfforddi	Gostyngiad o 5% Gostyngiad o 25%	Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl lansio Monitro: Chwarterol
	BTC02.04 Gwell gweithio aml-asiantaeth	Nifer y digwyddiadau aml-asiantaeth a gynhelir gan GTAGC	Cynyddu i 3 pob flwyddyn	Fforwm Cydnerth Lleol	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl lansio Monitro: Blynyddol

Tabl 3 : Buddion yng nghategori BTC02

Budd	Canlyniad	Mesur	Targed	Perchennog hir dymor	Amserlen ar gyfer Cyflawni
BTC03 Gwelliannau o ran Lles, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	BTC03.01 Gwasanaeth sy'n dangos ymrwymiad i gynhwysiant a hygyrchedd	Adborth staff ar gyfleusterau Adborth gan rwydweithiau staff Nifer y bobl o grwpiau lleiafrifol sy'n gwneud cais am swyddi	Cynnydd o 5% mewn sylwadau positif Adborth positif Cynnydd o 5%	Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl lansio Monitro: Chwarterol
	BTC03.02 Arweinyddiaeth fwy tryloyw	Adborth gan staff yn yr Arolwg Teulu Tân	Cynnydd o 3%	Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl lansio Monitro: Pob 2 flynedd.
	BTC03.03 ymrwymiad amlwg i'r Gymraeg a diwylliant Cymru	Nifer y mynychwyr yn sesiynau Paned a Sgwrs Nifer y cyrsiau Cymraeg sy'n cael eu rhedeg yn fewnol Lefel y cyrsiau Cymraeg sy'n cael eu rhedeg yn fewnol	Cynnydd o 5% mewn presenoldeb Cynnydd o 5% Dechrau rhedeg cyrsiau lefel 4	Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl lansio Monitro: Chwarterol

Tabl 4 : Buddion yng nghategori BTC03

Budd	Canlyniad	Mesur	Targed	Perchennog hir dymor	Amserlen ar gyfer Cyflawni
BTC04 Gwell cynaliadwyedd amgylcheddol	BTC04.01 Lleihau ein hól troed carbon	Allyriadau teithio	Gostyngiad o 25% mewn millfiroedd teithio myfyrwyr	Pwyllgor Tir ac Eiddo	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl lansio Monitro: Blynnyddol
	BTC04.02 Llai o ddefnydd o ddŵr yfed	Defnydd blynnyddol o ddŵr yfed (m3) % o'r galw am ddŵr nad yw'n yfed a ddiwallir gan ddŵr glaw / dŵr llwyd	Gostyngiad o 5% yn y defnydd o ddŵr yfed Dŵr llwyd yn diwallu 25% o'r galw am ddŵr nad yw'n dŵr yfed ar y safle	Pwyllgor Tir ac Eiddo	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl lansio Monitro: Blynnyddol
	BTC04.04 Cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle	% o'r galw blynnyddol am drydan y safle wedi'i ddiwallu	>20% o alw trydan blynnyddol y safle	Pwyllgor Tir ac Eiddo	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl lansio Monitro: Blynnyddol

Tabl 5 : Buddion yng nghategori BTC04

Budd	Canlyniad	Mesur	Targed	Perchennog hir dymor	Amserlen ar gyfer Cyflawni
BTC05 Mwy o werth cymdeithasol	BTC05.01 Gwerth cymdeithasol trwy fframweithiau caffael	Cymuned/ Enw da	Faint o werth cymdeithasol y mae contractwyr wedi'u rhoi	Pwyllgor Cyllid a Chaffael	Dechrau: Ar ddichonoldeb pan afaelwyd ymgynghorwyr cyntaf Diwedd: Gwerthusiad ôl-brosiect Monitro: Chwarterol
	BTC05.02 Manteision economaidd trwy'r defnydd o gontractwyr lleol.	Cymuned	Lleoliadau'r contractwyr a ddefnyddir	Pwyllgor Cyllid a Chaffael	Dechrau: Pan fydd contractwyr yn cael eu caffael am y tro cyntaf Diwedd: Gwerthusiad ôl-brosiect Monitro: Chwarterol
	BTC05.03 Swyddi/prentisiaethau wedi'u creu yn creu yn sgil y prosiect	Cymuned	Nifer y swyddi a phrentisiaethau a grëwyd gyda chontractwyr Nifer y swyddi a'r prentisiaethau a grëwyd yn fewnol	Pwyllgor Datblygu Pobl a'r Sefydliad	Dechrau: Pan fydd contractwyr yn cael eu caffael am y tro cyntaf Diwedd: Gwerthusiad ôl-brosiect Monitro: Chwarterol
	BTC05.04 Cynnydd mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned	Cymuned	Cynnydd yn nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned a gynhelir gan GTAGC Cynnydd yn nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau.	Pwyllgor Perfformiad Atal ac Amddiffyn	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl y prosiect Monitro: Blynnyddol
	BTC05.05 y gymuned yn hurio ystafelloedd cynadledda	Cymuned	Cynnydd yn nifer o weithiau mae'r ystafell digwyddiadau yn cael ei hurio	Pwyllgor Cyllid a Chaffael	Dechrau: Lansiad y Ganolfan Diwedd: 24 mis ar ôl y prosiect Monitro: Blynnyddol

Tabl 6 : Buddion yng nghategori BTC05

Mae gan bob un o'r buddion hyn berchnogaeth, dangosyddion mesur ac amserlenni targed pendant, fel sy'n cael ei nodi yn y Cynllun Gwireddu Buddion a'i fonitro trwy fframwaith llywodraethu sefydledig y Gwasanaeth.

6.4.2 Risgiau Strategol

Mae'r risgiau canlynol yn cynrychioli'r canlyniadau strategol hirdymor i GTAGC os na fydd y buddsoddiad mewn canolfan hyfforddi newydd yn mynd rhagddo. Maent yn tynnu sylw at yr amlygiad sy'n gysylltiedig â dibyniaeth barhaus ar safleoedd tameidiog sy'n heneiddio, ac yn dangos pam mae newid yn hanfodol.

Mae darparu'r ganolfan hyfforddi arfaethedig yn hanfodol ar gyfer lliniaru nifer o risgiau strategol hirdymor sy'n wynebu'r Gwasanaeth ar hyn o bryd. Nid yw'r risgiau hyn wedi'u cyfyngu i adeiladu neu weithredu prosiect, ond maent yn ymwneud â'r canlyniadau strategol ehangach y mae'r prosiect wedi'i gynllunio i'w sicrhau. Dyma'r risgiau strategol allweddol a nodwyd:

- **Methu â bodloni safonau cenedlaethol a gofynion gweithredol modern:** Mae perygl na fydd y Gwasanaeth yn gallu cydymffurfio â safonau hyfforddiant a gweithredol cenedlaethol. Gallai hyn gael ei achosi gan ddibyniaeth barhaus ar safleoedd sy'n heneiddio, wedi'u gwasgaru yn ddaearyddol nad ydynt wedi'u cynllunio i fodloni gofynion gorchymyn digwyddiadau, ymateb gweithredol neu hyfforddiant modern cyfredol. Gallai hyn arwain at lai o barodrwydd gweithredol, ansawdd hyfforddiant anghyson a'r Gwasanaeth yn syrthio ar ei hôl hi wrth gynnal disgwyliadau gallu cenedlaethol.
- **Risg y gweithlu a chynhwysiant:** Mae perygl na fydd y Gwasanaethau yn gallu denu, cadw a chefnogi gweithlu modern ac amrywiol. Gallai hyn gael ei achosi gan y defnydd parhaus o amgylcheddau hyfforddi sydd heb gyfleusterau niwtral o ran rhywedd, mannau lles hygyrch a nodweddion dylunio cynhwysol sy'n cyd-fynd ag anghenion y gweithlu cyfoes. Gallai hyn arwain at lai o foddhad staff, llai o gadw staff - yn enwedig ymhlith grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli - ac effeithiau ar enw da o ran ymrwymiad y Gwasanaeth i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- **Diffyg cydymffurfio amgylcheddol a chynllunio:** Mae perygl y bydd y Gwasanaeth yn wynebu heriau cynyddol ymhlith materion amgylcheddol, rheoleiddiol a gyda chynllunio yn ei safleoedd hyfforddi presennol. Gall hyn cael ei achosi gan oedran, lleoliad a phroffil allyriadau gweithredol y cyfleusterau presennol, sydd efallai ddim yn bodloni safonau amgylcheddol na disgwyliadau cynllunio bellach. Gallai hyn arwain at ymyrraeth reoleiddiol, gwrthwynebiadau cynllunio, camau gorfodi a niwed i enw da'r sefydliad, yn enwedig ynghylch ag ymrwymladau cynaliadwyedd y Gwasanaeth.
- **Methu bodloni targedau carbon a hinsawdd:** Mae perygl y bydd y Gwasanaeth yn methu â bodloni targedau sero net a datgarboneiddio statudol a lleol. Gallai hyn gael ei achosi gan ddull buddsoddi tameidiog neu'r dull "wneud y lleiaf posibl" nad yw'n gallu cyflawni'r gostyngiadau carbon gofynnol neu safonau dylunio ynni-effeithlon modern. Gallai hyn arwain at gostau hirdymor cynyddol, mwy o gymhlethdod mewn gwaith datgarboneiddio yn y dyfodol, a diffyg cydymffurfiaeth ag amcanion hinsawdd Llywodraeth Cymru a rhai lleol.
- **Effeithlonrwydd gweithredol a chynnydd costau:** Mae perygl y bydd effeithlonrwydd sefydliadol ac effeithiolrwydd hyfforddi yn parhau i ddirywio. Gallai hyn gael ei achosi gan natur dameidiog yr ystâd hyfforddi, gan arwain at staff yn teithio'n ormodol, modelau cyflenwi anghyson a defnydd aneffeithlon o amser hyfforddwr ac adnoddau ffisegol. Gallai

hyn arwain at gostau gweithredu uwch, colliant o oriau hyfforddi, llai o wydnwch yn ystod digwyddiadau critigol ac effeithiau ehangach ar berfformiad sefydliadol.

Mae pob un o'r risgiau hyn yn cryfhau'r achos strategol o blaid buddsoddi. Nid ydynt yn hawdd eu lliniaru trwy uwchraddio neu ad-drefnu'r asedau presennol ar raddfa fach. Heb ymyrraeth, mae'r Gwasanaeth yn wynebu pwysau costau cynyddol, llai o allu ac erydiad gwerth cyhoeddus dros amser.

6.4.3 Cyfyngiadau

Mae cyflwyno'r ganolfan hyfforddi newydd yn llwyddiannus yn amodol ar nifer o gyfyngiadau pwysig y mae'n rhaid eu rheoli'n effeithiol i gadw'r prosiect ar y trywydd iawn ac o fewn cwmpas.

- **Adnoddau Ariannol:** Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost gyfalaf ar gyfer yr opsiwn a ffafrir yw £49.95 miliwn. Mae sicrhau'r cyllid cyfalaf angenrheidiol, o fewn lefelau fforddiadwyedd derbyniol ac opsiynau cyllido cynaliadwy, yn gyfyngiad allweddol. Mae dilyniant y prosiect yn dibynnu ar gymeradwyo cyllid a datblygu model ariannu cadarn.
- **Amserlenni:** Bydd cynllun y prosiect, a amlinellir yn **Error! Reference source not found.**, yn gosod amserlenni ar gyfer dylunio, caffael, adeiladu a chomisiynu. Mae cynnal momentwm wrth ddatblygu'r cynigion yn hanfodol.
- **Addasrwydd y Safle:** Mae gan y safle ym Mharc Busnes Llanellwy gyfyngiadau ffisegol cynhenid, gan gynnwys topograffeg sy'n golygu bod waliau cynnal a symud pridd yn ofynnol. Er bod diwydrwydd dyladwy wedi'i wneud, bydd angen i'r nodweddion hyn gael eu hystyried wrth ddylunio a chyflawni.
- **Cymeradwyaethau Cynllunio a Rheoleiddio:** Bydd cael caniatâd cynllunio angenrheidiol a chadw at reoliadau adeiladu a gofynion statudol eraill yn gyfyngiad allweddol.
- **Targed 'Ardderchog' BREEAM:** Un o dargedau'r prosiect yw cyflawni sgôr 'Ardderchog' BREEAM. Bydd hyn yn gosod cyfyngiadau ar ddylunio a dewis deunyddiau i fodloni'r meini prawf gofynnol.

6.4.4 Dibyniaethau

Mae dilyniant a llwyddiant y prosiect yn dibynnu'n fawr ar nifer o ddibyniaethau allweddol, a phob un yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod y prosiect yn gallu symud ymlaen yn esmwyth a chyflawni ei ganlyniadau arfaethedig.

1. **Cymeradwyo Cyllid Cyfalaf:** Mae'r prosiect yn dibynnu ar sicrhau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru i gyflawni Camau 5 i 7 RIBA (adeiladu hyd at drosglwyddo). Mae'r Gwasanaeth eisoes wedi ariannu caffael tir a bydd yn talu cost yr holl waith hyd at a chan gynnwys Cam 4 RIBA o'i adnoddau ei hun. Bydd symud ymlaen i'r gwaith adeiladu yn amodol ar gadarnhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru.
2. **Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru:** Mae'r prosiect yn dibynnu ar ymgysylltu adeiladol â Llywodraeth Cymru, gan gynnwys archwilio cymorth ariannol, grantiau neu fentrau ar y cyd sy'n cyfrannu at fforddiadwyedd.
3. **Cymeradwyaeth ATAGC:** Mae'r prosiect yn dibynnu ar gymeradwyaethau ffurfiol amserol gan yr Awdurdod ar adegau gwneud penderfyniadau allweddol.

4. **Cymeradwyaethau Cynllunio a Rheoleiddio:** Mae'r prosiect yn dibynnu ar sicrhau caniatâd cynllunio a bodloni rheoliadau adeiladu a chymeradwyaethau statudol eraill er mwyn i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo.
5. **Prosesau Caffael:** Mae'r prosiect yn dibynnu ar gaffael ymgynghorwyr a chontractwyr yn llwyddiannus ac yn amserol drwy fframweithiau cydymffurfio (e.e. SCAPE, Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru).
6. **Cefnogaeth Budd-ddeiliaid:** Mae'r prosiect yn dibynnu ar gefnogaeth barhaus mewn egwyddor gan fudd-ddeiliaid mewnol, gan gynnwys y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur.
7. **Cysylltiadau Cyfleustodau:** Mae'r prosiect yn dibynnu ar sicrhau cytundebau a chyflenwi cysylltiadau trydan, dŵr, draenio a thelathrebu mewn pryd gan ddarparu cyfleustodau, gan gynnwys Dŵr Cymru a SPEN.
8. **Cydweithio â Phartneriaid Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru:** Mae gwireddu manteision hyfforddiant aml-asiantaeth yn dibynnu ar barodrwydd ac argaeledd partneriaid y Fforwm Gwydnwch Lleol (yr Heddlu, y Gwasanaeth Ambiwlans, Awdurdodau Lleol) i gymryd rhan mewn ymarferion ar y cyd.
9. **Mynd i'r Afael â Chyflwr y Safle:** Mae'r prosiect yn dibynnu ar ddarparu ar gyfer nodweddion safle hysbys (e.e. topograffeg sy'n gofyn am waliau cynnal, presenoldeb sylfeini claddedig hanesyddol, cyfyngiadau dylunio draenio oherwydd lliniaru yn sgil Madfalod Dŵr Cribog).
10. **Cynnal Momentwm:** Mae'r prosiect yn dibynnu ar gynnal disgyblaeth y rhaglen, gyda cherrig milltir allweddol ac adolygiadau porth wedi'u cyflawni yn unol â chynllun y prosiect.

Yn ogystal â'r dibyniaethau hyn sy'n benodol i brosiect, mae yna hefyd ryng-ddibyniaethau strategol â rhaglenni sefydliadol ehangach a fydd yn dylanwadu ar wireddu rhai buddion hirdymor. Ymhlith y rhain mae Strategaeth Ystadau'r Gwasanaeth, ei Gynllun Datblygu'r Gweithlu ac amcanion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd cyfatebiaeth ac amseru effeithiol y mentrau cyfochrog hyn yn hanfodol i wneud y mwyaf o werth llawn buddsoddiad y ganolfan hyfforddi.

Bydd y rhyng-ddibyniaethau ehangach hyn yn cael eu holrhain a'u rheoli drwy'r Bwrdd Prosiect, a fydd yn cynnal cofrestrau risg a rennir ac yn sicrhau trawsgynrychiolaeth briodol.

6.5 Budd-ddeiliaid Allweddol

Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal ymgynghoriad strwythuredig gyda budd-ddeiliaid mewnol ac allanol allweddol drwy gydol datblygiad yr Achos Busnes Amlinellol. Cynlluniwyd yr ymgysylltu i grisialu mewnwelediad gweithredol, sicrwydd ariannol, barn y gweithlu a goruchwyliaeth lywodraethu ym mhob cam o'r broses.

Caiff y Log Ymgynghori ei gynnwys yn *Atodiad 9 – Cofnod Ymgynghori â Budd-ddeiliaid*, ond mae'r gweithgareddau ymgysylltu allweddol wedi cynnwys:

- **Aelodau Etholedig**
 - Pwyllgor Craffu Cyllideb yr Aelodau
 - Wedi darparu craffu a mewnbwn strategol trwy gydol y datblygiad.
 - Cymeradwywyd yr Achos Amlinellol Strategol yn ffurfiol gan yr ATAGC ym mis Hydref 2024.

- **Uwch Dîm Arweinyddol**
 - Goruchwyliaeth ffurfiol a chyfeiriad strategol trwy gyfarfodydd Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth.
- **Grwpiau Llywodraethu Prosiect**
 - Bwrdd y Prosiect (cyfarfod bob chwe wythnos)
 - Grŵp Prosiect (cyfarfod bob chwe wythnos)
 - Goruchwyllo cynnydd, risg a chynllunio cyflawni.
- **Ymgysylltu â'r Gweithlu**
 - Sesiynau ymgynghori gyda staff hyfforddi gweithredol a phersonél ehangach
 - Defnyddiwyd adborth i lunio anghenion hyfforddi, darpariaeth les ac ymarferoldeb y safle.
- **Cynrychiolwyr Undebau Llafur**
 - Ymgysylltu parhaus i gynrychioli buddiannau'r gweithlu a sicrhau ystyriaethau teg i staff.
- **Cynghorwyr Allanol ac Arbenigwyr Technegol**
 - Mewnbyn gan benseiri, peirianwyr gwasanaethau adeiladu, ymgynghorwyr cost a phartneriaid rheoli prosiect i fireinio rhagdybiaethau technegol, ariannol a chyflawni.
- **Llywodraeth Cymru**
 - Ymgysylltu fel partner cyllido posibl a budd-ddeiliad strategol, gan gynnwys trafod cymorth cyfalaf.
- **Partneriaid y Fforwm Gwydnwch Lleol**
 - Ymgysylltu i ystyried potensial hyfforddi ar y cyd a gofynion rhyngweithredu yn y dyfodol.
- **Cymunedau Lleol**
 - Cyfathrebu wedi'i bersonoli â thrigolion lleol, grwpiau cymunedol a busnesau cyfagos.

Yn unol ag arferion Gwell Achosion Busnes Llywodraeth Cymru, mae'r Log Ymgynghori hefyd yn cofnodi cyfathrebu a chymeradwyaethau parhaus rhaglenni yn ystod cyfnodau porth diffiniedig.

Cynlluniwyd ymgysylltu pellach yn ystod y dylunio manwl a thrwy'r cam Achos Busnes Llawn i sicrhau ein bod yn cyd-fynd yn barhaus ag anghenion gweithredol a strategol.

6.6 Crynodeb o'r Achos Strategol

Mae'r Achos Strategol yn nodi rhesymeg glir a chymhellol dros fuddsoddi mewn Canolfan Hyfforddi ganolog newydd yn Llanelwy. Dengys fod y prosiect yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r heriau gweithredol, amgylcheddol a sefydliadol sy'n wynebu'r Gwasanaeth ar hyn o bryd, gan gydredeg yn llawn â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r sector tân cenedlaethol.

Mae'r achos dros newid yn seiliedig ar dri sbardun craidd:

1. **Cyfleusterau annigonol sy'n heneiddio** - mae'r safleoedd presennol yn Nolgellau, y Rhyl, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy wedi dyddio, yn aneffeithlon ac nid ydynt yn cydymffurfio â safonau diogelwch, hygyrchedd ac amgylcheddol modern.

2. **Model cyflenwi tameidiog** - mae safleoedd gwasgaredig lluosog yn creu dyblygu, teithio gormodol, hyfforddiant anghyson a cholli effeithlonrwydd.
3. **Gofynion statudol a gweithlu sy'n esblygu** - ni ellir bodloni rheoliadau newydd, ymrwymadau cynaliadwyedd a disgwyliadau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn yr ystâd bresennol.

Bydd y ganolfan arfaethedig yn cydgrynhoi'r holl brif weithgareddau hyfforddi mewn un campws pwrpasol, sy'n barod ar gyfer sero net, sy'n ddarparu amgylcheddau dysgu trochi realistig a chynhwysol. Bydd yn galluogi'r Gwasanaeth i ddarparu hyfforddiant sy'n fwy diogel, yn fwy cyson ac yn fwy cynrychioliadol o risgiau gweithredol modern, tra'n lleihau ei effaith amgylcheddol a'i gostau hirdymor.

Mae'r prosiect yn cydreddeg â'r canlynol:

- Cynllun Rheoli Rîsg Cymunedol GTAGC (2024–2029) ac egwyddorion craidd yr Awdurdod sef Pobl, Atal, Diogelu, Ymateb a'r Amgylchedd;
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i nodau ar gyfer Cymru lewyrchus, gydnerth, gyfartal sy'n gyfrifol yn fyd-eang; ac
- Argymhellion gan Brif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru ar foderneiddio a safoni hyfforddiant gweithredol.

Trwy gyflawni'r tri Amcan Gwariant, sef Cyfleusterau o Ansawdd Uchel wedi'u Diogelu at y Dyfodol, Dylunio Cynhwysol a Hygyrch a Chynaliadwyedd Amgylcheddol, bydd y prosiect yn gwella gallu diffoddwyr tân, yn gwella lles staff ac yn dangos arweinyddiaeth y sector cyhoeddus wrth ddatgarboneiddio.

I grynhoi, mae'r Achos Strategol yn cadarnhau bod y Ganolfan Hyfforddi newydd yn hanfodol, yn gyraeddadwy ac yn cyd-fynd â'n strategaeth, gan ddarparu ateb hirdymor, cynaliadwy a fydd yn cryfhau gallu'r Gwasanaeth i amddiffyn pobl a chymunedau Gogledd Cymru.

7 Yr Achos Economaidd

7.1 Cyflwyniad

Pwrpas yr Achos Economaidd yw dangos bod yr opsiwn a ffafrir yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian i'r sector cyhoeddus trwy optimeiddio'r cydbwysedd o gostau, buddion, risgiau a chanlyniadau dros oes y buddsoddiad.

Cafodd yr Amcanion Gwariant a'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol eu llunio yn ystod gweithdy cynnar a ddaeth â chymysgedd eang o fudd-ddeiliaid at ei gilydd. Yn eu plith roedd arweinwyr gweithrediadau, ystadau, hyfforddiant a chyllid yn ogystal â chynrychiolwyr o ATAGC a'r Undeb. Roedd y dull hwn yn sicrhau bod y meini prawf yn adlewyrchu cyfrifoldebau statudol, anghenion gweithredol pob dydd ac uchelgeisiau tymor hwy y Gwasanaeth. Adolygwyd a chymeradwywyd yr amcanion drafft a'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol wedyn gan y Bwrdd Prosiect i gadarnhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol ehangach a strategaeth ystadau hirdymor y Gwasanaeth.

Roedd yr Amcanion Gwariant a'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol hyn yn sail i'r broses arfarnu opsiynau a ddisgrifir yn yr Adran 7.3. Aseswyd pob opsiwn posibl yn ansoddol yn erbyn y meini prawf hyn y cytunwyd arnynt, i bennu ei gydweddiad strategol, ei ddichonoldeb a'i gyfraniad tebygol at nodau hirdymor y Gwasanaeth. Sicrhodd hyn mai dim ond yr opsiynau hynny sy'n cynnig llinell olwg glir i'r Amcanion Gwariant ac sy'n bodloni'r trothwyon lleiaf o ran Ffactorau Llwyddiant Hanfodol oedd yn mynd ymlaen i'w hystyried yn fanwl.

Yn yr adran hon, nodir y rhestr hir o opsiynau a ystyriwyd i ddechrau ar gyfer diwallu anghenion hyfforddi a gweithredol y Gwasanaeth, y rhesymeg dros y rhestr fer a'r opsiwn a ffafrir. Eglurir hefyd sut mae'r opsiynau rhestr fer wedi'u hasesu yn erbyn Ffactorau Llwyddiant Hanfodol a sut mae buddion anariannol wedi llywio'r dyfarniad gwerth am arian cyffredinol.

Yn unol â methodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF a Gwell Achosion Busnes, mae'r dadansoddiad yn ystyried tystiolaeth ansoddol a meintiol lle bo hynny ar gael, gyda phwyslais arbennig ar gydweddiad strategol, y gallu i gyflawni a gwerth cyhoeddus.

7.2 Y Broses

Roedd yr arfarniad opsiynau yn dilyn y dull dau gam safonol a nodir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF a'r canllawiau Model Pum Achos (Gwell Achosion Busnes). Cynlluniwyd y broses hon i sicrhau bod yr holl opsiynau rhesymol ar gyfer cyflawni anghenion hyfforddi'r Gwasanaeth yn cael eu nodi, eu profi a'u crynhoi mewn ffordd dryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

7.2.1 Cam 1: Datblygu rhestr hir a sgrinio ansoddol

Lluniwyd rhestr helaeth o 101 o syniadau posibl yn gyntaf trwy weithdai mewnol gyda phersonél y Gwasanaeth, partneriaid prosiect a chynghorwyr. Roedd y syniadau hyn yn archwilio gwahanol

ffyrdd o gwrdd â'r heriau hyfforddi a gweithredol a nodwyd ac fe'u grwpwyd o dan y pum lens arfarnu safonol: Cwmpas, Ateb, Cyflawni, Gweithredu a Chyllid.

Yna cafodd pob syniad ei sgrinio'n ansoddol yn erbyn yr Amcanion Gwariant a'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol y cytunwyd arnynt i asesu ei gydweddiad strategol, y gallu i'w gyflawni a'i fforddiadwyedd posibl. Cafodd opsiynau a oedd yn amlwg yn afrealistig, yn anfforddiadwy neu'n anghyson â dyletswyddau statudol a thargedau cynaliadwyedd eu diystyru yn y man hwn.

Yn sgil y broses sgrinio gychwynnol hon, lleihawyd y 101 syniad i restr hir o 37 o opsiynau credadwy yr ystyriwyd eu bod yn ymarferol ac yn cyd-fynd â'r strategaeth. Yna dadansoddwyd y 37 opsiwn ar y rhestr hir yn fanylach i ddeall sut y gallent gyfuno yn ddulliau cyflawni realistig.

7.2.2 Cam 2: Arfarnu'r rhestr fer a'r Opsiwn a Ffafrir

Adolygwyd y 37 opsiwn ar y rhestr hir i nodi cyfuniadau cynrychioliadol o ddulliau cwmpas, ateb, cyflawni a chyllido a oedd yn crisialu'r ystod lawn o ddewisiadau hyfyw ar gael i'r Gwasanaeth. Cyfunwyd opsiynau tebyg neu opsiynau a oedd yn gorgyffwrdd i bedwar opsiwn cydlynol ar y rhestr fer, gan adlewyrchu lefelau cynyddol o ymyrraeth ac uchelgais.

Yna gwerthuswyd y pedwar opsiwn hyn ar y rhestr fer yn ansoddol (a, lle bu'n bosibl, yn feintiol) yn erbyn yr un Amcanion Gwariant a Ffactorau Llwyddiant Hanfodol i asesu'n gymharol eu cryfderau, eu gwendidau a'u gwerth cyffredinol am arian.

Yn sgil y rhestr fer ganlyniadol, cafwyd yr atebion canlynol i'w gwerthuso ymhellach:

1. **Gwneud Dim** - Cadw'r cyfleusterau presennol heb fuddsoddiad pellach.
2. **Gwneud y Lleiaf Posibl** - Ychydig bach o waith uwchraddio i gydymffurfio a chynnal a chadw.
3. **Canolfan Hyfforddi Newydd (a Ffafrir)** - Adeiladu canolfan hyfforddi bwrpasol, un asiantaeth newydd, yn Llanelwy.
4. **Canolfan Hyfforddi Well Newydd** - Yr un fath ag Opsiwn 3 ynghyd â phropiau anstatudol ychwanegol ac ardaloedd arbenigol..



Figur 4 : Proses ar gyfer Datblygu'r Rhestr Fer o Atebion

Roedd y broses hon o ddau gam yn darparu llwybr clir ac archwiliadwy o gyfres eang gychwynnol o syniadau i gyfres gryno o opsiynau cadarn i'w harfarnu'n fanwl o fewn yr Achos Busnes Amlinellol hwn.

7.3 Amcanion Gwariant

Mae'r Amcanion Gwario sy'n sail i'r Achos Economaidd hwn wedi'u diffinio yn yr Achos Strategol (Adran 6.3.6). Mae'r amcanion hyn yn sefydlu'r canlyniadau y mae'n rhaid i'r buddsoddiad eu cyflawni ac yn darparu'r sail i asesu perfformiad cymharol pob opsiwn.

Felly, mae pob opsiwn ar y rhestr fer wedi'i werthuso yn erbyn ei allu i:

- Ddarparu cyfleusterau hyfforddi modern, o ansawdd uchel sydd wedi'u diogelu at y dyfodol;
- Darparu amgylcheddau cynhwysol a hygyrch i'r holl staff; a
- Chyflawni cynaliadwyedd amgylcheddol hirdymor a gwerth am arian.

Mae'r arfarniad manwl sy'n dilyn yn dangos sut mae pob opsiwn yn perfformio yn erbyn yr amcanion hyn a'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol cysylltiedig.

7.4 Ffactorau Llwyddiant hanfodol

Datblygwyd y Ffactorau Llwyddiant Hanfodol i asesu hyfywedd a dymunoldeb pob opsiwn dan ystyriaeth. Mae'r Ffactorau hyn yn adlewyrchu amcanion strategol y Gwasanaeth ac yn gyson â methodoleg Gwell Achosion Busnes:

Ffactor Llwyddiant Hanfodol	Esboniad
Cydweddiad Strategol ac Anghenion Busnes	Y graddau y mae'r opsiwn yn cefnogi anghenion gweithredol a hyfforddi hirdymor y Gwasanaeth, yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r gwasanaeth tân cenedlaethol a rhanbarthol ac yn cyflawni'r canlyniadau strategol arfaethedig.
Gwerth Posibl am Arian	Potensial yr opsiwn i ddarparu cyfuniad cytbwys o fuddion a chostau, gan gynnwys cylch bywyd ac effeithlonrwydd gweithredol.
Capasiti a gallu cyflenwyr	Y tebygolrwydd bod gan y farchnad y gallu, y sgiliau a'r profiad i gyflawni'r opsiwn yn llwyddiannus o fewn yr amserlenni a'r safonau ansawdd gofynnol.
Fforddiadwyedd posibl	Sut mae'r opsiwn yn cyfateb i gyllidebau cyfalaf a refeniw disgwylidiedig, gan gynnwys ei allu i ddenu cyllid ac osgoi beichiau cost anghynladwy.
Pa mor bosibl yw'r prosiect	Y graddau y gellir gweithredu'r opsiwn yn llwyddiannus, gan ystyried cymhlethdod prosiect, dibyniaethau, risg, trefniadau llywodraethu a pharodrwydd sefydliadol.

Tabl 7 : Ffactorau Llwyddiant Hanfodol

7.5 Opsiynau ar y Rhestr Hir

7.5.1 Ffafiaeth o ran Opsiynau'r Rhestr Hir

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r 37 o opsiynau rhestr hir a ddaeth i'r amlwg o'r sgrinio cychwynnol. Cyflwynir pob opsiwn o dan y pum lens arfarnu ac mae wedi'i godio â lliw coch, ambr neu wyrdd (CAG) i ddangos i ba raddau maent yn cyfateb i'r Amcanion Gwariant a'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol. Roedd y sgoriau CAG yn seiliedig ar drafodaethau strwythuredig gyda'r Tîm Prosiect, gan fanteisio ar eu barn broffesiynol yn hytrach na sgorio ffurfiol.

Mae gwyrdd yn arwydd o gyfatebiaeth a chynhwysiant cryf o fewn y ffordd ymlaen a ffafrir, mae ambr yn adlewyrchu cyfatebiaeth rannol neu allu cyfyngedig i gymhwyso ac mae coch yn nodi opsiynau a ddiystyriwyd yn y cam hwn. Mae'r crynodeb hwn yn gofnod clir o'r ffordd y mae'r Gwasanaeth wedi asesu dichonoldeb a chydweddiad strategol pob dull posibl cyn datblygu'r rhestr fer o bedwar opsiwn cynrychioladol.

	Opsiwn A	Opsiwn B	Opsiwn C	Opsiwn D	Opsiwn E	Opsiwn F
CWMPAS Darparu	Lle ar gyfer Gwasanaethau Hyfforddi GTAGC	Lle ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol GTAGC	Cyfuniad o Opsiynau A a B			
CWMPAS Gwasanaetha u Hyfforddi	Canolfan diffoddwyr tân poeth	Ystafelloedd dosbarth/ darlithfeydd	Ystafelloedd VR ar gyfer meistrol digwyddiadau	Meysydd hyfforddi awyr agored	Cyfuniad o opsiynau A-D	
CWMPAS Gwasanaetha u Corfforaethol	Cyfleusterau cynadledda.	Pencadlys.	Lle swyddfa cyffredinol.	Iechyd a Diogelwch.	Swyddogaeth h fflyd.	Cyfuniad o Opsiyna u A-C
ATEB Lleoliad	Codi adeilad newydd ar un safle sy'n gallu darparu ar gyfer y cwmpas y cytunwyd arno.	Adeiladu cydweithredol (Heddlu Gogledd Cymru / WAST) gyda diwydiant preifat / y Weinyddiaeth Amddiffyn	Prydlesu gan ddarparwr allanol.			
ATEB Os Adeiladu	Adeiladu ar y safle presennol sy'n eiddo i GTAGC.	Adeiladu ar safle sy'n eiddo i barthner sector cyhoeddus (gan gynnwys milwrol).	Adeiladu ar safle newydd (eto i'w brynu).			
ATEB Dull Adeiladu	Dull adeiladu safonol.	Adeiladu carbon isel.	Cymysgedd LPG / Carbon (Llosgi Glân).			
CYFLAWNI	Cyflawni Mewnol gyda Tîm Prosiect Pwrpasol	Dull Traddodiadol 'Dylunio-Cynnig- Adeiladu'	Cyflawni gan Un Contractwr	Prosiect Dylunio ac Adeiladu: Un Cam	Cyflawni Mewnol gyda Chymorth Allanol	

	Opsiwn A	Opsiwn B	Opsiwn C	Opsiwn D	Opsiwn E	Opsiwn F
GWEITHREDU	O fewn 1 flwyddyn (o gymeradwyaeth FBC)	O fewn 3 blynedd (o gymeradwyaeth FBC)	O fewn 5 mlynedd (o gymeradwyaeth FBC)	O fewn 7 mlynedd (o gymeradwyaeth FBC)		
CYLLID	Llywodraeth Cymru / Cyllid Grant	Dyngarwch, Nawdd neu Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol	Cyngor Sir Ddinbych (a'i bartneriaid)	Cyllid Cydweithredu (Heddlu Gogledd Cymru/WAST)	Cynghorau Lleol (Awdurdod Tân ac Achub)	

Tabl 8 : Crynodeb o Opsiynau'r Rhestr Hir

7.6 Opsiynau ar y Rhestr Fer

Cynhaliwyd y broses o lunio rhestr fer trwy weithdy strwythuredig gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd Prosiect, Gweithgor Aelodau'r Ganolfan Hyfforddi, Cyllid, Ystadau a chynghorwyr allanol. Aseswyd pob opsiwn ar y rhestr hir yn ansoddol yn erbyn pum lens - Cwmpas, Ateb, Cyflawni, Gweithredu a Chyllid - a chafodd ei sgorio yn ôl ei gydweddiad strategol, ei werth am arian posibl, y gallu i'w gyflawni a'i fforddiadwyedd.

Diystyriwyd opsiynau nad oeddent yn bodloni gofynion hyfforddi statudol, a oedd yn dwyn risg anghymesur, neu a oedd yn cynnig cyfatebiaeth wael â blaenoriaethau cynaliadwyedd a chynhwysiant y Gwasanaeth. Cafodd gweddill yr opsiynau eu mireinio'n rhestr fer o bedwar dewis credadwy i'w gwerthuso ymhellach o fewn yr Achos Busnes Amlinellol hwn. Mae'r rhain yn cynrychioli ystod flaengar o ymyrraeth. O gynnal y sefyllfa sydd ohoni hyd at ganolfan hyfforddi well, maent yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer nodi'r opsiwn a ffafrir.

Yr opsiynau ar y rhestr fer yw:

- **Opsiwn 1 – Gwneud Dim:** Cynnal y cyfleusterau gwasgaredig presennol heb fuddsoddiad pellach.
- **Opsiwn 2 - Gwneud y Lleiaf Posibl:** Gwneud ychydig bach o waith uwchraddio ar gyfer cydymffurfio a chynnal a chadw yn unig (e.e. bodloni gofynion lleiaf cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant).
- **Opsiwn 3 - Canolfan Hyfforddi Newydd (a Ffafrir):** Datblygu canolfan hyfforddi newydd, bwrpasol, un asiantaeth yn Llanelwy
- **Opsiwn 4 – Canolfan Hyfforddi Well Newydd:** Yr un fath ag Opsiwn 3 ynghyd â phropiau anstatudol ychwanegol ac ardaloedd arbenigol.

Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio pob opsiwn yn fanylach, gan grynhoi ei nodweddion allweddol, rhagdybiaethau, costau, buddion a risgiau.

7.6.1 Opsiwn 1 – Gwneud Dim

Mae'r opsiwn hwn yn cymryd yn ganiataol bod GTAGC yn parhau i weithredu ei bortffolio presennol o gyfleusterau hyfforddi yn Nolgellau, y Rhyl, Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a chyfleuster 3^{ydd} parti heb unrhyw fuddsoddiad pellach y tu hwnt i gynnal a chadw statudol sylfaenol. Byddai hyfforddiant yn parhau i fod ar wasgar ar draws nifer o safleoedd, gan ddefnyddio hen broapiau a seilwaith nad ydynt bellach yn adlewyrchu amgylcheddau diffodd tân modern na safonau cenedlaethol.

Mae opsiwn Gwneud Dim yn darparu'r llinell sylfaen ar gyfer cymharu yn yr arfarniad economaidd. Er nad yw'n cynnwys gwariant cyfalaf newydd, nid yw'n mynd i'r afael o gwbl â'r risgiau gweithredol, amgylcheddol a chynhwysiant sylweddol a nodwyd yn yr Achos Strategol. Byddai gallu'r gwasanaeth yn parhau i erydu wrth i gyfleusterau ddirywio, gan greu costau cynyddol, llai o realaeth hyfforddiant ac amlygiad cynyddol i risg rheoleiddiol a risg i enw da. Am y rheswm hwn, mae Opsiwn 1 wedi'i ddiystyru fel ffordd hyfyw ymlaen.

7.6.2 Opsiwn 2 – Gwneud y Lleiaf Posibl

Byddai'r opsiwn Gwneud y Lleiaf Posibl yn cynnwys buddsoddiad wedi'i dargedu ar safleoedd presennol i gynnal diogelwch gweithredol sylfaenol, bodloni rhwymedigaethau cydymffurfio uniongyrchol (e.e. gwaith trydanol, strwythurol ac iechyd a diogelwch) ac estyn oes ddefnyddiol y cyfleusterau am gyfnod cyfyngedig. Byddai'r gwelliannau yn fach iawn - gan gwmpasu atgyweiriadau hanfodol a mân ddiweddariadau cydymffurfio yn unig (e.e. bodloni gofynion lleiaf cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant).

Mae'r opsiwn hwn yn cynnig lleihau risg tymor byr ond nid yw'n datrys materion sylfaenol darnio daearyddol, hygyrchedd gwael, diffyg realaeth, neu berfformiad amgylcheddol. Byddai'n darparu budd cyfyngedig o'i gymharu â'r gost ac ni fyddai'n cyd-fynd ag amcanion cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru nac ymrwymiad Sero Net 2030 y Gwasanaeth. Fel y cyfryw, ystyrir ei fod yn ymyriad dros dro o werth isel.

7.6.3 Opsiwn 3 – Canolfan Hyfforddi Newydd

Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dylunio ac adeiladu canolfan hyfforddi newydd, bwrpasol ym Mharc Busnes Llanelwy i fod yn ganolfan hyfforddi ganolog y Gwasanaeth. Byddai'r ganolfan yn cydgrynhoi swyddogaethau presennol - gan gynnwys hyfforddiant ymddygiad tân, meistrolï digwyddiadau, achub technegol, ysgol offer anadlu, ystafelloedd dosbarth a mannau lles - mewn un campws modern wedi'i ddylunio i safonau Di-garbon ac 'Ardderchog' BREEAM.

Byddai'r ganolfan newydd yn darparu amgylcheddau hyfforddi trochi, realistig, cyfleusterau lles a chynhwysiant gwell, a seilwaith diheintio modern. Byddai'n darparu effeithlonrwydd gweithredol, yn lleihau costau teithio a chynnal a chadw, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol ac

amgylcheddol. Ystyrir mai'r opsiwn hwn yw'r cydbwysedd gorau o fforddiadwyedd, y gallu i gyflawni a gwerth cyhoeddus hirdymor, ac felly hwn yw'r opsiwn a ffafrir.

7.6.4 Opsiwn 4 – Canolfan Hyfforddi Well Newydd

Mae'r opsiwn hwn yn adeiladu ar Opsiwn 3 trwy ychwanegu cyfres ehangach o bropiau hyfforddi ac elfennau anstatudol a gynigir trwy ymgysylltu â budd-ddeiliaid (e.e., setiau efelychu ychwanegol, ardaloedd senarios arbenigol, ystafelloedd dosbarth / mannau ategol estynedig). Mae'r nodweddion hyn yn ddymunol ond nid yn hanfodol i fodloni rhwymedigaethau statudol. Cyfeirir at hyn yn aml fel yr opsiwn "Gwneud y Mwyaf Posibl" yn y fethodoleg Gwell Achosion Busnes.

Er y gallai'r nodweddion ychwanegol wella profiad hyfforddi, mae Opsiwn 4 wedi'i ddiystyru yn y cam Achos Busnes Amlinellol oherwydd: (i) mae'n fwy na gofynion craidd y Gwasanaeth; (ii) ni all y safle presennol ddarparu ar gyfer yr ôl troed estynedig heb gyfaddawd sylweddol; a (iii) nid yw'n gwella Gwerth am Arian o'i gymharu ag Opsiwn 3 oherwydd costau cyfalaf a chylch bywyd uwch.

Opsiwn 3 yw'r ateb a ffafrir o hyd gan ei fod yn bodloni'r holl ofynion statudol a'r ffactorau llwyddo hanfodol am lai o gost a chymhlethdod.

7.6.5 Cymharu'r Opsiynau ar y Rhestr Fer

Opsiwn	Disgrifiad	Manteision	Anfanteision
1 – Gwneud Dim	Cynnal cyfleusterau hyfforddi presennol heb fuddsoddiad pellach.	- Dim cost cyfalaf ar unwaith. - Dim aflonyddwch gweithredol tymor byr.	- Nid yw'n bodloni safonau hyfforddi statudol. - Risgiau iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth yn parhau. - Cynyddu costau cynnal a chadw ac aneffeithlonrwydd. - Nid yw'n mynd i'r afael ag amcanion datblygu'r gweithlu na chynaliadwyedd. - Risg parhad busnes - Methiannau annisgwyl neu broblemau gorfodi - Nid yw'n estyn bywyd yr adeiladau y tu hwnt i bum mlynedd
2 – Gwneud y Lleiaf Posibl	Gwneud gwaith cynnal a chadw hanfodol ac ychydig bach o adnewyddu i gynnal cydymffurfiaeth sylfaenol.	- Llai o gost ymlaen llaw. - Cyflawni cydymffurfiaeth statudol tymor byr.	- Rhychwant oes byr; gwelliant cyfyngedig mewn ansawdd hyfforddiant. - Nid yw'n diogelu cyfleusterau at y dyfodol.


Opsiwn	Disgrifiad	Manteision	Anfanteision
		Lleihau aflonyddwch uniongyrchol.	- Diffyg gwerth hirdymor am arian. - Nid yw'n cyflawni cydgrynhoi gweithredol nac enillion effeithlonrwydd.
3 – Canolfan Hyfforddi Newydd	Adeiladu canolfan hyfforddi bwrpasol, un asiantaeth, newydd, ar y safle canolog yn Llanelwy.	- Amgylchedd modern, addas i'r diben sy'n cefnogi pob math o hyfforddiant. - Darparu cydgrynhoi ac effeithlonrwydd strategol. - Gwella diogelwch, cynhwysiant a chynaliadwyedd. - Darparu gwerth hirdymor am arian a llai o gostau gweithredu. - Gwella morâl staff a recriwtio.	- Gofyniad cyfalaf cychwynnol uwch. - Angen cymeradwyaethau datblygu safle. - Amser arwain hirach i wireddu manteision.
Opsiwn 4 – Canolfan Hyfforddi Well Newydd	Cwmpas Opsiwn 3 ynghyd â phropiau ac elfennau "braf eu cael" anstatudol a nodwyd yn ystod ymgysylltu.	Senarios hyfforddi cyfoethocach o bosibl; gwell profiad defnyddiwr.	- Nid yw'n ofynnol i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol - Ôl troed mwy nag y gall y safle ei ddarparu yn synhwyrol - Gofyniad cyfalaf cychwynnol uchaf - Gwerth am arian gwannach nag Opsiwn 3 - Ychwanegu cymhlethdod cyflawni heb unrhyw enillion gwerth cyhoeddus cymesur. - Amserlen ddatblygu estynedig a risg gyflawni uwch. - Amser arwain hirach i wireddu buddion.

Tabl 9 : Manteision ac Anfanteision Opsiynau Rhestr Fer

7.7 Dadansoddi Hygyrchedd y Safle

Er mwyn cefnogi'r broses o arfarnu opsiynau, cyflogodd y Gwasanaeth ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi amseroedd teithio i wahanol safleoedd posibl ledled Gogledd Cymru. Dangosodd y dadansoddiad mai Llanelwy oedd y lleoliad mwyaf hygyrch o ran amser teithio ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhanbarth. Crynhoir canlyniadau'r asesiad hygyrchedd hwn yn y map canlynol ac

- Ardal 1  : Gall **89%** o orsafoedd tân gyrraedd yr ardal hon o fewn 60 munud
- Ardal 2  : Gall **73%** o orsafoedd tân gyrraedd yr ardal hon o fewn 60 munud
- Ardal 3  : Gall **59%** o orsafoedd tân gyrraedd yr ardal hon o fewn 60 munud
- Ardal 4  : Gall **44%** o orsafoedd tân gyrraedd yr ardal hon o fewn 60 munud



Figur 5 : Map sy'n amlygu hygyrchedd pob ardal o fewn 60 munud

Prif nod unrhyw gynnis sector cyhoeddus yw sicrhau'r gwerth cymdeithasol neu gyhoeddus mwyaf posibl, a ddiffinnir fel "yr holl gostau a buddion sylweddol sy'n effeithio ar lesiant a lles y boblogaeth, nid effeithiau'r farchnad yn unig." (Trysorlys EF, 2022, Llyfr Gwyrdd)

Cafodd y buddion eu categoraiddio fel a ganlyn:

1. **Ariannol:** lle gellir amcangyfrif buddion cyfwerth ag ariannol yn ddibynadwy
2. **Mesuradwy:** lle gellir mesur buddion ond nid eu gwerth ariannol
3. **Ansoddol:** buddion na ellir eu mesur na nodi eu gwerth ariannol

Mae'r fframwaith hwn yn darparu golwg gynhwysfawr ar yr achos buddsoddi ac mae hefyd yn dryloyw ynghylch cyfyngiadau ac ansicrwydd dadansoddol.

7.8.1 Buddion Ariannol

7.8.1.1 Economeg a buddion cymdeithasol

Mae gan y Gwasanaeth rwymedigaeth statudol o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i gynnal gwasanaeth sy'n gallu delio'n effeithiol â thân ac argyfyngau eraill. Mae buddsoddiad yn y Ganolfan Hyfforddi yn cefnogi'r ddyletswydd graidd hon yn uniongyrchol trwy sicrhau bod diffoddwyr tân yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r parodrwydd gweithredol i amddiffyn eu hunain a'r cyhoedd.

Gellir disgwyl yn argyhoeddiadol i hyfforddiant effeithiol leihau costau economaidd a chymdeithasol digwyddiadau tân. Mae'r Swyddfa Gartref (2023) yn darparu amcangyfrifon cadarn o'r costau hyn fel a ganlyn³:

Math o gost	
Amcangyfrifon y Swyddfa Gartref (2023)	
Cost Fesul Tân: Yr Holl Danau yr Aethpwyd i Ddelio â Nhw (prisiau 2019/20)	£20,900
Cost Fesul Marwolaeth: Pob Tân (prisiau 2019/20)	£1,282,339
Addasiad chwyddiant	
Mynegai Datchwyddydd Cynnyrch Domestig Gros (2019/20 i 2025/26)	1.27
Cost Fesul Tân: Yr Holl Danau yr Aethpwyd i Ddelio â Nhw (prisiau 2025/26)	£26,501
Cost Fesul Marwolaeth: Pob Tân (prisiau 2025/26)	£1,282,339
Gwerth Presennol dros gyfnod gweithredu 30 mlynedd	
Cyfradd ddisgownt safonol	3.50%
Cyfradd ddisgownt iechyd	1.50%
Cost PV Fesul Tân: Yr Holl Danau yr Aethpwyd i Ddelio â Nhw	£14,443.70
Cost PV Fesul Marwolaeth: Pob Tân	£993,389.71

Tabl 10 : Costau Economaidd a Chymdeithasol Digwyddiadau Tân

³Chwyddiant: Uwchraddiwyd cost y Swyddfa Gartref fesul tân ar gyfer chwyddiant. Mae'r gost fesul marwolaeth yn seiliedig ar effaith marwolaethau sy'n gysylltiedig â thân ar flynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALY), sy'n fesur iechyd safonedig. Yn dilyn canllawiau'r Trysorlys, mae gwerth QALY wedi aros yn £70k rhwng 2019/20 a 2025/26 ac felly nid yw'r gwerth hwn wedi'i uwchraddio. Disgowntio: gan y byddai'r gostyngiad posibl mewn tanau a marwolaethau, sy'n gysylltiedig â'r ganolfan hyfforddi, yn digwydd dros y cyfnod gweithredu 30 mlynedd, mae'r costau hyn yn cael eu disgowntio i werthoedd presennol (PV), gan ddefnyddio safon y Trysorlys a chyfraddau disgowntio iechyd, yn y drefn honno.

Dros gyfnod gweithredu'r ganolfan hyfforddi, amcangyfrifir mai'r gost gwerth presennol fesul tân yr eir i ddelio ag ef yw tua £14,400. Yn yr un modd, mae'r gost fesul marwolaeth ychydig yn llai nag £1 miliwn.

Er bod modd pennu gwerth y costau uned tân hyn, nid yw'n bosibl meintio'i'n ddibynadwy y cysylltiad achosol rhwng buddsoddiad yn y cyfleuster hyfforddi newydd a gostyngiadau risg posibl. Yn benodol, nid yw'n bosibl amcangyfrif yn hyderus:

- faint yn llai o ddigwyddiadau a allai fod trwy well effeithiolrwydd gweithredol; neu
- i ba raddau y gellid lliniaru costau digwyddiad (e.e. difrod i eiddo, anafiadau, marwolaethau).

Nid yw'r bwlch tystiolaeth hwn yn unigryw i'r Gwasanaeth: mae'n adlewyrchu her sylfaenol wrth werthuso hyfforddiant diogelwch ar draws gwasanaethau brys a sectorau eraill â chanlyniadau pellgyrhaeddol. Mae canlyniadau hyfforddi - newidiadau yn ymddygiad diffoddwyr tân, gwneud penderfyniadau dan bwysau, hyfedredd tactegol - yn anodd eu harsylwi ac yn anoddach byth eu cysylltu â chanlyniadau diogelwch ar lefel poblogaeth, y mae nifer o ffactorau dwysáu y tu hwnt i ansawdd hyfforddiant yn dylanwadu arnynt.

Fel y mae'r Llyfr Gwyrdd yn ei gydnabod, lle nad yw dadansoddiad cost a budd llawn yn bosibl nac yn briodol, gall mathau eraill o ddadansoddiad gwerth am arian lywio'r dadansoddiad opsiynau. Y dull, felly, yw defnyddio dadansoddiad adennill costau (isod). Mae'r dull yn gofyn: pa ostyngiad mewn marwolaethau fyddai ei angen i gyfiawnhau'r costau buddsoddi?

7.8.1.2 Arbedion costau gweithredol

Mae'r ystâd hyfforddi bresennol yn cynnwys pum safle gwasgaredig ledled Gogledd Cymru (Dolgellau, y Rhyl, Wrecsam, Glannau Dyfrdwy, a chyfleuster 3^{ydd} parti). Mae cydgrynhoi i un cyfleuster yn Llanelwy yn arbed costau blynyddol sylweddol, sef cyfanswm o dros £300,000 bob blwyddyn o dan Opsiynau 3 a 4.⁴

Eitem	Opsiwn 3	Opsiwn 4
Arbedion costau teithio	£67,500	£67,500
Gostyngiad mewn cerbydau ar les	£72,509	£72,509
Gostyngiad TOIL/Goramser	£68,772	£68,772
Llogi trydydd parti wedi'i osgoi	£15,975	£30,975
Arbedion costau cyfleustodau (ynni, dŵr, gwastraff)	£60,000	£60,000
Arbed ardrethi annomestig	£15,250	£15,250
Incwm allforio PV	£4,358	£4,358
Cyfanswm arbedion blynyddol	£304,364	£319,364

Tabl 11 : Arbedion Costau Refeniw Blynyddol

⁴ Rhagwelir dim arbedion o dan Opsiynau 1 a 2

Mae'r arbedion hyn wedi'u hymgorffori yn yr amcanestyniadau costau referniw net, ac maent yn arbediad o £5.5 miliwn o dan Opsiwn 3. Yr arbedion ar gyfer Opsiwn 4 yw £5.82 miliwn, cynnydd cymharol gymedrol o'i gymharu â'r opsiwn a ffafrir.⁵

Opsiwn	Cyfanswm (£m)
Enwol, heb ddisgownt	
Gwrthbwysu: Opsiwn 3	£16.15
Gwrthbwysu: Opsiwn 4	£16.94
Termau real, gwerth presennol	
Gwrthbwysu: Opsiwn 3	£5.54
Gwrthbwysu: Opsiwn 4	£5.82

Tabl 12 : Arbedion ar gyfer Opsiynau 3 a 4

7.8.2 Buddion Mesuradwy

Mae'r Ganolfan Hyfforddi yn darparu gwelliannau gweithredol mesuradwy eraill y gellir eu meintoli, ond nad ydynt yn hawdd eu moneteiddio, gan gynnwys:

- Gwell cyfraddau defnyddio cyrsiau hyfforddi trwy gydlyn amserlenni'n well ar un safle; a
- Llai o ganslo cyrsiau oherwydd diffyg argaeledd cyfleusterau neu broblemau cynnal a chadw.

Bydd y Gwasanaeth yn sefydlu metrigau gwaelodlin ar gyfer y dangosyddion hyn ac yn gosod targedau gwella fel rhan o'r 10.8 Cynllun Gwireddu Buddion (gweler yr Achos Rheoli). Maent yn cynrychioli enillion effeithlonrwydd mewnol yn bennaf yn hytrach na chreu gwerth uniongyrchol.

7.8.3 Buddion y gellir eu Meintoli

Y tu hwnt i welliannau mesuradwy mewn effeithlonrwydd gweithredol, disgwylir i'r Ganolfan Hyfforddi ddarparu buddion ansoddol sylweddol sy'n ganolog i'r achos strategol dros fuddsoddi ond na ellir eu mesur na'u moneteiddio'n rhwydd mewn termau economaidd. Serch hynny, mae'r buddion hyn yn hanfodol i gyflawni rhwymedigaethau statudol y Gwasanaeth, amcanion strategol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r adran hon yn nodi'r effeithiau ansoddol mwyaf arwyddocaol, wedi'u strwythuro o amgylch pum thema allweddol.

⁵ Maent yn cael eu trin fel arbedion cyllidol sy'n cronni i'r Gwasanaeth ac felly'n cael eu trin fel 'gwrthbwysu' cost yn hytrach na budd economaidd.

7.8.3.1 Ansawdd hyfforddiant a pharodrwydd gweithredol

Mae'r ystâd wasgaredig bresennol yn dioddef o gyfyngiadau sylfaenol sy'n cyfyngu ar effeithiolrwydd hyfforddiant. Mae'r cyfleusterau'n amrywio o ran oedran, cyflwr a gallu.

Yn y dyfodol, bydd y darnio hwn yn dechrau gorfodi mwy o gyfaddawdau wrth ddylunio cyrsiau, cyfyngu ar gymhlethdod senarios y gellir eu cyflawni, a chyfyngu ar allu'r Gwasanaeth i baratoi personél ar gyfer y sbectrwm llawn o risgiau y byddant yn eu hwynebu ledled Gogledd Cymru.

Bydd y cyfleuster newydd yn trawsnewid y ddarpariaeth hyfforddiant drwy:

- **Barthau hyfforddi pwrpasol:** amgylcheddau gwahanol sy'n efelychu senarios digwyddiadau sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddaearyddol a risg Gogledd Cymru;
- **Lleoliadau hyfforddi trochi, realistig:** gan alluogi diffoddwyr tân i gael profiad o wneud penderfyniadau dan bwysau mawr mewn amodau sy'n ailadrodd digwyddiadau gweithredol yn agos, gan wella cof cyhyrau, hyfedredd tactegol, a chydlynu criw;
- **Systemau diogelwch a thechnoleg monitro fodern:** gan alluogi hyfforddwyr i arsylwi perfformiad hyfforddeion mewn amser real, darparu adborth ar unwaith, a chrisialu canlyniadau dysgu a all lywio gwelliant parhaus;
- **Cyfleusterau lles addas i'r diben:** gan gynnwys ystafelloedd newid, ardaloedd diheintio, mannau gorffwys, a darpariaethau arlwyio sy'n bodloni safonau iechyd, diogelwch ac urddas cyfoes; a
- **Seilwaith technolegol:** cefnogi integreiddio efelychu a dadansoddeg data wrth ddarparu hyfforddiant, diogelu'r cyfleuster at y dyfodol yn erbyn gofynion gweithredol esblygol.

Bydd cydgrynhoi yn galluogi hyfforddwyr i neilltuo eu ffocws i ddarparu hyfforddiant yn hytrach na'r logisteg ychwanegol, rheoli cyfleusterau a'r cydlynu sy'n ofynnol ar gyfer safleoedd gwasgaredig. Dylai hyn wella cysondeb ac ansawdd profiadau hyfforddi i'r holl bersonél.

Bydd y Gwasanaeth yn mesur newidiadau mewn ansawdd hyfforddiant trwy werthusiadau cyfranogwyr diwedd y cwrs, arolygon gweithlu tair blynedd, asesiadau hyfforddwyr o ddilyniant cymhwysedd ac olrhain dangosyddion perfformiad digwyddiadau gweithredol. Er na fydd y metrigau hyn yn cael eu moneteiddio, byddant yn rhan o'r Cynllun Gwireddu Buddion dystiolaeth barhaus ategol o gyflawni gwerth (gweler yr Achos Rheoli).

7.8.3.2 Cydweithio aml-asiantaeth a chydymffurfiaeth â JESIP

Mae [Cyd-egwyddorion Rhyngweithredu'r Gwasanaethau Brys](#) (JESIP) yn darparu'r fframwaith gweithredol ar gyfer gweithio aml-asiantaeth effeithiol yn ystod digwyddiadau mawr ac mae ymarfer rheolaidd ar y cyd yn hanfodol i ymgorffori'r egwyddorion hyn yn ymarferol.

Mae'r cyfleusterau presennol yn debygol o gyfyngu ar gyfleoedd hyfforddi aml-asiantaeth. Bydd cyfyngiadau safle - gan gynnwys capasiti, trefniadau mynediad a darpariaeth lles - yn ei gwneud hi'n anoddach cynnal sefydliadau partner ar gyfer ymarferion ar y cyd.

Dyluniwyd y Ganolfan Hyfforddi newydd o'r cychwyn cyntaf gyda chydweithio aml-asiantaeth mewn golwg. Bydd ei graddfa, ei chyfleusterau a'i lleoliad strategol yn Llanelwy yn galluogi'r Gwasanaeth i ddarparu hyfforddiant sy'n cydymffurfio â JESIP

sy'n cwmpasu strwythurau meistrolï, protocolau cyfathrebu ac ymwybyddiaeth sefyllfaol a rennir.

Bydd hefyd yn caniatáu i'r Gwasanaeth gynnig cyfleusterau hyfforddi i sefydliadau partner eraill, gan gryhau perthnasoddd gwaith cydweithredol a dangos effeithlonrwydd y sector cyhoeddus trwy ddefnyddio asedau a rennir.

Mae'r galluoedd hyn yn cefnogi'n uniongyrchol Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig nodau [adeiladu Cymru fwy cyfartal](#) drwy ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn modd cydweithredol a [Chymru gydnerth](#) sy'n gallu addasu i argyfyngau a risgiau systemig. Er ei fod yn anodd moneteiddio hyn, mae serch hynny'n hanfodol i lwyddiant gweithredol yn ystod digwyddiadau cymhleth â chanlyniadau pellgyrhaeddol lle mae cydlynw effeithiol yn achub bywydau.

7.8.3.3 Recriwtio, cadw a lles y gweithlu

Mae gwasanaethau tân ac achub ledled y DU yn wynebu heriau cynyddol i'r gweithlu, gan gynnwys anawsterau recriwtio, cystadleuaeth gan wasanaethau brys eraill a chyflogwyr sector preifat, a disgwyliadau cynyddol gan staff presennol ynghylch safonau'r gweithle a thriniaeth gyfartal. Mae ansawdd y cyfleusterau hyfforddi'n anfon signal pwerus am ddiwylliant sefydliadol, proffesiynoldeb ac ymrwymiad i ddatblygu staff.

Yn eu tro, mae'r buddion hyn yn lleihau rhwystrau i les y gweithlu, recriwtio a chadw staff, yn enwedig ymhlith unigolion o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol. Yn y cam hwn, nid yw'n bosibl meintïoli effaith bosibl ansawdd cyfleusterau ar y canlyniadau hyn, ond bydd yr amgylchedd hyfforddi yn ffactor perthnasol wrth sbarduno gwelliannau.

7.8.3.4 Cynaliadwyedd amgylcheddol ac arweinyddiaeth enw da

Mae [Strategaeth Amgylcheddol y Gwasanaeth 2023-2030](#) wedi ymrwmo i gyflawni carbon sero net erbyn 2030, gan gydredeg â [datganiad argyfwng hinsawdd Llywodraeth Cymru](#) a thargedau datgarboneiddio statudol o dan [Ddeddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#). Dyluniwyd y Ganolfan Hyfforddi newydd i fodloni'r ymrwymiad hwn drwy:

- Di-garbon ar gyfer ynni dan reolaeth (gwresogi, oeri, goleuadau a gwasanaethau adeilad sefydlog)
- Ardystiad 'Ardderchog' BREEAM;
- Cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle trwy araeau ffotofoltäig, gan leihau dibyniaeth ar y grid;
- Dyluniad adeilad ynni-effeithlon sy'n ymgorffori gwresogi/oeri goddefol, inswleiddio perfformiad uchel, a systemau rheoli adeiladau uwch; a
- Systemau draenio a rheoli dŵr cynaliadwy sy'n lleihau effaith amgylcheddol a chostau gweithredol.

Y tu hwnt i ostyngiadau cost uniongyrchol (uchod), mae'r prosiect yn rhagweld cyflawni llai o effeithiau carbon nad ydynt wedi'u mesur yn y cam Achos Busnes Amlinellol (OBC) hwn.

Mae'r cyfleuster hefyd yn mynd i'r afael â risg amgylcheddol a risg enw da sylweddol sy'n gysylltiedig â'r ystâd bresennol: cynhelir hyfforddiant tân byw ym Mharc Cenedlaethol Eryri, tirwedd warchodedig a gynnabyddir yn rhyngwladol. Mae'r arfer hwn yn fwyfwy anghydnaws â safonau diogelu'r amgylchedd, yn peryglu enw da'r Gwasanaeth ac yn debygol o fod yn anghynladwy yn y tymor canolig o ystyried craffu dwysach ar stiwardiaeth amgylcheddol y sector cyhoeddus.

Bydd symud hyfforddiant tân byw i gyfleuster pwrpasol yn Llanellwyr yn lliniaru'r risg hon gan ddangos arweinyddiaeth amgylcheddol ar draws sector cyhoeddus Cymru. Bydd y Ganolfan Hyfforddi yn enghraifft weladwy o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol mewn modd cynaliadwy, gan gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i wneud Cymru'n arweinydd byd-eang wrth ymateb i newid yn yr hinsawdd.

Estynna'r buddion enw da y tu hwnt i gymwysterau amgylcheddol. Mae cyfleuster hyfforddi blaenllaw modern yn sefydlu'r Gwasanaeth yn sefydliad blaengar, a reolir yn broffesiynol, a allai fod â manteision perthnasol ond anfesuradwy ar gyfer cydweithio, cysylltiadau â Llywodraeth Cymru a hyder y cyhoedd yn y Gwasanaeth.

7.8.3.5 Hyblygrwydd strategol a diogelu ar gyfer y dyfodol

Mae'r amgylchedd gweithredu tân ac achub yn parhau i esblygu. Amrywia'r mathau o ddigwyddiadau fwyfwy, gan gynnwys risgiau cynyddol o lifogydd, digwyddiadau tywydd eithafol, deunyddiau peryglus ac achubiadau technegol cymhleth. Newid o hyd y mae safonau adeiladu, technolegau cerbydau a thactegau gweithredol i gyd. Mae technolegau digidol - gan gynnwys efelychu, dadansoddeg data a monitro o bell - yn trawsnewid y ffordd y gellir cyflwyno ac asesu hyfforddiant.

Cynigia'r ystâd wasgaredig bresennol hyblygrwydd mwy cyfyngedig i addasu i'r newidiadau hyn dros y 30 mlynedd nesaf, a'r tu hwnt. Cyfyngir ar safleoedd gan eu dyluniad gwreiddiol, eu hoedran a'u lleoliad. Yn aml, er mwyn ychwanegu galluoedd hyfforddi newydd, mae angen buddsoddi'n sylweddol ar draws nifer o leoliadau neu gallai fod yn anymarferol oherwydd cyfyngiadau pob safle.

Cynigia'r cyfleuster newydd hyblygrwydd strategol ac mae'n 'diogelu at y dyfodol' drwy:

- Barthau hyfforddi mwy addasadwy y gellir eu hail-ffurfweddu i efelychu senarios risg sy'n dod i'r amlwg heb fod angen newidiadau mawr i'r seilwaith;
- Graddfa ffisegol ddigonol i ddarparu ar gyfer rhaglenni hyfforddi estynedig, gofynion gweithredol newydd neu ddefnydd gan asiantaethau partner ychwanegol; a
- Bywyd dylunio 35 mlynedd gyda chynnal a chadw cylch bywyd wedi'i gynllunio sy'n sicrhau bod y cyfleuster yn parhau i fod yn addas i'r diben trwy gydol ei oes economaidd.

Mae'r hyblygrwydd strategol hwn yn arwydd o 'werth opsiynau' sylweddol - y gallu i ymateb yn fwy effeithiol i newidiadau yn y dyfodol na ellir eu rhagweld yn llawn yn y cam OBC hwn. Er ei fod yn anodd ei foneteiddio, mae'r gwerth opsiwn hwn yn cael ei gydnabod yng nghanllawiau Trysorlys EF yn ystyriaeth ddilys mewn penderfyniadau buddsoddi cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer asedau hirhoedlog sy'n gwasanaethu swyddogaethau brys tyngedfennol.

7.8.3.6 Integreiddio â buddion wedi'u moneteiddio a buddion mesuradwy

Nid yw'r buddion ansoddol a amlinellir uchod yn ddewisiadau yn lle'r effeithiau wedi'u moneteiddio a'r effeithiau mesuradwy a gyflwynwyd yn gynharach yn yr Achos Economaidd hwn - maent yn ategol. Mae gwell ansawdd hyfforddiant, cydweithio aml-asiantaeth, lles y gweithlu, cynaliadwyedd amgylcheddol a hyblygrwydd strategol i gyd yn cyfrannu at yr amcan terfynol: gwasanaeth tân ac achub mwy galluog, gwydn ac effeithiol sy'n cadw pobl yn ddiogel.

7.9 Dadansoddiad o Werth am Arian

7.9.1 Dull Dadansoddol

Nod unrhyw arfarniad rhestr fer yw asesu costau, buddion a risgiau'r opsiynau ar y rhestr fer yn fanylach. Nid darparu asesiad wedi'i fesur a'i foneteiddio'n llawn o'r holl effeithiau mo'r diben o reidrwydd. Yn wir, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu "rhoi pen ar y gorbwyslais ar Gymarebau Cost a Budd wrth wneud penderfyniadau'r llywodraeth" (Trysorlys EF, [Adolygiad Llyfr Gwyrdd 2025](#)).

Mae buddsoddi yn y ganolfan hyfforddi yn un enghraifft o'r fath lle mae cymarebau cost a budd yn debygol o fod yn amhriodol ac yn gamarweiniol, fel metrig penderfynu. Mae dull amgen yn cyfuno:

- **Dadansoddiad costau:** Heb ddadansoddiad cost a budd llawn, mae'n bwysig o hyd amcangyfrif costau 'economaidd' (yn hytrach nag ariannol) pob opsiwn ar y rhestr fer;
- **Dadansoddiad adennill costau:** Yn amcangyfrif nifer y marwolaethau y byddai angen eu hatal i gyfiawnhau cost ychwanegol pob opsiwn. Mae hwn yn dangos graddfa'r gwelliannau diogelwch sy'n ofynnol i gyfiawnhau buddsoddiad; a
- **Dadansoddiad risg a sensitifrwydd:** Yn profi rhagdybiaethau allweddol sy'n gysylltiedig â'r uchod i gydnabod ansicrwydd, yn enwedig ynghylch effeithiau tymor hwy.

Yna nodir yr opsiwn a ffafrir, gan gyfeirio at yr ystod lawn o effeithiau mesuradwy ac anfesuradwy.

7.9.2 Rhagdybiaethau Allweddol

Mae'r prosiect hwn yn rhagdybio cyfnod gwerthuso o 35 mlynedd.⁶ At ddibenion y dadansoddiad hwn, tybir y bydd y ganolfan newydd yn weithredol o ddiwrnod cyntaf y flwyddyn ariannol ar ôl cwblhau'r gwaith cyfalaf.

Yn yr Achos Ariannol rhoir costau mewn termau enwol (arian parod) gan fod y prif gwestiwn yno'n ymwneud â fforddiadwyedd yr opsiwn a ffafrir. Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif chwyddiant hirdymor o 3% y flwyddyn ar gyfer costau gweithredu ac arbedion/gwrthbwysio.

⁶ Yn cwmpasu blynyddoedd ariannol 2025/26 (blwyddyn 0) i 2059/60 (blwyddyn 34). Mae hyn yn cynnwys y cyfnod adeiladu pedair blynedd (2025/26 i 2029/30) a chyfnod gweithredu 30 mlynedd (2030/31 i 2059/60)

Er mwyn cymharu costau economaidd pob opsiwn ar y rhestr fer, rhoddir costau mewn termau 'real' gan ddileu effeithiau chwyddiant cyffredinol. Yn dilyn canllawiau'r Trysorlys, mae'r cyfrifiadau'n dileu chwyddiant gan ddefnyddio'r gyfres dachwyddydd cynnyrch domestig gros hirdymor ddiweddaraf, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mehefin 2025. Y flwyddyn sylfaen pris yw 2025/26.

Mae costau a buddion yn cael eu disgowntio i werthoedd presennol. Cymhwysir cyfraddau safonol y Trysorlys: 3.5% ar gyfer blynyddoedd 0-30, 3% ar gyfer blynyddoedd 31-35. Ar gyfer buddion llai o farwolaethau yn unig, cymhwysir y cyfraddau disgownt iechyd is: 1.5% ar gyfer blynyddoedd 0-30, 1.29% ar gyfer blynyddoedd 31-35.

Mae rhagdybiaethau cost yn ymwneud â chyllideb y prosiect a amcangyfrifwyd ym mis Hydref 2025. Mae'r rhain yn cynnwys rhagdybiaethau allweddol ar adeiladau, cyfleustodau, rheoli cyfleusterau a staffio (gweler yr Achos Ariannol). Tybia'r senario cost 100% o gyllid grant Llywodraeth Cymru ac felly nid yw costau benthyca wedi'u cynnwys yn y senarios economaidd isod. Caiff costau suddedig wrth ddatblygu'r cynllun hyd yma eu heithrio, yn dilyn canllawiau Trysorlys EF.

Mae arbedion costau gweithredol (gweler yr Arfarniad Buddion uchod) yn rhagdybio'r canlynol:

- Milltiroedd teithio gwaelodlin y flwyddyn (gwneud dim, safle gwasgaredig): 500,000 milltir
- Milltiroedd newydd y flwyddyn (cyfleuster newydd): 350,000 milltir
- Cyfradd y filltir: £0.45 y filltir (procsi Cyllid a Thollau EF)
- Costau cerbydau: £72,509 o arbedion o leihau prydles
- Gostyngiad TOIL/goramser: £68,772 o arbedion
- Llogi trydydd parti wedi'i osgoi: £15,975 y flwyddyn
- Arbedion ardrethi annomestig: £15,250
- Costau ynni wedi'u hosgoi: £50,000 y flwyddyn
- Costau gwastraff wedi'u hosgoi: £10,000 y flwyddyn

Araeau solar ffotofoltäig:

- Capasiti: 250 kWp (deiliad lle)
- Arenillion: 830 kWh/kWp y flwyddyn (cyfartaledd Gogledd Cymru 830-890)
- Hunanddefnydd 70% (cyfran a ddefnyddir ar y safle)
- Tariff allforio: £0.07/kWh (cyfradd allforio SEG geidwadol)

Tuedd optimistiaeth (OB)

I ddechrau, roedd costau cyfalaf yn cynnwys cynnydd o 24% o duedd optimistiaeth, yn unol â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF ar gyfer prosiectau adeiladu safonol. Cymhwyswyd hyn i Opsiwn 3, gan arwain at gost gyfalaf o £46.3m mewn termau gwerth presennol. Fodd bynnag, yn dilyn asesiad manwl o risgiau sy'n benodol i'r prosiect a chymhwyso mesurau lliniaru cydnabyddedig, lleihawyd yr addasiad OB i **16%**. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu camau rhagweithiol a gymerwyd i fynd i'r afael â sbardunau risg allweddol a nodwyd yn y Llyfr Gwyrdd ac a welir mewn achosion busnes tebyg.

Ymhlith y mesurau lliniaru mae cynnwys contractwyr yn gynnar yn ystod y cyfnod dylunio a defnyddio fframweithiau sefydledig gyda chontractwyr profiadol yn y sector Gwasanaeth Tân ac Achub, gan leihau'r risg caffael yn sylweddol. Cryfhawyd yr achos busnes trwy arfarniad trylwyr, cyfranogiad budd-ddeiliaid ac arbenigedd sector gan MIAA, ac Oagrove-Mission Economics. Ar ben hynny, mae ymgysylltu'n gynnar ag eiddo cyfagos ac aelodau Cyngor Sir Ddinbych wedi lliniaru risgiau enw da ac amgylcheddol. Gyda'i gilydd, mae'r camau hyn yn rhoi sicrwydd bod amcangyfrifon cost yn fwy cadarn, gan gyfiawnhau gostwng yr OB i 16%.

Mae costau refeniw yn parhau i ymgorffori cynnydd OB o 15%, yn seiliedig ar Fframwaith Cost a Budd Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf (GMCA). Cymhwysa'r fframwaith hwn addasiad ceidwadol Gradd 4 (+15%) lle mae rhai rhagdybiaethau yn deillio o ganllawiau cyflym. Er bod amcangyfrifon cost yn seiliedig ar fethodoleg gadarn, mae amcanestyniadau hirdymor yn gynhenid ansicr. Ailystyrir y rhagdybiaethau hyn yn y cam Achos Busnes Llawn (FBC), lle gellir lleihau OB ymhellach fel rheol.

Mae'r addasiadau darbodus hyn yn cydnabod, er bod yr amcangyfrifon cost yn seiliedig ar fethodoleg gadarn, na all y prosiect hyderu'n llwyr yn yr amcanestyniadau tymor hir. Mae lle i ailedrych ar y rhagdybiaethau hyn yn y cam FBC, lle gellir lleihau OB fel rheol.

Gradd Hyder	Codio Lliw	Ffynhonnell Data	Oedran Data	Gwall Data Hysbys		Cywiro Tuedd Optimistiaeth
1		Data cost wedi'i archwilio'n annibynnol	Data Cyfredol (<1 flwydd oed)	+2%	→	0%
2		Costau contract cyflenwi gwasanaeth ffurfiol	1-2 flwydd oed	+5%	→	+5%
3		Costau wedi'u monitro gan ymarferwyr	2-3 blwydd oed	+10%	→	+10%
4		Costau a ddatblygwyd o ganllawiau cyflym	3-4 blwydd oed	+15%	→	+15%
5			4-5 mlwydd oed	+20%	→	+25%
6		Barn arbenigol heb ei chadarnhau	>5 mlwydd oed	+25%	→	+40%

Tabl 13 : Gradd Hyder ar gyfer Data Cost

7.9.3 Crynodeb o'r Costau Cyfalaf a Refeniw

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r costau a amcangyfrifir ar gyfer pob un o'r pedwar opsiwn ar y rhestr fer dros y cyfnod arfarnu. Mae ffigurau refeniw net yn ymgorffori'r arbedion gweithredol blynyddol a amcangyfrifir uchod.

Cost (£ miliynau)	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4
Termau enwol (arian parod), heb ddisgownt				
Refeniw net	£13.53	£37.60	£51.04	£58.60
Cyfalaf	£16.46	£35.12	£49.95	£58.21
Cost Sector Cyhoeddus	£29.99	£72.72	£100.99	£116.81
Termau real, gwerth presennol				
Refeniw net	£4.37	£12.75	£17.51	£20.17
Cyfalaf	£15.51	£32.64	£43.21	£49.70
PV Cost y Sector Cyhoeddus	£19.88	£45.39	£60.72	£69.87
Tuedd Optimistiaeth (OB)				
Refeniw net (+15% OB)	£5.02	£14.66	£20.13	£23.20
Cyfalaf (+24% OB)	£18.00	£37.86	£50.12	£57.65
PV Cost y Sector Cyhoeddus	£23.02	£52.52	£70.26	£80.85

Tabl 14 : Costau Cyfalaf a Refeniw ar gyfer Opsiynau 1-4

Mae Opsiwn 3 yn dod i'r amlwg gydag amcangyfrif o werth presennol (PV) cost sector cyhoeddus o £70.26 miliwn. Y buddsoddiad cynyddol yw £47.23 m o'i gymharu â'r llinell sylfaen 'Gwneud Dim' (Opsiwn 1).

7.9.4 Canfyddiadau'r Dadansoddiad Adennill Costau

Mae'r dadansoddiad adennill costau yn cadarnhau'r gwelliant canlyniadau trothwy sy'n ofynnol i gyfiawnhau'r buddsoddiad cyhoeddus net. Yn yr achos hwn, mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar gost uned o ryw £1 miliwn fesul marwolaeth sy'n gysylltiedig â than (uchod) ac yn amcangyfrif nifer y marwolaethau y byddai angen eu hatal i gyfiawnhau costau ychwanegol gwahanol opsiynau.

Dadansoddiad Adennill Costau	Opsiwn 3 yn erbyn 1	Opsiwn 3 yn erbyn 2	Opsiwn 4 yn erbyn 3
Cost Ychwanegol (£m)	47.23	17.73	10.60
Marwolaethau wedi'u Hatal i Adennill Costau: Dros 30 mlynedd	47.55	17.85	10.67
Marwolaethau wedi'u Hatal i Adennill Costau: Blynyddol	1.58	0.59	0.36

Tabl 15 : Dadansoddiad Adennill Costau ar gyfer Opsiynau 1-4

Byddai'r buddsoddiad cynyddol o £47.23m yn Opsiwn 3 (o'i gymharu ag Opsiwn 1) yn cael ei gyfiawnhau drwy atal tua 48 o farwolaethau dros y cyfnod gweithredu 30 mlynedd, sy'n cyfateb i 1.6 o farwolaethau bob blwyddyn.

Mae'r amcangyfrif yn berthnasol i farwolaethau diffoddwyr tân a sifiliaid, sy'n cynrychioli gwerth cyfunol y canlynol:

- Gwelliannau yng ngallu diffoddwyr tân i gadw eu hunain yn ddiogel
- Eu gallu i amddiffyn cydweithwyr yn ystod gweithrediadau
- Eu gallu i gadw'r cyhoedd yn ddiogel trwy ymateb mwy effeithiol

Mae'r gost ychwanegol o uwchraddio i Opsiwn 4 (Gwneud y Mwyaf Posibl) yn gofyn am atal 11 o farwolaethau pellach, neu 0.36 y flwyddyn. Caiff Opsiwn 3 ei ffafrio ar y sail ei fod yn bodloni'r holl ofynion craidd i fodloni amcanion diogelwch craidd, tra'n cynnal fforddiadwyedd.

Sylwch fod y dadansoddiad hwn uchod yn ddarluniadol: mae'n tybio mai unig fudd buddsoddi mewn hyfforddiant yw llai o farwolaethau. Yn ymarferol, rhagwelir y byddai'r rhan fwyaf o'r buddion yn ymwneud â gostyngiadau mewn anafiadau nad ydynt yn angheuol, ochr yn ochr â gostwng costau economaidd a chymdeithasol eraill (e.e. difrod i eiddo). Pe bai'r buddion ehangach hyn yn cael eu meintoli, byddai nifer y marwolaethau i adennill costau yn lleihau'n sylweddol.

7.10 Asesiad Risg

7.10.1 Tuedd Optimistiaeth (OB)

Caiff tuedd optimistiaeth (OB) ei chynnwys yn y senarios cost uchod i gyfrif am y duedd systematig i danamcangyfrif costau a goramcangyfrif buddion mewn arfarniadau prosiectau.

Mae angen addasiadau felly i fodloni safonau'r Trysorlys ar gyfer arfarniad economaidd, sy'n cydymffurfio, o werth am arian. Sylwn fod y costau ariannol eisoes wedi cyfrif am gostau hapddigwyddiadau, cyn i'r addasiadau hyn gael eu gwneud. Mae'r costau sy'n cynnwys OB felly'n geidwadol ac nid ydym, yn ymarferol, yn disgwyl i gostau fod mor uchel.

Bydd y Gwasanaeth yn mireinio ei amcangyfrifon cost yn y cam Achos Busnes Terfynol. Gallai hyn leihau'r lefel briodol o duedd optimistiaeth, o ystyried y mwy o sicrwydd cost yn yr amcangyfrifon terfynol hyn.

7.10.2 Risgiau Allweddol y Rhaglen

Y tu hwnt i duedd optimistiaeth, gallai risgiau rhaglen effeithio ar gostau, buddion neu gyflawni. Mae risgiau economaidd allweddol yn cynnwys:

- **Chwyddiant costau:** Gall chwyddiant ar gyfer rhai eitemau fod yn fwy na'r rhagdybiaeth chwyddiant cost hirdymor o 3%. Lliniaru: Ymgysylltu cynnar â'r farchnad, lwfans wrth gefn, peirianeg gwerth, a chontractau cost targed
- **Materion penodol i safle:** Efallai y bydd angen adfer ychwanegol ar amodau daear neu gyfleustodau. Lliniaru: Arolygon cynhwysfawr; lwfansau wrth gefn.

- **Oedi wrth gynllunio:** Gallai oedi mewn cymeradwyaeth estyn amserlenni. Lliniaru: Ymgysylltu'n gynnar â Chyngor Sir Ddinbych.
- **Pontio gweithredol:** Gall cydgrynhoi pum safle greu aflonyddwch dros dro. Lliniaru: Pontio fesul cam; rhedeg cyfocrog.
- **Arbedion refeniw heb eu gwireddu'n llawn:** Efallai na fydd y £304k o arbedion a amcangyfrifir yn cael eu gwireddu'n llawn. Lliniaru: Olrhain gwireddu buddion; strategaeth gwaredu safle cynnar.

Adlewyrchir y risgiau hyn yn nghofrestr risg y prosiect a byddant yn cael eu rheoli'n weithredol trwy drefniadau llywodraethu yn yr Achos Rheoli.

7.10.3 Dadansoddiad Sensitifrwydd

Er mwyn deall sensitifrwydd i ansicrwydd costau, ystyrir amrywiad yn PV cost y Sector Cyhoeddus ar draws pob opsiwn gan dybio:

- **Senario is:** Dim tuedd optimistiaeth (OB). Costau a ragwelir yn gwireddu.
- **Amcangyfrif canolog:** Fel uchod, 16% o OB ar gyfalaf a 15% ar gostau refeniw.
- **Senario uwch:** Mae 20% ychwanegol yn cyfrif am gynnydd costau mwy eithafol, megis cyfnod parhaus o chwyddiant costau uchel yn y DU.

PV Cost y Sector Cyhoeddus (£ miliynau)	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4
Isel: Heb Duedd Optimistiaeth	£19.88	£45.39	£60.72	£69.87
Canol: Gyda Thuedd Optimistiaeth	£23.02	£52.52	£70.26	£80.85
Uchel: Ynghyd â + 20% Cost	£27.63	£63.03	£84.31	£97.02

Tabl 16 : Cymhariaeth o Gostau

Yr sylw allweddol o'r dadansoddiad risg hwn yw bod gorgyffwrdd yn yr ystod gostau ar gyfer Opsiwnau 1, 2 a 3 yn annhebygol.

Mae gorgyffwrdd mwy sylweddol rhwng yr opsiwn a ffafrir a 'Gwneud y Mwyaf Posibl' (Opsiwn 4). Fodd bynnag, mae'r prif sbardunau cost ar gyfer Opsiwn 3 a 4 yn debyg. Felly, mae Opsiwn 3 yn parhau i fod yn opsiwn cost is nag Opsiwn 4, yn y rhan fwyaf o senarios credadwy.

7.11 Opsiwn a Ffafir

7.11.1 Meini Prawf Dethol

Mae'r opsiwn gorau posibl yn cydbwyso cyfiawnhad economaidd, effaith weithredol, sut mae'n cyd-fynd â'r strategaeth, a'r gallu i gyflawni'n ymarferol - nid lleihau costau neu sicrhau'r budd damcaniaethol mwyaf posibl yn unig. Caiff y broses ddethol ei llywio gan bedair prif ystyriaeth:

1. **Dadansoddiad adennill costau:** A yw'r gostyngiad y gellir ei foneteiddio yn y risg marwolaeth yn cynrychioli trothwy credadwy, hyd yn oed cyn i ni ystyried buddion eraill?
2. **Buddion gweithredol mesuradwy:** Pa enillion effeithlonrwydd ac arbedion cost mesuradwy y mae pob opsiwn yn eu cyflawni, y tu hwnt i'r achos diogelwch sylfaenol?
3. **Buddion strategol ansoddol:** Pa mor effeithiol y mae pob opsiwn yn cyflawni amcanion strategol y Gwasanaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru?
4. **Fforddiadwyedd a'r gallu i gyflawni:** A ellir ariannu'r opsiwn o fewn yr adnoddau a ragwelir a'i gyflawni o fewn yr amserlen angenrheidiol?

7.11.2 Asesiad o Werth am Arian

7.11.2.1 Opsiwn 1: Gwneud Dim

Mae'r opsiwn hwn yn parhau'r cyfyngiadau a geir yn yr ystâd hyfforddi wasgaredig bresennol. Er bod ganddo'r gost ymlaen llaw isaf, nid yw'n darparu unrhyw welliannau gallu, ac mae'n gadael y Gwasanaeth yn agored i gostau cynnal a chadw cynyddol ac aneffeithlonrwydd gweithredol. Mae'r opsiwn yn anghyson â'r amcanion gwariant a sefydlwyd yn yr Achos Strategol.

Argymhelliad: Ni argymhellir.

7.11.2.2 Opsiwn 2: Gwneud y Lleiaf Posibl

Mae opsiwn Gwneud y Lleiaf Posibl yn cyflawni ychydig iawn o fudd strategol. Mae'r cyfleusterau'n parhau i fod yn dameidiog. Mae aneffeithlonrwydd teithio, ynni, amgylcheddol a gweithlu yn parhau. Byddai'r Gwasanaeth yn gweithredu gyda seilwaith cynyddol hen nad yw wedi'i ddiogelu at y dyfodol. Mae Opsiwn 2 felly'n cynrychioli gwerth gwael: mae'n ymrwymo adnoddau sylweddol ychwanegol i 'hanner mesur' sy'n methu â datrys y problemau sylfaenol sy'n sbarduno'r buddsoddiad hwn.

Argymhelliad: Ni argymhellir.

7.11.2.3 Opsiwn 3: Opsiwn a Ffafir – Canolfan Hyfforddi Newydd gyda Phencadlys, Storfeydd, a Llety dros nos i'r rhai sy'n gwneud y cyrsiau

Mae Opsiwn 3 yn cydgrynhoi'r holl ddarpariaeth hyfforddi mewn un cyfleuster pwrpasol yn Llanelwy. Mae hyn yn cynrychioli'r cydbwysedd gorau posibl ar draws y pedwar maen prawf dethol:

1. **Diogelwch y cyhoedd:** Mae'r buddsoddiad yn gofyn am atal 1.70 o farwolaethau ychwanegol y flwyddyn. Pe bai anafiadau nad ydynt yn angheuol a buddion ehangach yn cael eu cynnwys, byddai'r trothwy yn gostwng i lefel hynod gyraeddadwy.
2. **Arbedion cost:** Mae cydgrynhoi yn cynhyrchu £304,000 o arbedion gweithredol blynyddol (£5.54 miliwn gwerth presennol) trwy leihau teithio, dileu llogi trydydd parti, costau cyfleustodau is, ac osgoi TOIL/goramser. Mae'r rhain yn darparu gwerth perthnasol y tu hwnt i achos diogelwch y cyhoedd.
3. **Buddion ansoddol:** Mae'r cyfleuster yn darparu cyfleusterau cynhwysol modern sy'n cefnogi recriwtio'r gweithlu, safonau amgylcheddol di-garbon a BREEAM Ardderchog, yn datrys risg hyfforddi tân byw yn y parc cenedlaethol, a hyblygrwydd strategol ar gyfer gofynion yn y dyfodol - a'r cyfan yn cydreddeg â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
4. **Fforddiadwy a chyraeddadwy:** Mae'r gost gyfalaf o £49.95 miliwn (enwol) yn fwy fforddiadwy na'r opsiwn 'Gwneud y Mwyaf Posibl' isod. Mae'r prosiect yn cefnogi cyflwyno OBC erbyn mis Rhagfyr 2025 a defnydd gweithredol o 2030/31, gan ddefnyddio methodoleg adeiladu sicr sy'n lliniaru'r risg cyflenwi.

Argymhelliad: Opsiwn a ffafir. Argymhellir i'w gymeradwyo yn y cam OBC.

7.11.2.4 Opsiwn 4: Gwneud y Mwyaf Posibl - Canolfan Hyfforddi Uwch Newydd gyda Phencadlys, Storfeydd, a llety dros nos i'r rhai sy'n gwneud y cyrsiau Mae Opsiwn 4 yn costio £11.95 miliwn yn ychwanegol (cyfanswm y gwerth presennol). Fodd bynnag, mae amcanion strategol craidd yn cael eu cyflawni'n llawn gan Opsiwn 3. Mewn arfarniad cyfalaf sector cyhoeddus, mae'n ddoeth sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer ateb craidd cadarn, yn hytrach na mynd ar drywydd manylebau manylach a allai fod yn fwy na'r amcanion hyn.

Argymhelliad: Ni argymhellir yn y cam OBC.

7.12 Casgliad

Mae Opsiwn 3 yn cynrychioli gwerth cryf am arian ar seiliau lluosog, sy'n atgyfnerthu ei gilydd. Nodwyd ymchwil y Swyddfa Gartref gennym, a oedd yn amlygu costau economaidd a chymdeithasol sylweddol fesul tân, a marwolaethau cysylltiedig fesul tân. Mae ein dadansoddiad 'adennill costau' ceidwadol yn canolbwyntio ar farwolaethau yn unig; bydd buddion gwirioneddol yn cynnwys gostyngiadau sylweddol mewn anafiadau nad ydynt yn angheuol, costau eiddo a chostau difrod eraill. Y tu hwnt i'r achos diogelwch, disgwylir i'r cyfleuster newydd ddarparu dros £300,000 o arbedion gweithredol blynyddol, buddion strategol cynhwysfawr, cynhwysiant i'r gweithlu ac arweinyddiaeth amgylcheddol.

Dengys yr Achosion Masnachol, Ariannol a Rheoli ymhellach y gellir ei gaffael yn effeithlon, ei ariannu'n gynaliadwy a'i gyflawni'n llwyddiannus.

8 Yr Achos Masnachol

8.1 Cyflwyniad

Mae'r Achos Masnachol yn amlinellu sut y gellir darparu'r opsiwn a ffafir ar gyfer darparu canolfan hyfforddi newydd ym Mharc Busnes Llanelwy yn fasnachol. Eglura'r strategaeth gaffael, ymgysylltu â'r farchnad, y trefniadau contractio a thalu ac ystyriaethau cynaliadwyedd. Pwrpas yr adran hon yw dangos bod y prosiect yn fasnachol hyfyw, yn ddeniadol i'r farchnad ac yn cydymffurfio â rheoliadau caffael cyhoeddus.

8.2 Strategaeth gaffael

Bydd y caffael yn cael ei reoli gan dîm caffael mewnol profiadol y Gwasanaeth.

8.2.1 Llwybr i'r farchnad

Mae'r Gwasanaeth wedi ystyried ystod o opsiynau caffael ar gyfer sicrhau'r gwasanaethau dylunio ac adeiladu sy'n ofynnol i ddarparu'r ganolfan hyfforddi newydd. Roedd yr opsiynau hyn yn cynnwys:

- Gweithdrefn gaffael gyfyngedig neu agored;
- Defnyddio fframwaith sector cyhoeddus wedi'i gaffael ymlaen llaw;
- Caffael dylunio ac adeiladu un cam;
- Caffael dylunio ac adeiladu dau gam.

Yn dilyn adolygiad mewnol ac ymgysylltu â'r farchnad, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu dilyn llwybr dylunio ac adeiladu dau gam, gan ddefnyddio fframwaith sector cyhoeddus cydnabyddedig. Disgwylir i'r dull hwn ddarparu'r cydbwysedd gorau o gyflymder, rheoli risg, dengarwch i'r farchnad a gwerth am arian. Mae hefyd yn caniatáu cynnwys contractwyr yn gynnar, sy'n bwysig yng ngoleuni natur arbenigol y ganolfan hyfforddi a'r angen i gyflawni canlyniadau gweithredol penodol.

Bwriada'r Gwasanaeth ddefnyddio [Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru](#) ar gyfer caffael contractwyr. Mae'r fframwaith hwn wedi'i deilwra ar gyfer sector cyhoeddus Cymru ac mae'n ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan gefnogi cadwyni cyflenwi lleol a darparu gwerth cymdeithasol mesuradwy. Mae'n cynnwys adroddiadau Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar ganlyniadau fel cyflogaeth, prentisiaethau a budd cymunedol.

Ar gyfer gwasanaethau dylunio, mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda [SCAPE](#). Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu cyfranogiad blaenorol SCAPE mewn gwaith dichonoldeb ar y ganolfan hyfforddi a'u profiad helaeth yng Nghymru, gan gynnwys prosiectau fel Canolfan Hamdden y Rhyl a nifer o gyfleusterau sector ieuchyd. Mae partneriaid dylunio SCAPE hefyd yn dod ag arbenigedd dwfn yn y sector tân, ar ôl darparu canolfannau hyfforddi ar gyfer y gwasanaethau yn Cleveland, Swydd Gaer, Manceinion Fwyaf a Swydd Gaerhifryn.

Darperir cyngor cyfreithiol ar gyfer y prosiect gan VWV, wedi'i gaffael drwy [Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron](#) (CCS). Mae VWV yn gyflenwr dibynadwy sydd eisoes yn darparu gwasanaethau cynghori cyfraith cyflogaeth ac adnoddau dynol i'r Gwasanaeth. Cynigiant hefyd brofiad uniongyrchol o adolygu contractau gyda Gleeds a SCAPE, gan olygu eu bod mewn sefyllfa dda i gefnogi dimensiynau cyfreithiol a masnachol y cynllun hwn.

Pe bai Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer caffael y prif gontractwr, bydd y broses yn cynnwys gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan holl aelodau'r fframwaith. Bydd contractwyr sy'n cadarnhau gallu a chapasiti yn cael eu gwahodd i dendro gan ddefnyddio'r templedi safonedig a'r broses werthuso a sefydlwyd o dan y fframwaith.

Bydd defnyddio Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru hefyd yn sicrhau gwerth am arian drwy broses gystadlu bellach. Er bod yr holl gontractwyr sy'n cymryd rhan eisoes wedi bodloni gofynion y fframwaith ynghylch sefyllfa ariannol, gallu technegol a phrofiad ar raddfa prosiect, mae'r mecanwaith cystadlu pellach yn ailagor y fframwaith i gyflwyniadau prisio ac ansawdd cystadleuol. Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfraddau gwaelodlin y cytunwyd arnynt ymlaen llaw ond mae'n caniatáu i gontractwyr gyflwyno cynigion prisio a chyflenwi pwrpasol mewn ymateb i'r briff prosiect penodol. Mae'r dull hwn yn sicrhau tensiwn teg yn y farchnad, tryloywder a dewis y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd yn seiliedig ar bris ac ansawdd - gan gynnwys pwysoliad cryf ar gyfer canlyniadau gwerth cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd penodiadau'n cael eu gwneud ar sail y sgôr gyffredinol uchaf, sy'n cynnwys pris ac ansawdd, gyda phwyslais cryf ar werth cymdeithasol i Gymru yn unol ag egwyddorion y fframwaith a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio fframwaith SCAPE ar gyfer penodi ei dîm dylunio, ar ôl cyflogi'r partneriaid dylunio presennol eisoes drwy'r llwybr hwn i gefnogi gwaith dichonoldeb. Mae SCAPE yn galluogi dyfarniad uniongyrchol i ddarparwyr sydd wedi cymhwyso ymlaen llaw, gan ganiatáu gweithredu cyflym, parhad gwybodaeth fîm, a hyder wrth reoli costau ac ansawdd. Gyda hanes cryf o gyflawni ledled Cymru a'r DU, mae'r fframwaith yn cynnig llywodraethu cadarn, ffioedd wedi'u capio, a rhwymedigaethau gwerth cymdeithasol wedi'u hymgorffori. Cydymffurfia'n llawn â rheoliadau caffael y DU ac mae'n cefnogi amcanion y Gwasanaeth ynghylch effeithlonrwydd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Wrth ddewis Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru, SCAPE a fframwaith CCS ar gyfer cymorth cyfreithiol, mae'r Gwasanaeth wedi ystyried cydymffurfiaeth ac addasrwydd, ond hefyd y risgiau, y costau a'r buddion sy'n benodol i gaffael sy'n gysylltiedig â'r dull hwn.

Dengys y crynodeb canlynol fod y llwybr a ddewiswyd yn gadarn, yn fforddiadwy ac yn gallu darparu gwerth cymdeithasol a chymunedol ychwanegol y tu hwnt i'r prosiect adeiladu craidd.

Agwedd	Amlinelliad	Nodiadau
Risgiau	- Diddordeb cyfyngedig yn y farchnad er gwaethaf penodi fframwaith. - Pwysau chwyddiant yn y sector adeiladu. - Oedi posibl wrth sefydlu contractau yn ôl y gofyn neu gymeradwyaethau fframwaith. - Risg her gyfreithiol os na ddefnyddir y fframwaith mewn modd sy'n cydymffurfio'n llawn.	Bydd y rhain yn cael eu rheoli trwy ymgysylltu cynnar â'r farchnad, rheoli contractau clir a chymorth cyfreithiol arbenigol trwy VWV.

	Gor-ddibyniaeth ar un partner dylunio.	
Costau	- Amser adnoddau caffael mewnol. - Ffioedd cyfreithiol ar gyfer drafftio ac adolygu contractau. - Ffioedd rheoli fframwaith (lle bo'n berthnasol).	Mae'r costau hyn yn gymharol fach o'u cymharu â gwariant cyffredinol y prosiect ond dylid eu cydnabod fel rhan o orbenion y prosiect.
Buddion	- Mae fframweithiau'n fetio cyflenwyr ymlaen llaw, gan leihau risg caffael. - Cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gwerth cymdeithasol, cadwyni cyflenwi lleol). - Llwybr cyflymach i'r farchnad o'i gymharu â gweithdrefn lawn Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd / Dod o Hyd i Dendr. - Adroddiadau DPA wedi'u cynnwys ar gyflogaeth, prentisiaethau a budd cymunedol. - Mynediad at gyflenwyr sydd ag arbenigedd uniongyrchol mewn canolfannau hyfforddi tân.	Mae'r buddion hyn yn cydreddeg yn uniongyrchol ag amcanion strategol y Gwasanaeth o gydymffurfio, cynaliadwyedd a gwerth am arian.

Tabl 17 : Crynodeb o Ddull Llwybr i'r Farchnad

8.2.2 Dull Contractio

Y dull contractio a ffafrir yw proses ddylunio ac adeiladu dau gam.

- Cam 1 (Cytundeb Gwasanaethau Cyn-Adeiladu – PCSA):** Bydd prif gontractwr yn cael ei benodi o dan PCSA drwy Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru. Mae hyn yn caniatáu i'r contractwr gefnogi datblygiad y dyluniad, mireinio manylion y prosiect, a chynorthwyo gyda chynllunio risgiau a chostau yn ystod y dyddiau cynnar. Bydd cynnwys contractwyr yn gynnar yn gwella sicrwydd costau, y gallu i adeiladu a rheoli rhaglenni.
- Cam 2 (Contract Dylunio ac Adeiladu):** Yn amodol ar gytundeb boddhaol o gyflwyniadau tendr Cam 2, bydd y Gwasanaeth yn ymrwmo i gontract dylunio ac adeiladu llawn gyda'r contractwr penodedig. Y math o gontract a ffafrir yw Contract Dylunio ac Adeiladu JCT (Argraffiad 2024), sy'n darparu fframwaith sefydledig ar gyfer prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr gyda darpariaethau clir ar gyfer rheoli amser, costau ac ansawdd. Defnyddir y math hwn yn helaeth ar draws y sector cyhoeddus ac mae'n cyd-fynd â'r llwybr caffael sy'n cael ei ddilyn.

Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth hefyd yn ystyried Contract Peirianeg ac Adeiladu NEC4 (Opsiwn A neu B) fel dewis arall, yn enwedig os yw ymgysylltu cynnar â chontractwyr neu drefniadau rhannu risg yn awgrymu mwy o fudd. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud yn dilyn adolygiad cyfreithiol a masnachol yn ystod y cyfnod cyn adeiladu. Mae'r dull contractio hwn yn sicrhau un pwynt cyfrifoldeb ar gyfer dylunio ac adeiladu, gan sicrhau bod y camau cyn-adeiladu a chyflawni yn cydreddeg a lleihau risg newidiadau costus yn ystod y gwaith adeiladu.
- Gwasanaethau Dylunio:** Bydd partneriaid dylunio SCAPE yn parhau i gael eu defnyddio o dan eu trefniadau fframwaith. Mae eu cyfranogiad blaenorol mewn gwaith dichonoldeb yn sicrhau parhad, tra bod eu hanes o ddarparu cyfleusterau hyfforddi'r gwasanaeth tân mewn rhannau eraill o'r DU yn dod ag arbenigedd sector-benodol ac yn lleihau risg eu defnyddio.
- Goruchwyliaeth Gyfreithiol:** Bydd VWV, a benodir drwy Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron, yn darparu gwasanaethau adolygu a chynghori cyfreithiol annibynnol

trwy gydol y ddau gam. Bydd eu rôl yn cynnwys drafftio contractau, adolygu dyrannu risg, a sicrhau bod trefniadau cytundebol yn cydymffurfio â gofynion statudol a fframwaith.

Rheolir y contract gan dîm prosiect y Gwasanaeth, gyda chymorth proffesiynol gan gynghorydd technegol ac ymgynghorydd costau a gedwir. Mae'r dull hwn yn cyfuno manteision cynnwys contractwyr yn gynnar, parhad arbenigedd dylunio a sicrwydd cyfreithiol cryf - gan sicrhau'r gorau posibl o ran sicrwydd costau, rheoli rhaglenni a rheoli risg.

8.2.3 Amserlenni caffael

Mae'r amserlen gaffael ddangosol fel a ganlyn:

Carreg Filltir	Dyddiad Targed
Cyhoeddi Tindr Cam 1 (drwy fframwaith)	Ebr-2026
Dychwelyd Tendrau Cam 1	Mai-2026
Gwerthuso a Phenodi Contractwr (Cam 1)	Mehefin-2026
Cam 1 Datblygu Dyluniad / PCSA	Ionawr-2027
Cyhoeddi Tindr Cam 2	Ionawr-2027
Dychwelyd Tendrau Cam 2	Mawrth-2027
Gwerthusiad Terfynol a Dyfarnu Contract	Mehefin-2027
Gwaith yn Dechrau ar y Safle	Awst-2027
Gwaith wedi'i Gwblhau	Mai-2029

Tabl 18: Amserlen Gaffael

Mae'r amserlenni hyn yn destun cymeradwyaethau llywodraethu a phrosesau fframwaith mewnol ond maent wedi'u profi ar gyfer dichonoldeb gyda chyflenwyr posibl.

8.2.4 Ymgysylltu â'r farchnad

Mae'r Gwasanaeth wedi ymgymryd ag ymgysylltiad cychwynnol anffurfiol â'r farchnad gyda darparwyr fframwaith a budd-ddeiliaid y diwydiant adeiladu. Mae hyn wedi cadarnhau bod y cyfle yn cael ei ystyried yn ddeniadol i'r farchnad, yn enwedig oherwydd y canlynol:

- Eglurder y briff gweithredol
- Y potensial i ddatblygu canolfan hyfforddi tân arddangos
- Defnyddio fframwaith sector cyhoeddus sy'n dileu risgiau'r llwybr caffael.

Dyddiad	Cyflenwr / Sefydliad	Dull Ymgysylltu	Adborth Allweddol	Effaith ar y Strategaeth Gaffael
13/01/25	Galiford Try (Contractwr Adeiladu)	Cyfarfod 1:1	Awydd cryf i ymgymryd â phrosiect canolfan hyfforddi yng Ngogledd Cymru. Wedi cynghori caffael dau gam, yn barod i fuddsoddi mewn gwaith PCSA a thîm profiadol sydd wedi cyflawni prosiectau gwasanaeth tân o'r blaen. Hapus gyda'r fîm cleient disgwylidig.	Wedi cefnogi'r cynnig i ddefnyddio Dylunio ac Adeiladu dau gam fel model caffael. Wedi rhoi rhywfaint o eglurder ar y fframwaith a ddewiswyd.
16/06/25	Morgan Sindall (Contractwr Adeiladu)	Cyfarfod 1:1	Awydd cryf i ymgymryd â phrosiect canolfan hyfforddi yng Ngogledd Cymru. Wedi cynghori caffael dau gam, yn barod i fuddsoddi mewn gwaith PCSA. Wedi rhoi eglurder pellach ar fframweithiau posibl, barn y farchnad ar gynigion cychwynnol. Hapus gyda'r fîm cleient disgwylidig.	Wedi cadarnhau dewis Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru.
19/11/25	Morgan Sindall	Cyfarfod 1:1	Gofynnwyd amdano gan y Contractwr am ddiweddariad. Hefyd yn darparu briff i ganiatáu i'r Contractwr wirio costau'r prosiect ar gyfer GTAGC.	Sicrwydd pellach ar y gyllideb.

Tabl 19 : Crynodeb o Ymgysylltu â'r Farchnad

Mae'r broses gaffael ar gyfer y prosiect wedi dilyn dull graddol a strategol, sy'n cyfateb i gerrig milltir datblygu'r prosiect. Comisiynwyd astudiaethau dichonoldeb cyfnod cynnar i gefnogi penderfyniadau nodi a chaffael tir. Yna penodwyd Rheolwr Prosiect, ac yna fîm dylunio trwy fframwaith SCAPE, i gefnogi diwydrwydd dyladwy technegol, datblygu cysyniadau, ac ymgysylltu cynllunio cyn ymgeisio.

Y gweithgaredd caffael mawr nesaf fydd penodi prif contractwr i gyflawni'r adeiladu, y disgwylir iddo fod drwy Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru. Bydd hyn yn caniatáu cyfranogiad cynnar contractwyr trwy lwybr dylunio ac adeiladu dau gam, gan gefnogi rheoli costau a chyflawni prosiect.

8.3 Dyrannu a throsglwyddo risg

Bydd dyraniad clir o risgiau rhwng y Gwasanaeth a'i bartneriaid cyflenwi yn cael ei sefydlu drwy'r contract Cam 2. Yr egwyddor gyffredinol yw y bydd risgiau'n cael eu dyrannu i'r parti sydd yn y sefyllfa orau i'w rheoli a'u lliniaru, gan sicrhau gwerth am arian a lleihau tebygolrwydd anghydfodau.

- **Risgiau Amser:** Bydd y contractwr yn gyfrifol am risgiau cyflawni rhaglen o fewn ei reolaeth, gan gynnwys perfformiad isgcontractwyr a dilyniannu adeiladu. Bydd y Gwasanaeth yn cadw cyfrifoldeb am gymeradwyaethau allanol, megis cydsyniadau cynllunio neu statudol ac am newidiadau i'r cwmpas.
- **Risgiau Cost:** Bydd y contractwr yn cario risg costau'n gor-redeg sy'n deillio o ddatblygu dylunio, cyflawni adeiladu a pherfformiad y gadwyn gyflenwi. Bydd y Gwasanaeth yn cadw cyfrifoldeb am newidiadau sy'n cael eu gyrru gan gleientiaid ac am risgiau a nodir fel rhai "a gedwir gan gleientiaid" yn y gofrestr risg (e.e. newidiadau statudol annisgwyl).
- **Risgiau Ansawdd:** Bydd y contractwr yn gyfrifol am grefftwaith a deunyddiau a chydymffurfio â manylebau y cytunwyd arnynt. Bydd y Gwasanaeth yn goruchwyllo sicrhau ansawdd trwy ei gynghorydd technegol a chlerc gwaith a gedwir, gyda chymorth VWV ar gyfer gorfodi contractau.
- **Risgiau Cyflwr y Ddaear:** Bydd ymchwiliadau safle yn cael eu cynnal yn ystod y cam PCSA i nodi risgiau posibl cyflwr y ddaear. I'r graddau y mae cyflwr annisgwyl yn parhau, bydd trefniant rhannu risg priodol yn cael ei ymgorffori yn y contract Cam 2 i gydbwyso sicrwydd pris a dyraniad teg o risgiau annisgwyl.
- **Risgiau Dylunio:** O dan y dull dylunio ac adeiladu dau gam, bydd cyfrifoldeb dylunio yn trosglwyddo i'r contractwr yng Ngham 2, yn amodol ar ofynion y cyflogwr ac unrhyw elfennau dylunio arbenigol a gedwir.

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu arferion gorau'r sector cyhoeddus ac mae'n gyson â Chontract Dylunio ac Adeiladu JCT (Argraffiad 2024) ac opsiynau ECC NEC4 sy'n cael eu hystyried. Bydd yr amserlen dyrannu risg derfynol yn cael ei chadarnhau yn ystod y cyfnod cyn adeiladu a'i hymgorffori yn y contract Cam 2.

8.3.1 Strategaeth Dyrannu Risg

Mae dyrannu risg effeithiol yn hanfodol i gyflawni gwerth am arian a sicrhau cyflawni'r prosiect yn llwyddiannus. Yn unol â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF ac arferion caffael safonol y sector cyhoeddus, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu dyrannu pob categori o risg i'r parti sy'n gallu ei liniaru neu ei reoli orau. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod risgiau'n cael eu prasio'n briodol, eu rheoli'n rhagweithiol ac yn cydreddeg â chyfrifoldebau cytundebol.

Yn y cam hwn, mae dyrannu llawer o risgiau yn dal i fod yn destun ymgysylltu pellach â'r farchnad, trafodaethau masnachol a chynghor cyfreithiol. Fodd bynnag, mae'r tabl isod yn nodi'r matrices dyrannu risg rhagarweiniol yn seiliedig ar y dull caffael a'r strwythur prosiect a ffafir ar hyn o bryd. Bydd y matrices hwn yn cael ei fireinio yn ystod camau nesaf datblygu'r prosiect a'i ymgorffori yn nogfennaeth y contract terfynol.

Categori Risg	Disgrifiad	Perchennog Tebygol	Rhesymeg / Sylwadau
Cynllunio a Chydsyniadau	Oedi neu amodau a osodir trwy broses cymeradwyo cynllunio	GTAGC	Y tu hwnt i reolaeth y contractwr; lliniaru trwy ymgysylltu'n gynnar â'r awdurdod cynllunio.
Risg Dylunio	Gwallau, hepgoriadau neu fethu â bodloni'r fanyleb	Contractwr	Bydd y contractwr yn gyfrifol am ddatblygu dyluniad o dan y dull dylunio ac adeiladu.
Cyflwr y Ddaear	Cyflwr y ddaear yn annisgwyl neu halogiad	Wedi'i rannu / i'w gadarnhau	Mae ymchwiliadau safle cyn dyfarnu contract yn anelu at leihau'r risg hon; risg weddilliol i'w chytuno mewn contract.
Rhaglen Adeiladu	Oedi wrth gyflawni gwaith adeiladu	Contractwr	Y contractor sydd yn y sefyllfa orau i reoli'r rhaglen pan fydd y safle ar gael a dyluniad yn cael ei gytuno.
Costau Adeiladu'n Gor-redeg	Costau'n fwy na phris y contract y cytunwyd arno	Contractwr	Disgwylir i gontract dylunio ac adeiladu pris sefydlog drosglwyddo'r risg hon.
Chwyddiant / Anwadlwydd y Farchnad	Chwyddiant uwch na'r rhagolwg sy'n effeithio ar gostau deunyddiau neu lafur	Wedi'i rannu / i'w gadarnhau	Sefyllfa derfynol yn amodol ar ganlyniad caffael a thelerau contract.
Cyfleustodau / Dibyniaethau Trydydd Parti	Oedi wrth gysylltu cyfleustodau neu gael cymeradwyaethau statudol	GTAGC	Y tu hwnt i reolaeth y contractwr; yn gofyn am gydlynw cynnar â thrydydd partïon.
Cydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch	Methu â bodloni gofynion cyfreithiol yn ystod y gwaith adeiladu	Contractwr	Mae gan y contractwr ddyletswydd gyfreithiol i reoli diogelwch safle.
Perfformiad Amgylcheddol / Cynaliadwyedd	Methu â chyflawni cynaliadwyedd neu safonau amgylcheddol gofynnol	Contractwr	Wedi'i reoli trwy fanyleb dylunio a gofynion contract.
Force Majeure	Gwaith Duw, rhyfel, pandemig ac ati	Wedi'i rannu	Wedi'i reoli trwy gymalau contract safonol ac yswiriant.
Perfformiad Gweithredol	Canolfan yn methu â diwallu anghenion gweithredol GTAGC	GTAGC	Yn gysylltiedig â diffinio gofynion a phrofi derbyniad.
Comisiynu a Throsglwyddo	Methu â darparu canolfan gwbl weithredol wrth drosglwyddo	Contractwr	Contractwr sy'n gyfrifol am gomisiynu a phrofi cyn trosglwyddo.

Cynnal a Chadw a Pherfformiad Cylch Bywyd	Diffygion neu berfformiad gwael yn ystod cyfnod atebolrwydd diffygion	Contractwr	Contractwr sy'n gyfrifol o dan gyfnod gwarant / diffygion.
Risg Galw neu Ddefnydd Ôl-Adeiladu	Canolfan wedi'i thanddefnyddio oherwydd newidiadau mewn gofynion gweithredol	GTAGC	Y tu hwnt i ddylanwad y contractwr.

Tabl 20 : Matrics Dyrannu Risg Rhagarweiniol

8.3.2 Risgiau masnachol allweddol

Nodwyd y risgiau masnachol canlynol yn y cam hwn o ddatblygiad y prosiect:

Risg	Camau Lliniaru Arfaethedig	Dyraniad a Ffafir
Ansicrwydd y farchnad neu ddiddordeb cynigydd annigonol	Ymgysylltu'n gynnar â darparwyr a chyflenwyr fframwaith	GTAGC
Cynnydd mewn costau neu gynllunio costau anghywir	Dull dylunio ac adeiladu dau gam gyda chynnwys contractwyr yn gynnar a pheirianeg gwerth	Contractwr
Trosiant staff aml yn effeithio ar barhad y prosiect	Dirprwy Reolwr Prosiect wedi'i neilltuo; cynllun olyniaeth mewnol ar waith	GTAGC
Oedi wrth wneud penderfyniadau yn effeithio ar amserlenni cyflenwi	Model llywodraethu wedi'i ddiweddarau gyda lefelau awdurdod pendant	GTAGC
Goruchwyliaeth ariannol annigonol neu ddiffyg eglurder masnachol	Strategaeth prosiect a gofynion adrodd cryfach	GTAGC
Oedi oherwydd perfformiad contractwr neu gydlynw gwael	DPA perfformiad, taliadau carreg filltir a monitro contractau rheolaidd	Contractwr

Tabl 21 : Dyrannu Risgiau Masnachol Allweddol

Mae cofrestr risg lawn (Atodiad 2 Cynllun y Safle



Parthau Hyfforddi

- P1 Hyfforddiant Cyffredinol
- P2 Priffyrdd
- P3 Trefol
- P4 Diwydiannol
- P5 Hyfforddi Ymddygiad Tân
- P6 Gwledig

Prif Adeiladau

- B1 Pencadlys a Hwb Gweinyddol

B2 Iechyd a Lles
B3 Llety Hyfforddwyr
B4 Hwb Hyfforddi
B5 Storfeydd Maes Tân
B6 Storfeydd Logisteg
B7 Garej Offer
B8 Storfa Pren

Senarios Hyfforddi

T1 Tŵr Hyfforddi
T2 Adeilad Uchel
T3 Eiddo Domestig
T4 Strwythur Diwydiannol
T5 Adeilad Hyfforddi BA
T6 Cynwysyddion Hyfforddi Ymddygiad Tân
T7 Adeilad Fferm

Atodiad 3 – Cofrestr Risg) yn cael ei chynnal gan y Grŵp Prosiect, sy'n berchen arni, a bydd yn parhau i gael ei diweddarw wrth i'r prosiect symud ymlaen i'r camau caffael a chyflawni.

8.3.3 Dull o drosglwyddo risg

Mae'r dull dylunio ac adeiladu dau gam a ffafrir yn galluogi trosglwyddo risg yn fwy effeithiol trwy sicrhau bod y contractwr yn cael ei gynnwys yn gynnar yng ngwaith datblygu'r dyluniad manwl, y cynllun costau a'r fethodoleg gyflawni. Mae'r dull hwn yn caniatáu i risgiau gael eu nodi a'u prisio cyn ymrwymo i'r contract adeiladu llawn.

Yn ogystal â dyrannu risgiau dylunio, cyflawni a pherfformiad trwy'r contract, bydd y Gwasanaeth yn diogelu ei sefyllfa ymhellach trwy drafod indemniadau priodol gyda chontractwyr, dan arweiniad cyngor cyfreithiol arbenigol. Bydd y caffael yn cynnwys defnyddio bondiau indemniad (fel bondiau perfformiad a gwarantau rhiant-gwmnïau) lle bo hynny'n briodol, i sicrhau diogelwch ariannol os bydd y contractwr yn diffyg dalu neu'n methu â bodloni rhwymedigaethau y cytunwyd arnynt.

Yr egwyddor yw trosglwyddo risgiau cyflenwi (amser, cost, ansawdd a pherfformiad) i'r contractwr lle maent yn cael eu rheoli orau, tra bod y Gwasanaeth yn cadw risgiau strategol, rheoleiddiol a gweithredol.

Bydd cymhellion ar gyfer perfformiad a chosbau am beidio â pherfformio yn cael eu cynnwys yn y telerau cytundebol i sicrhau bod buddiannau'r Gwasanaeth a'i bartner cyflenwi yn cydreded.

8.4 Trefniadau cytundebol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r strwythur cytundebol arfaethedig ar gyfer darparu'r ganolfan hyfforddi newydd, gan gynnwys y ffurflen contract arfaethedig, trefniadau talu, a'r dull o reoli contractau. Dyluniwyd y strwythur i sicrhau eglurder cyfrifoldeb, rheoli risg effeithiol a gwerth am arian.

8.4.1 Rheoli newid

Bydd proses rheoli newid ffurfiol yn cael ei sefydlu fel rhan o'r contract dylunio ac adeiladu. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig i'r fanyleb adeiladu, cwmpas, cynllun neu ofynion swyddogaethol yn cael eu hasesu o ran cost, effaith y prosiect, risg a goblygiadau gweithredol cyn eu cymeradwyo.

Bydd pob cais am newid yn cael ei adolygu gan y fîm rheoli prosiect ac, os yw'n briodol, y fîm dylunio a'r ymgynghorydd costau. Bydd argymhellion yn cael eu huwchgyfeirio at y Bwrdd Prosiect i'w penderfynu yn unol â'r trothwyon llywodraethu y cytunwyd arnynt.

Bydd y broses rheoli newid yn cynnwys:

- Templed safonedig ar gyfer ceisiadau am newid;
- Asesu effaith ariannol a gweithredol;
- Protocolau cadarnhau yn seiliedig ar raddfa a math y newid; a
- Chofnod o newidiadau cymeradwy i gynnal trywydd archwilio clir.

Bydd y broses hon yn helpu'r Gwasanaeth i reoli llithriad cwmpas, cadw rheolaeth ar y prosiect adeiladu a sicrhau bod unrhyw addasiadau yn cydreded o hyd ag amcanion strategol a chyfyngiadau cyllideb y prosiect.

8.4.2 Strwythur cytundebol arfaethedig

Y dull cytundebol a ffafir yw penodi un prif contractwr i gyflawni'r gwaith o dan contract dylunio ac adeiladu. Bydd hyn yn sicrhau un pwynt atebolrwydd ar gyfer y camau dylunio ac adeiladu ac yn lleihau risg bylchau cwmphas neu broblemau rhyngwyneb rhwng gwahanol gyflenwyr.

Fel yr amlinellwyd yn yr Adran 8.2.1, bydd y contractwr yn cael ei benodi trwy broses gaffael dau gam trwy fframwaith sector cyhoeddus cydnabyddedig. Disgwylir mai'r math o contract a ffafir fydd [Contract Dylunio ac Adeiladu JCT \(Argraffiad 2024\)](#), sy'n cynnig fframwaith sefydledig ar gyfer prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr ac yn darparu darpariaethau clir ar gyfer rheoli amser, cost ac ansawdd. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth hefyd yn ystyried [Contract Peirianeg ac Adeiladu NEC4](#) (Opsw'n A neu B) fel dewis arall, yn enwedig os yw ymgysylltu cynnar â chontractwyr neu drefniadau rhannu risg yn awgrymu mwy o fudd. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud yn dilyn adolygiad cyfreithiol a masnachol yn ystod y cyfnod cyn adeiladu.

Bydd perfformiad o dan y contract yn cael ei fonitro trwy DPA ffurfiol sy'n cyfateb i ofynion y fframwaith, gan gynnwys canlyniadau amser, cost, ansawdd, iechyd a diogelwch a gwerth cymdeithasol. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n fisol gan y Gwasanaeth, gyda chymorth IKG Consultants, ac yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Prosiect.

8.4.3 Mekanwaith talu

Bydd y mecanwaith talu'n cael ei strwythuro i ysgogi ansawdd, prydlondeb a rheoli costau. Mae'n debygol y bydd yn cynnwys:

- Taliadau sy'n seiliedig ar gerrig milltir sy'n gysylltiedig â chyflawni camau pendant (e.e. cwblhau gwaith galluogi, cwblhau strwythurol, gosod, comisiynu);
- Trefniadau cadw i sicrhau cwblhau boddhaol a chywiro diffygion; ac
- Darpariaethau ar gyfer cadw taliadau yn ôl mewn achos o oedi neu danberfformiad.

Yn ystod Cam 1, bydd Cytundeb Gwasanaethau Cyn-Adeiladu (PCSA) yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu gweithgareddau datblygu dylunio, cymorth cynllunio a chynllunio costau.

8.4.4 Dangos Gwerth am Arian trwy Drefniadau Masnachol

Cynlluniwyd y dull cytundebol i sicrhau gwerth am arian trwy ysgogi effeithlonrwydd, ansawdd a chyflenwi amserol gan y contractwr penodedig. Bydd mecanweithiau allweddol yn cynnwys:

- **Caffael dau gam:** Bydd cyfranogiad cynnar contractwyr o dan Gytundeb Gwasanaethau Cyn-Adeiladu (PCSA) yn galluogi mewnbwn dylunio, adolygiadau o'r gallu i adeiladu a rheoli risg, gan helpu i leihau cynnydd mewn costau a darparu atebion adeiladu mwy effeithlon.
- **Taliadau sy'n seiliedig ar gerrig milltir:** Bydd taliadau yn gysylltiedig â chyflawni'r cerrig milltir adeiladu y cytunwyd arnynt, gan sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ryddhau yn erbyn cynnydd amlwg yn unig.

- **Darpariaethau cadw:** Bydd cyfran o'r taliadau yn cael eu cadw nes eu cwblhau'n ymarferol a diwedd y cyfnod atebolrwydd am ddiffygion, gan ysgogi ansawdd a datrys unrhyw ddiffygion yn amserol.
- **Darpariaethau sy'n gysylltiedig â pherfformiad:** Bydd y prif gontract yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i'r Gwasanaeth atal taliad, cymhwyso iawndal penodedig neu orfodi hawliau camu i'r adwy os bydd tanberfformiad neu oedi sylweddol.
- **DPA cynaliadwyedd ac ansawdd:** Yn rhan o strategaeth Sero Net y Gwasanaeth, bydd y contract yn cynnwys DPA mesuradwy (e.e. credydau BREEAM, perfformiad ynni) gyda gofynion adrodd a mecanweithiau perfformiad posibl.
- **Sicrwydd fframwaith:** Trwy ddefnyddio fframweithiau sector cyhoeddus sefydledig (Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru, SCAPE), bydd y caffael yn elwa ar gyfraddau sydd wedi'u profi gan y farchnad, ymrwymadau gwerth cymdeithasol wedi'u hymgorffori a sicrwydd ychwanegol ar gydymffurfiaeth a gwerth am arian.

Bydd y trefniadau hyn, gyda chymorth yr Is-grŵp Caffael a chynghorwyr masnachol, yn sicrhau bod y contractwr yn cael ei gymell i gyflawni'r prosiect yn effeithlon, i'r ansawdd gofynnol, a hynny'n unol ag amcanion cynaliadwyedd a budd cymunedol ehangach y Gwasanaeth.

Mae'r dull masnachol hwn yn ategu'r strategaeth ariannu ac incwm a ddisgrifir yn Adran **Error! Reference source not found.**, sydd wedi'i strwythuro i wneud y mwyaf o werth cyhoeddus trwy ddefnydd darbodus o adnoddau a chyfleoedd incwm cydweithredol.

8.4.5 Hyd y contract a strategaeth ymadael

Disgwylir i'r prif gontract adeiladu redeg am oddeutu 21 mis o ddechrau'r safle, yn unol â chynllun y prosiect. Bydd darpariaethau clir yn cael eu cynnwys ar gyfer:

- Adolygiadau ac adroddiadau cynnydd rheolaidd;
- Mecanweithiau ar gyfer mynd i'r afael ag oedi neu danberfformiad;
- Hawliau camu i'r adwy os bydd toriad difrifol; a
- Phroses trosglwyddo strwythuredig ac atebolrwydd diffygion.

Bydd strategaeth ymadael yn cael ei diffinio i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cadw rheolaeth ar y safle, hawliau dylunio a dogfennaeth allweddol yn achos terfynu'n gynnar. Bydd hyn yn diogelu'r buddsoddiad cyhoeddus ac yn sicrhau parhad y prosiect os oes angen.

8.4.6 Datrys Anghydfodau

Os bydd anghydfod, mae'r fframwaith cytundebol yn darparu ar gyfer proses glir, fesul cam. Bydd materion o ddydd i ddydd yn cael eu rheoli gan IKG Consultants mewn cysylltiad â thîm prosiect y Gwasanaeth. Pan na ellir datrys anghydfodau ar y lefel hon, byddant yn cael eu huwchgyfeirio trwy'r mecanweithiau datrys anghydfodau sydd wedi'u hymgorffori yn y fframwaith a ddewiswyd, a all gynnwys dyfarnu, cyfryngu neu gyflafareddu fel y bo'n briodol. Mae'r dull fesul cam hwn yn gyson ag arfer gorau'r sector cyhoeddus a bydd yn lleihau tebygolrwydd anghydfodau hir.

8.4.7 Ymrwymiadau Cynaliadwyedd a Sero Net

Bydd amcanion Cynaliadwyedd a Sero Net yn cael eu hymgorffori fel gofynion cytundebol o fewn y prif contract adeiladu a chytundebau cadwyn gyflenwi. Bydd hyn yn sicrhau bod perfformiad amgylcheddol yn cael ei drin fel canlyniad prosiect craidd y gellir ei gyflawni ochr yn ochr ag amser, cost ac ansawdd.

Bydd y mesurau allweddol yn cynnwys:

- DPA contract ar effeithlonrwydd ynni, lleihau gwastraff, ailgylchu ac allyriadau carbon.
- Gofynion adrodd cadwyn gyflenwi, gyda data'n cael ei ddarparu'n fisol i dîm y prosiect.
- Defnyddio mecanweithiau talu a didyniadau perfformiad, lle bo hynny'n briodol, i ysgogi cydymffurfiaeth â thargedau cynaliadwyedd.
- Cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a pholisïau Sero Net perthnasol Llywodraeth Cymru.

Bydd y Grŵp Prosiect yn goruchwyllo cyflawni'r ymrwymiadau hyn, yn adolygu adroddiadau perfformiad ac yn uwchgyfeirio unrhyw bryderon at y Bwrdd Prosiect. Bydd manylebau cynaliadwyedd manwl a mecanweithiau gorfodi yn cael eu cwblhau yn y cam Achos Busnes Llawn yn unol â'r math o contract a ddewiswyd.

Mae'r Gwasanaeth wedi cofrestru'r prosiect yn ffurfiol o dan BREEAM Fersiwn 6 (Rhif Cofrestru: BREEAM-0136-2847). Bydd yn ofynnol i contractwyr a benodir drwy'r fframweithiau cyflawni weithio tuag at gyflawni sgôr ardystiedig 'Ardderchog' yn y Cyfnod Dylunio a'r Adolygiad Ôl-Adeiladu.

8.4.7.1 Cyrchu Cynhyrchion Adeiladu yn Gyfrifol

Bydd y Gwasanaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif contractwr a'r gadwyn gyflenwi ddangos cyrchu deunyddiau yn gyfrifol yn unol â safonau cydnabyddedig fel BES 6001 a PAS 2080. Bydd y gofynion hyn yn cael eu gorfodi'n gytundebol o fewn y ddogfennaeth gaffael a'u gwirio trwy adrodd, ardystio ac archwilio cyfnodol y gadwyn gyflenwi gan y contractwr.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod cynhyrchion adeiladu allweddol yn cael eu caffael yn gynaliadwy, gyda thrywydd archwilio clir, ac mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni credydau BREEAM wedi'u targedu yn ogystal â chydymffurfio â pholisi caffael cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

8.4.7.2 Cynhyrchu ac Allforio Ynni Adnewyddadwy

Mae'r dyluniad yn cynnwys integreiddio araeau ffotofoltäig (PV) i gefnogi amcanion Sero Net y Gwasanaeth. Prif bwrpas y systemau hyn yw cwtogi ar yr ynni a ddefnyddir gan yr adeilad ei hun, ond mae potensial ar gyfer cyfnodau o gynhyrchu trydan dros ben.

Bydd trefniadau masnachol ar gyfer rheoli unrhyw drydan a allforir - megis tariffau allforio grid neu Gytundebau Prynu Pŵer (PPA) - yn cael eu hystyried yn ystod y cam dylunio manwl, wedi'u llywio gan yr Ymgynghorydd Gwasanaethau Adeiladu penodedig a chyn-asesiad BREEAM. Yn y cam Achos Busnes Amlinellol hwn, nid oes unrhyw incwm allforio wedi'i dybio yn y modelu ariannol, ond cydnabyddir y cyfle fel budd posibl i'w ddatblygu ymhellach yn y cam Achos Busnes Llawn.

8.4.7.3 Cymhellion Seiliedig ar Berfformiad

Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu ymgorffori gofynion perfformiad cynaliadwyedd yn gytundebol o fewn y prif gontract adeiladu. Yn amodol ar gyngor gan yr Aseswr BREEAM penodedig (trwy Perfect Circle) a chanlyniad cyn-asesiad BREEAM, gall y rhain gynnwys cymhellion neu gosbau sy'n seiliedig ar berfformiad sy'n gysylltiedig â chyflawni credydau BREEAM, targedau perfformiad ynni a mesurau lleihau carbon.

Yn y cam Achos Busnes Amlinellol hwn, nid yw manylion mecanweithiau o'r fath wedi'u diffinio eto, ond mae'r Gwasanaeth yn cadarnhau y bydd yr opsiynau hyn yn cael eu hystyried yn ystod caffael Cam 2 a'u ffurfioli yn y cam Achos Busnes Llawn yn unol â chyngor cyfreithiol a masnachol.

8.4.8 Risgiau Masnachol

Yn ogystal â'r risgiau ar lefel prosiect a nodir yn Adran 10.7, mae nifer o risgiau yn benodol i'r trefniadau masnachol a chaffael arfaethedig, fel y dangosir yn y tabl isod:

Risg	Disgrifiad	Lliniaru	Cyfrifoldeb
Oedi neu her wrth gaffael	Risg oedi neu her gyfreithiol yn ystod caffael fframwaith.	Defnyddio fframweithiau sefydledig (Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru, SCAPE, CCS) gyda chydymffurfiaeth brofedig.	Is-grŵp Caffael (gyda chymorth cyfreithiol VWV)
Math a thelerau'r contract	Efallai na fydd dewis math y contract (JCT yn erbyn NEC4) yn cyd-fynd yn llawn â dewisiadau rhannu risg.	Penderfyniad terfynol i'w wneud yn y cam PCSA, wedi'i lywio gan gyngor cyfreithiol a masnachol.	Bwrdd y Prosiect (gyda chymorth cyfreithiol VWV)
Capasiti cadwyn gyflenwi	Risg capasiti contractwr/ymgyngorydd cyfyngedig yn rhanbarth Gogledd Cymru.	Ymgysylltu cynnar â'r farchnad trwy bartneriaid fframwaith; dull caffael fesul cam.	Is-grŵp Caffael
Chwyddiant/anwadalrwydd y farchnad	Risg bod enillion tendr yn fwy na'r gyllideb oherwydd amodau'r farchnad.	Cynnwys contractwyr yn gynnar trwy ddull dylunio ac adeiladu dau gam; cymhwyso tuedd optimistiaeth; lwfansau wrth gefn.	Bwrdd y Prosiect (gydag Ymgynghorydd Costau)
Perfformiad ar dargedau cynaliadwyedd	Efallai na fydd y contractwr yn cyflawni gofynion BREEAM/Sero Net.	DPA cytundebol, goruchwyliaeth Grŵp y Prosiect a mecanweithiau perfformiad posibl.	Grŵp Prosiect

Tabl 22 : Crynodeb o Risgiau Masnachol Allweddol

Bydd yr asesiad risg masnachol hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach gan yr Is-grŵp Caffael a'i ymgorffori yng nghofrestr risg gyffredinol y Gwasanaeth yn y cam Achos Busnes Llawn.

8.5 Goblygiadau personél

Ni ragwelir y bydd darparu'r ganolfan hyfforddi newydd yn arwain at unrhyw newidiadau uniongyrchol i delerau ac amodau cyflogaeth staff presennol y Gwasanaeth, ac eithrio gofynion adleoli posibl. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddisodli a chydgrynhoi cyfleusterau presennol yn hytrach na allanoli neu drosglwyddo gwasanaethau gweithredol i ddarparwr allanol.

Fodd bynnag, disgwylir i adeiladu a gweithredu'r ganolfan newydd gynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ehangach i'r gymuned leol. Yn unol â Budd BTC05.03 (Swyddi a Phrentisiaethau a Grëwyd gan y Prosiect), bydd y Gwasanaeth yn gweithio gyda chontractwyr a phartneriaid fframwaith i sicrhau cyfranogiad llafur lleol, prentisiaethau a lleoliadau gwaith drwy gydol y camau adeiladu a chomisiynu. Bydd y canlyniadau gwerth cymdeithasol hyn yn cael eu monitro trwy Gynllun Gwireddu Buddion y prosiect ac yn cael eu hadrodd yn rhan o ymrwymïadau Gwerth Cymdeithasol y Gwasanaeth.

8.5.1 Ystyriaethau TUPE

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE) ar hyn o bryd. Bydd y swyddogaethau hyfforddi a fydd yn cael eu darparu yn y ganolfan newydd yn parhau i gael eu rheoli a'u cyflwyno gan bersonél y Gwasanaeth. Disgwylir i'r holl swyddogaethau cymorth sy'n gysylltiedig â gweithredu'r ganolfan hyfforddi hefyd aros yn fewnol.

Os bydd y dyluniad manwl neu'r model gweithredu yn newid yn ystod camau diweddarach y prosiect (e.e. yn cynnwys rheoli cyfleusterau dan gontract neu wasanaethau arbenigol), bydd adolygiad pellach o TUPE ac effaith y gweithlu yn cael ei gynnal ac ymgynghorir arno yn briodol.

8.5.2 Pontio'r gweithlu

Er nad oes disgwyl diswyddiadau, bydd y symud i ganolfan newydd yn cynnwys proses bontio wedi'i chynllunio'n ofalus ar gyfer staff perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys:

- Ymgysylltu â thimau yr effeithir arnynt (e.e. hyfforddwyr, staff cymorth)
- Cyfeiriadu ac ymgysylltu â'r safle a'r offer newydd
- Hyfforddiant iechyd a diogelwch wedi'i ddiweddarau lle bo angen
- Cymorth cyfathrebu a chynllunio rheoli newid

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwmo i gefnogi ei weithlu drwy'r cyfnod pontio a sicrhau bod staff wedi'u paratoi'n dda ac yn hyderus i weithredu yn yr amgylchedd newydd.

8.6 Crynodeb o'r Achos Masnachol

Mae'r Achos Masnachol hwn wedi dangos bod yr opsiwn a ffafrir ar gyfer datblygu canolfan hyfforddi newydd ar gyfer y Gwasanaeth yn fasnachol hyfyw ac y gellir ei ddarparu mewn ffordd sy'n cydymffurfio, yn ddeniadol i'r farchnad ac yn gallu sicrhau gwerth am arian.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig defnyddio llwybr caffael dylunio ac adeiladu dau gam trwy fframwaith sector cyhoeddus cydnabyddedig. Mae'r dull hwn yn caniatáu cynnwys contractwyr yn gynnar, yn cefnogi trosglwyddo risg effeithiol ac yn sicrhau cydbwysedd hydrin rhwng sicrwydd cost a rheoli prosiect.

Yn sgil ymgysylltu â'r farchnad hyd yma, cadarnhawyd bod diddordeb cyflenwyr yn y cyfle, yn enwedig o ystyried natur arbenigol y ganolfan a'i photensial i ddod yn feincnod ar gyfer seilwaith hyfforddi tân ac achub.

Nodwyd risgiau allweddol a byddant yn cael eu rheoli trwy ddyraniad cytundebol clir, wedi'i gefnogi gan gontract ffurf safonol a mecanweithiau talu seiliedig ar berfformiad. Bydd y dull contractio yn darparu un pwynt atebolrwydd a hyblygrwydd i ymateb i fireinio dyluniad yn ôl y gofyn.

Nid oes unrhyw oblygiadau TUPE disgwyledig. Bydd y buddsoddiad yn cael ei drin fel ased cyfalaf ar fantolen y Gwasanaeth, yn unol â gofynion cyfrifyddu'r sector cyhoeddus, gyda threfniadau cyllido wedi'u disgrifio yn yr Achos Ariannol.

Yn gryno, mae'r Achos Masnachol yn cadarnhau bod yr ateb arfaethedig yn gyraeddadwy, bod modd ei ariannu a'i fod yn ddeniadol i'r farchnad a bod strategaethau masnachol priodol ar waith i gefnogi caffael a chyflawni llwyddiannus.

9 Yr Achos Ariannol

9.1 Cyflwyniad

Pwrpas yr Achos Ariannol yw asesu a yw'r opsiwn a ffafrir a nodir yn yr Achos Economaidd yn fforddiadwy yn ariannol a dangos sut y bydd y goblygiadau cyfalaf a refeniw cysylltiedig yn cael eu rheoli o fewn fframwaith cyllido'r Gwasanaeth.

Gan fod hwn yn Achos Busnes Amlinellol, mae'r dadansoddiad ariannol yn seiliedig ar gostau dangosol a rhagdybiaethau ariannu. Bydd y rhain yn cael eu mireinio ymhellach yn y cam Achos Busnes Llawn, wedi'u llywio gan ddatblygiad dylunio parhaus, ymgysylltu â'r farchnad a modelu costau wedi'u diweddarau.

Darperir y cyd-destun hirdymor ar gyfer yr Achos Ariannol hwn gan Strategaeth Gyfalaf y Gwasanaeth. Gallai Strategaeth Gyfalaf bresennol 2024-2034 grybwyll y prosiect sy'n dod i'r amlwg yn unig trwy nodi nad oedd y costau yn y dyfodol a nodwyd yn y Strategaeth Gyfalaf hon yn cynnwys datblygu canolfan hyfforddi newydd arfaethedig, gan y byddai'r achos busnes yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach. Bydd y Strategaeth Gyfalaf 10 mlynedd wedi'i hadnewyddu yn cael ei hadolygu yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2026 a'i chymeradwyo wedyn yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Ebrill 2026. Bydd hyn yn golygu bod modd i'r datblygiad arfaethedig gael ei sbarduno gan yr amcanion a'r blaenoriaethau allweddol yn y Strategaeth Gyfalaf ac i fforddiadwyedd gael ei asesu ar sail Gwasanaeth cyfan.

Cefnogir y Strategaeth Gyfalaf wedi'i hadnewyddu gan y Strategaeth Ystadau sy'n dod i'r amlwg, y disgwylir iddi gael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2026. Yn rhan o'r gwaith parhaus hwn, mae'r Gwasanaeth yn cynnal yr holl arolygon cyflwr angenrheidiol. Yr uchelgais yw creu cynllun cyfalaf cynhwysfawr ar gyfer y 50 mlynedd nesaf, gan sicrhau dealltwriaeth glir o flaenoriaethau ac ymrwymadau ariannol.

9.2 Arfarniad ariannol

9.2.1 Costau cyflenwi cyfalaf

Amcangyfrifir costau adeiladu ar gyfer yr opsiwn a ffafrir yn seiliedig ar ddyluniadau RIBA Cam 1 (Paratoi a Briffio) ac maent yn dod i gyfanswm o £50 miliwn. Paratowyd yr amcangyfrif o gostau adeiladu gyda chymorth Gleeds, cwmni eiddo ac adeiladu a gyflogwyd gan GTAGC ar gyfer y prosiect hwn. Mae'r amcangyfrifon hyn, a ddarparwyd ym mis Tachwedd 2025, yn cynnwys costau adeiladu, ffioedd proffesiynol, cymeradwyaethau statudol, rheoli prosiectau, lwfansau risg a TAW anadferadwy lle bo'n berthnasol. Mae Tabl 25 yn crynhoi'r costau adeiladu yn ôl prif linell costau, ac eithrio costau prosiect hanesyddol a chostau galluogi ymrwymedig eraill a ddisgrifir ym mharagraff 9.3 (Costau prosiect hanesyddol a gwaith galluogi arall).

Eitem	£ miliwn
Gwaith craidd (clirio safle, adeiladu, gosod, gwasanaethau ac ati)	28.9
Costau rhagarweiniol y prif contractwr, lwfans risg, gorbenion ac elw	11.8
Risg a lwfansau cleient	4.6

Chwyddiant	4.7
Cyfanswm y gost adeiladu	50.0

Tabl 23: Crynodeb o gostau adeiladu

9.2.2 Llif arian cyflenwi cyfalaf

Datblygwyd proffil llif arian cyfalaf i ddangos amseriad disgwyliedig gwariant ar draws y cyfnod adeiladu (gweler Ffigur 25). Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod gofynion cyllido'r prosiect yn fforddiadwy ac y bydd adnoddau ar gael ar yr adegau pan fydd eu hangen.

Adlewyrcha'r proffil y rhaglen ar gyfer dylunio, caffael a chyflenwi'r ganolfan hyfforddi newydd. Mae'r costau wedi'u cynyddu'n raddol yn unol â'r cerrig milltir disgwyliedig, a'r gwariant brig yn digwydd yn ystod y prif gyfnod adeiladu. Mae'r proffil hefyd yn cynnwys lwfansau ar gyfer gwasanaethau cyn adeiladu, datblygu dyluniad a chymeradwyaethau statudol.

	Blwyddyn ariannol, pob ffigur £ miliwn					
	25/26	26/27	27/28	28/29	29/30	Cyfanswm
Cyfanswm y gost adeiladu (£ miliwn)	0	0	18.73	24.98	6.24	49.95

Tabl 24: Rhagolwg llif arian costau adeiladu

9.2.3 Rhagdybiaethau allweddol cyflenwi cyfalaf

Amlyga Ffigur 27 isod y rhagdybiaethau allweddol, a'r cynnwys a'r hepgoriadau allweddol sy'n sail i'r amcangyfrif o gostau adeiladu a llif arian.

#	Pennawd	Rhagdybiaeth
1	Cwmpas	Mae'r holl becynnau gwaith yn y dyfodol wedi'u cynnwys (e.e. adeiladu, gosod, gwaith allanol, cyfleustodau/gwasanaethau, offer, ffioedd proffesiynol)
2	Costau hanesyddol	Nid yw costau prosiect (suddedig) hanesyddol, gan gynnwys caffael safle, wedi'u cynnwys yn y crynodeb o gostau adeiladu ac yn hytrach fe'u disgrifir ar wahân.
3	Hepgoriadau eraill	Mae costau rheoli prosiect mewnol GTAGC i gynllunio a chyflawni'r prosiect ymhellach wedi'u hepgor o'r costau adeiladu.
4	Chwyddiant a'r flwyddyn sylfaen	Mae costau adeiladu wedi'u chwyddo gan ddefnyddio Mynegai Prisiau Tendir (TPI) Cynnwys Popeth BCIS gan ddefnyddio cynnydd canrannol costau rhagolwg BCIS o'r pwynt amcangyfrif costau (chwarter 3, 2025) i bwynt canol yr adeiladu (chwarter 2, 2028). Felly, mae lliffoedd arian yn enwol.

5	Lwfansau a chostau hapddigwyddiadau	Yn unol ag arfer safonol y diwydiant, cynhwyswyd lwfansau ar gyfer eitemau risg penodol, hysbys sy'n dod i gyfanswm o £4.6 miliwn (gan gynnwys chwyddiant). Mae lwfans risg cleientiaid o 10% o gostau uniongyrchol GTAGC sy'n gysylltiedig ag adeiladu hefyd wedi'i gynnwys (£0.4 miliwn). Nid oes unrhyw duedd optimistaeth, cynnydd costau neu oedi rhaglenni wedi'u cynnwys ar gyfer tanamcangyfrifon systemig yn ffigurau 25 a 26 uchod—Ymdrinnir â thuedd optimistaeth ar wahân isod.
6	Y cam dylunio	Mae'r cynllun cost yn adlewyrchu dyluniadau Cam 1 (Paratoi a Briffio) RIBA.
7	Cadwyn cyflenwi	Rhagolygon cost yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf o'r gadwyn gyflenwi ar ddyddiad cyhoeddi (Tachwedd 2025). Bydd y cynllun cost yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau eto ar gyfer digwyddiadau yn y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys tarfu sylweddol ar y gadwyn gyflenwi oherwydd tensiynau geowleidyddol, ar ôl y cam OBC.
8	TAW	Nid oes unrhyw TAW anadferadwy wedi'i nodi, felly mae'r holl ffigurau a gynhwysir yn rhydd o TAW.
9	Treth dir y dreth stamp	Adlewyrchir unrhyw rwymedigaethau treth dir y dreth stamp sy'n deillio o gaffael y safle arfaethedig yng nghostau hanesyddol y prosiect.

Tabl 25: Rhagdybiaethau allweddol costau adeiladu

9.3 Costau prosiect hanesyddol a chostau galluogi eraill

Mae GTAGC eisoes wedi ymrwymo £6.7 miliwn o gostau cyfalaf yn y prosiect hwn, wedi'u hariannu drwy adnoddau cyfalaf craidd GTAGC (benthycia darbodus, derbyniadau cyfalaf y gellir eu defnyddio, cronfeydd wrth gefn cyfalaf, grant cyfalaf cyffredinol). Mae £2.7 miliwn o'r cyfanswm hwn yn ymwneud â chaffael y safle arfaethedig ar gyfer y ganolfan hyfforddi ganolog newydd. Mae'r £4 miliwn o gost sy'n weddill yn cynrychioli gwasanaethau proffesiynol a rhywfaint o waith cyn-adeiladu a galluogi sy'n cael ei gydnabod ar hyn o bryd ar fantolen GTAGC fel asedau sy'n cael eu hadeiladu a welir yn ffigur 28. Bydd yr opsiwn ymyrryd a ffafir yn crisialu gwerth y gwaith hwn.

Cost hanesyddol a galluogi	£ miliwn
Astudiaethau dichonoldeb ac achos strategol	0.1
Prynu Tir	2.7
Gwaith galluogi	3.9
Cyfanswm y Gost	6.7

Tabl 26: Crynodeb o gostau hanesyddol a galluogi

9.4 Trin costau a lwfansau risg sydd wedi'u hepgor

Bwriedir i'r amcangyfrifon cost cyfalaf ar gyfer yr opsiynau ar y rhestr fer fod yn gynhwysfawr. Maent yn cynnwys ffioedd adeiladu, dylunio a phroffesiynol, cymeradwyaethau statudol, arolygon, rheoli prosiectau, TAW (lle bo'n anadferadwy), cronfa frys a lwfans tuedd optimistiaeth.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gostau perthnasol a hepgorwyd wedi'u nodi. Os bydd unrhyw eitemau ychwanegol y tu allan i gwmpas y contractwr yn codi (er enghraifft, caffael safle, adleoli, neu waith galluogi nad yw wedi'i nodi eto), bydd y rhain yn cael eu cyfleu yn y cynllun costau wrth i ddatblygiad y dyluniad fynd rhagddo. Disgwylir i fân gostau ochr y gwasanaeth (fel cymorth cyfreithiol neu amser staff) gael eu talu o gyllidebau refeniw presennol y Gwasanaeth ac nid ydynt yn berthnasol i'r asesiad fforddiadwyedd cyffredinol.

Ymgorfforwyd lwfansau risg yn unol ag arferion cynllunio costau safonol a byddant yn cael eu mireinio ymhellach yn y cam Achos Busnes Llawn wrth i risgiau gael eu meintoli a mewnbwn contractwyr gael ei sicrhau. Mae'r Achos Masnachol yn amlinellu dull rheoli risg cadarn trwy weithgareddau caffael a chontractio, gan gynnwys dull lleihau risgiau i'w reoli gan y Gwasanaeth a bod yn eiddo iddo, tra bod yr Achos Rheoli'n amlinellu dull y Gwasanaeth o reoli risgiau prosiect.

9.5 Arfarniad ariannol – costau gweithredu a chylch bywyd

Modelwyd costau gweithredol a chylch bywyd yr opsiwn a ffafrir ar sail ddangosol yn y cam OBC hwn. Amcangyfrifwyd costau cylch bywyd ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd gan Gleeds gan ddefnyddio ffigurau a ddarparwyd gan BCIS, gyda phwysiad tybiedig o 80% ar gyfer lwfans adnewyddu asedau (gwariant cyfalaf) ac 20% ar gyfer cynnal a chadw (gwariant refeniw). Amcangyfrifwyd effeithiau ehangach ar gyllidebau gweithredol GTAGC gan GTAGC gyda chymorth gweithwyr proffesiynol cymwysedig CIPFA Oaagrove-Mission Economics sydd wedi cefnogi GTAGC i ddatblygu'r achos busnes hwn. Mae Ffigur 28 yn darparu crynodeb o oblygiadau'r opsiwn a ffafrir a ragwelir ar gyllidebau refeniw GTAGC. Mae'r holl ffigurau isod yn enwol - mae rhagolygon chwyddiant hirdymor wedi'u hymgorffori (cynnydd blynyddol cyfartalog yn y gost a'r incwm o 3%).

Eitem	Blwyddyn lawn gyntaf o weithredu (2030/31, £ miliwn)	Cylch Bywyd (30 mlynedd, £ miliwn)
Costau cylch bywyd (gwariant refeniw)	0.03	2.58
Costau gweithredu	1.11	52.58
Gwrthbwyso incwm / arbedion	(0.33)	(15.82)
Effaith cyllideb refeniw net	0.81	39.34
Costau cylch bywyd (gwariant cyfalaf)	0.12	10.31

Tabl 27: Costau cylch bywyd

Mae costau gweithredu yn cynnwys amcangyfrif o gostau cyfleustodau, gwastraff, ardrethi annomestig, rheoli cyfleusterau, staff ychwanegol, tanysgrifiadau/trwyddedau TGCh, yswiriant a nwyddau traul. Mae gwrthbwysu incwm ac arbedion yn cynnwys arbedion costau teithio (y gellir eu cyfnewid am arian), costau llogi cyfleusterau trydydd parti, ac effeithiau cynhyrchu ynni ffotofoltäig.

Bydd yr arfarniad ariannol yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn y cam Achos Busnes Llawn i lywio cynlluniau ariannol tymor canolig a hirdymor. Er y bydd yr amcangyfrifon hyn yn cael eu mireinio yn y cam Achos Busnes Llawn, yr arwyddion cynnar yw y gellir rheoli costau refeniw a chylch bywyd cylchol o fewn strategaeth ariannol tymor canolig y Gwasanaeth sy'n dod i'r amlwg, a fydd yn cael ei hadolygu yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2026 a'i chymeradwyo wedyn gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2026.

9.6 Tuedd optimistiaeth

Yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF a chanllawiau Llywodraeth Cymru, cyfrifwyd addasiad tuedd optimistiaeth (OB) i gyfrif am risg tanamcangyfrif systematig yng nghyfnod hwn y prosiect. Fel yn yr Achos Economaidd, cyfrifwyd yr addasiad hwn trwy gymhwyso codiad OB o 16% i gostau cyfalaf cychwynnol, sy'n briodol ar gyfer prosiectau adeiladu safonol, a 15% i gostau cylch bywyd (net o incwm refeniw ac arbedion). Cyfeirier at yr Achos Economaidd adran 7.10.1 am esboniad llawnach o'r ffordd y mae'r canrannau OB cymhwysol wedi'u sefydlu. Dengys ffigurau 29, 30 a 31 sut y byddai costau adeiladu a chostau cylch bywyd yn newid yr adnoddau ariannol sy'n ofynnol ar y lefelau cymhwysol o godi costau OB.

Cyfanswm y gost adeiladu (cyn-OB)	> £50.0 miliwn
<i>O'r rhain, eitemau risg penodol, hysbys</i>	£5.0 miliwn
Codiad costau OB (16%)	£7.2 miliwn
Cyfanswm y gost adeiladu (ôl-OB)	£57.2 miliwn

Tabl 28: Tuedd optimistiaeth a gymhwyswyd i gostau cyflenwi cyfalaf

Cost weithredu net, blwyddyn lawn gyntaf o weithredu (cyn-OB)	£0.8 miliwn
Codiad costau OB (15%)	£0.1 miliwn
Cost weithredu net, blwyddyn lawn gyntaf o weithredu (ôl-OB)	£0.9 miliwn
Cyfanswm y gost weithredu net, 30 mlynedd (cyn OB)	£39.3 miliwn
Codiad costau OB (15%)	£5.9 miliwn
Cyfanswm y gost adeiladu, 30 mlynedd (ôl-OB)	£45.2 miliwn

Tabl 29: Tuedd optimistiaeth a gymhwyswyd i gostau cylch bywyd refeniw (net o incwm refeniw / arbedion cost)

Lwfans adnewyddu asedau (cyfalaf), blwyddyn lawn gyntaf o weithredu (cyn-OB)	£0.1 miliwn
Codiad costau OB (15%)	£0.0 miliwn
Lwfans adnewyddu asedau (cyfalaf), blwyddyn lawn gyntaf o weithredu (ôl-OB)	£0.1 miliwn
Lwfans adnewyddu asedau (cyfalaf), 30 mlynedd (cyn OB)	£10.3 miliwn
Codiad costau OB (15%)	£1.5 miliwn
Lwfans adnewyddu asedau (cyfalaf), 30 mlynedd (ar ôl OB)	£11.8 miliwn

Tabl 30: Tuedd optimistaeth a gymhwyswyd i gostau cylch bywyd cyfalaf

9.7 Cyllid a fforddiadwyedd

Mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu dull ariannu graddol. Bydd yr holl wariant hyd at a chan gynnwys Cam 4 RIBA yn £6.7 miliwn (sy'n cwmpasu arolygon, astudiaethau dichonoldeb, dyluniad a chynllunio cysyniad, datblygedig a thechnegol) yn cael ei dalu o adnoddau cyfalaf y Gwasanaeth ei hun. Mae hyn yn cynnwys cost y tir sydd wedi'i brynu ym Mharc Busnes Llanellwyr o dan strategaeth ystadau ehangach y Gwasanaeth. Nid yw'r pryniant hwnnw'n ymrwymo'r Gwasanaeth i unrhyw un opsiwn cyflawni ond mae'n darparu safle hyfyw sydd ar gael pe bai Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r ffordd ymlaen a ffafrir.

Ar gyfer Camau 5 i 6 RIBA (y camau adeiladu, trosglwyddo ac ôl-feddiannaeth), bydd y Gwasanaeth yn ceisio oddeutu £50 miliwn o gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer yr opsiwn a ffafrir. Mae'r strategaeth ariannu dau gam hon yn sicrhau bod y prosiect wedi'i ddylunio'n llawn, ei gostio ac yn barod i'w adeiladu cyn bod angen cyllid allanol. Mae'r cyllid cyfalaf a geisir yn benodol ar gyfer cyflenwi cyfalaf cychwynnol y ganolfan hyfforddi newydd: bydd costau adnewyddu/amnewid asedau cyfalaf (yn ystod Cam 7 Riba) yn cael eu hariannu trwy adnoddau cyfalaf craidd y Gwasanaeth.

Mae ymgysylltu cynnar â Llywodraeth Cymru wedi dangos bod y lefel hon o gymorth efallai'n gyraeddadwy, yn amodol ar gadarnhau costau manwl a chydredeg â blaenoriaethau cenedlaethol. Felly, defnyddiwyd y rhagdybiaeth y bydd costau'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol yn cael eu hariannu'n llawn drwy grantiau Llywodraeth Cymru at ddibenion yr Achos Busnes Amlinellol hwn.

Pe na bai cyllid llawn Llywodraeth Cymru yn cael ei sicrhau, yr unig opsiynau yn weddill i'r Gwasanaeth fyddai cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, derbyniadau cyfalaf, a benthyca fel dewis olaf. Byddai angen ystyried hyn yn y cam Achos Busnes Llawn er mwyn sicrhau fforddiadwyedd.

Fodd bynnag, yn seiliedig ar sefyllfa ariannol bresennol y Gwasanaeth, a'r sefyllfa a ragwelir yn ei Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2024-2027, mae'n debygol iawn na fydd fforddiadwyedd yn cael ei gyflawni oherwydd y canlynol:

- **Defnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi**

- balans y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar 31 Mawrth 2025 oedd £8.938 miliwn ac mae ymrwymiad yn 2025/26 i gymhwyso £2.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i dalu costau prosiect y ganolfan hyfforddi.
- bydd angen ariannu'r £1.65m sy'n weddill o gost y ganolfan hyfforddi hyd at Gam 4 RIBA o fenthycia yn 2026/27, gan na all y Gwasanaeth ddisbyddu cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ymhellach heb effeithio'n niweidiol ar flaenoriaethau eraill y Gwasanaeth.
- mae hyn yn dangos nad yw'r Gwasanaeth mewn sefyllfa i gymhwyso cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi fel rhan o becyn cyllido olaf un ar gyfer darparu'r ganolfan hyfforddi newydd.

- **Cymhwyso derbyniadau cyfalaf**

- bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf posibl sy'n deillio o resymoli ystâd y Gwasanaeth yn dilyn datblygu'r Ganolfan Hyfforddi newydd, yn rhan o'r penderfyniadau corfforaethol sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Ystadau newydd y disgwylir iddi gael ei chwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2026.
- ar adeg adrodd OBC, mae'r Gwasanaeth mewn cyfnod pontio, o'i strategaeth ystadau sy'n cael ei chefnogi gan Heddlu Gogledd Cymru drwy ei Gytundeb Lefel Gwasanaeth, i ddatblygu ei Strategaeth Ystadau ffurfiol ei hun.
- Bydd pob safle y nodwyd ei fod efallai y tu hwnt i ofynion y Gwasanaeth yn cael ei ystyried y tu allan i gyd-destun prosiect y ganolfan hyfforddi, er mwyn sicrhau bod yr holl opsiynau wedi'u harchwilio cyn ystyried gwaredu.
- Bydd derbyniadau cyfalaf o unrhyw warediadau asedau dros ben yn dod yn dderbyniadau cyfalaf corfforaethol i'w cymhwyso yn unol â Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Gwasanaeth, sy'n mynd i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2026.
- Ni wneir unrhyw ragdybiaeth ar hyn o bryd i gymhwyso derbyniadau cyfalaf fel rhan o becyn cyllido olaf un ar gyfer y Ganolfan Hyfforddi newydd.

- **Benthycia**

- mae'r Gwasanaeth eisoes wedi ariannu caffael y tir yn Llanelwy am ychydig dros £2.7m o fenthycia.
- o ganlyniad, mae'r Gwasanaeth yn fforddio'r costau ariannu cyfalaf cysylltiedig o 2025/26, gan gynyddu'r gyllideb ariannu cyfalaf yn 2025/26 £0.054m.
- nid yw'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig bresennol yn cynnwys unrhyw effaith bosibl yn sgil ariannu'n llawn neu ariannu'n rhannol ddatblygu a chyflawni'r ganolfan hyfforddi.
- mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu i osod cyllideb gytbwys flwyddyn ar ôl blwyddyn, fel y nodir yn ei Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2024-2027 ac adroddiadau blynyddol y Gyllideb gyfredol.
- mae adnoddau'n mynd yn brinnach, sydd, ynghyd â'r pwysau a'r galw cynyddol ar wasanaethau, yn ei gwneud hi'n fwy anodd sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol
- ceir y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y Gwasanaeth ar ffurf ardoll gan ei chwe awdurdod cyfansoddol, ochr yn ochr â chyllid grant, er bod hwn wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- byddai cynnydd sylweddol mewn benthycia, yn rhan o becyn cyllido olaf un ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd, yn rhoi straen pellach ar ardoll y Gwasanaeth, gyda'r cynnydd yn 2024/25 yn 8.85%, 2025/26 yn 7% a 2026/27 yn 4.4%.
- Dengys hyn y byddai benthycia ychwanegol, o bosibl hyd at lefel sy'n cyfateb i'r rhaglen gyfalaf 10 mlynedd gyfredol i gyd, yn rhoi pwysau anghynnaladwy ar yr ardoll yn y dyfodol.
- o ganlyniad, mae sicrhau grantiau allanol a chyllid ar gyfer cynlluniau cyfalaf a refeniw yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i'r Gwasanaeth.

Bydd adolygiad pellach a diweddariadau i faint a graddio'r holl gostau ac incwm yn cael eu cynnal yn y cam Achos Busnes Llawn, ochr yn ochr â phrofion sensitifrwydd pellach a chostau oes gyfan, pan fydd cyllidebau gweithredol a modelau darparu gwasanaethau wedi'u cwblhau. Yn y cam Achos Busnes Amlinellol hwn, darperir cyfansymiau dangosol i gadarnhau fforddiadwyedd o fewn y strategaethau ariannol tymor canolig presennol a'r strategaethau ariannol sy'n dod i'r amlwg, gan dybio bod cyflawni cyfalaf yn y dyfodol (camau 5 a 6 Riba) yn cael ei ariannu drwy grantiau Llywodraeth Cymru.

9.7.1 Benthycia a Rheoli'r Trysorlys

Nid yw benthycia wedi'i gynnwys yn y strategaeth ariannu bresennol, o ystyried y rhagdybiaeth waith o gefnogaeth 100% gan Lywodraeth Cymru. Os bydd gofynion benthycia pellach yn dod i'r amlwg yn y cam Achos Busnes Llawn, cynhelir modelu manwl i brofi fforddiadwyedd, proffiliau addalu a chydymffurfiaeth â Strategaeth Rheoli Trysorlys y Gwasanaeth 2026/27 a Datganiad MRP, a fydd yn cael ei adolygu gan Bwyllgor Archwilio'r Gwasanaeth ym mis Mawrth 2026 a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2026.

Mae gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu'n bennaf trwy fenthycia allanol. Fodd bynnag, yn y tymor byr, mae'r Gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio arian refeniw dros ben, y cyfeirir ato fel benthycia mewnol, i leihau costau ariannu a chynhyrchu arbedion refeniw.

Mae'n bwysig nodi, wrth i gronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio, fod yr angen i drosglwyddo o fenthycia mewnol i fenthycia allanol yn cynyddu. Rhaid pwysleisio yma hefyd fod y cynnydd mewn cyfraddau llog yn ystod y blyneddau diwethaf yn faes risg allweddol ac yn cael ei waethgu gan fod angen ail-ariannu nifer o fenthyciadau yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27.

9.7.2 Opsiynau Cyllido Cyfalaf

Mae'r model cyllido graddol wedi'i grynhoi isod:

- Cam 1 (RIBA 0–4): Hunan-ariannu trwy raglen gyfalaf a chronfeydd wrth gefn cymeradwy.
- Cam 2 (RIBA 5–6): Ceisiwyd grant cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu a chyflawni.

Mae'r dull hwn yn cydreded â chanllawiau'r Llyfr Gwyrdd drwy sicrhau bod gwariant cyfnod cynnar yn gymesur a bod cyllid adeiladu llawn yn cael ei geisio dim ond ar ôl i ddyluniad, cwmpas a sicrwydd cost y prosiect gael eu sefydlu.

Hyd yn hyn mae'r Gwasanaeth wedi caffael safle Llanelwy am ychydig dros £2.7m yn 2023/24, wedi'i ariannu trwy fenthycia, ac wedi cymhwyso cronfeydd wrth gefn i'r gost a ymrwymwyd uchod (cyfeirir at adran 9.3). Bydd gweddill y costau ymrwymedig yn cael eu cynnwys yn y Gyllideb ar gyfer 2026/27, i'w hariannu trwy fenthycia. Mae hwn yn ymrwymiad sylweddol i'r Gwasanaeth, sydd ar hyn o bryd yn cynrychioli ychydig dros 13% o'r rhaglen gyfalaf 10 mlynedd bresennol o £50.7m (11 mlynedd gan gynnwys 2023/24), yn unol â Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2024-2027.

9.7.3 Incwm a Chyfleoedd Cydweithredu Posibl

Mae gan y cyfleuster y potensial i gynhyrchu incwm allanol a gwerth cydweithredol a allai gryfhau fforddiadwyedd hirdymor. Er bod y prif ffocws yn parhau i fodloni gofynion hyfforddiant statudol y Gwasanaeth, mae'r cyfleoedd yn cynnwys:

- **Darpariaeth hyfforddiant allanol:** Cyrsiau arbenigol a gynigir i wasanaethau tân ac achub eraill y DU, partneriaid y Fforwm Gwydnwch Lleol a sefydliadau sector preifat y mae angen hyfforddiant cydymffurfio arnynt.
- **Llogi cyfleusterau:** Sicrhau bod propiau hyfforddi, ystafelloedd dosbarth a'r ystafelloedd meistrolï digwyddiadau ar gael i'w defnyddio gan yr Heddlu, Ambiwylans, y Fyddin a phartneriaid eraill, gan wella rhyngweithrededd wrth gynhyrchu incwm.
- **Partneriaethau academaidd:** Cydweithio â phrifysgolion a cholegau ar hyfforddiant achrededig, ymchwil, a lleoliadau gwaith i gryfhau'r biblinell sgiliau.
- **Defnydd gan y gymuned a'r trydydd sector:** Defnydd cyfyngedig o fannau seminar ac ystafell ddosbarth ar gyfer digwyddiadau, gan gefnogi ymgysylltu â'r cyhoedd wrth adennill ychydig bach o gostau.

Mae meincnodi dangosol yn erbyn cyfleusterau hyfforddi tân ac achub eraill y DU yn awgrymu y gallai incwm allanol wneud cyfraniad cymedrol ond gwerthfawr at gostau rhedeg blyneddol. Fodd bynnag, bydd lefel y defnydd gwirioneddol yn dibynnu ar y galw gan bartneriaid, y dirwedd gystadleuol a'r fframwaith codi tâl sydd i'w ddatblygu.

Felly, ar hyn o bryd, mae incwm o'r ffynonellau hyn wedi'i drin yn gyfle cadarnhaol: nid ydynt wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau fforddiadwyedd na modelu ariannol prosiect ehangach. Bydd cyfleoedd incwm o'r fath yn cael eu harchwilio ymhellach yn ystod y cam Achos Busnes Llawn.

Mae integreiddio araeau ffotofoltäig (PV) hefyd yn cyflwyno'r potensial i allforio trydan dros ben; mae arbedion incwm a chostau o'r araeau PV wedi'u hamcangyfrif yn ddoeth a'u cynnwys yn y modelu ariannol.

9.7.4 Sicrhau'r Gwerth Cyhoeddus Mwyaf Posibl trwy Gyllid ac Incwm

Mae'r dull ariannu a chynhyrchu incwm wedi'i strwythuro i sicrhau'r gwerth cyhoeddus mwyaf posibl. Trwy flaenoriaethu defnyddio grantiau posibl cyn benthyca, bydd y Gwasanaeth yn lleihau costau ariannu ac yn diogelu fforddiadwyedd.

Ar yr un pryd, mae archwilio ffrydiau incwm cydweithredol - megis hyfforddiant ar y cyd ag asiantaethau partner, ymarferion gwydnwch, partneriaethau academaidd a defnydd cymunedol - yn sicrhau bod manteision y buddsoddiad yn estyn y tu hwnt i'r Gwasanaeth i'r sector cyhoeddus ehangach a chymunedau Gogledd Cymru.

Dengys y dull cyfunol hwn fod y prosiect yn darparu gwerth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, sy'n gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

9.8 Triniaeth gyfrifyddu

Mae'r adran hon yn amlinellu'r driniaeth gyfrifyddu a ragwelir o'r buddsoddiad yn y cyfleuster hyfforddi newydd, yn unol â safonau adrodd ariannol perthnasol ac egwyddorion cyfrifyddu'r sector cyhoeddus.

Datblygwyd yr Achos Busnes Amlinellol hwn ar sail y rhagdybiaeth y bydd y cynllun yn unol â'r fantolen ar gyfer y Gwasanaeth.

9.8.1 Cyfalafu costau

Bwriedir i'r cyfleuster hyfforddi newydd fod yn ased gweithredol hirdymor i'r Gwasanaeth. Yn unol â hynny, bydd y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â'i ddatblygiad gan gynnwys dylunio, gwaith galluogi, adeiladu, gosodiadau a chostau rheoli prosiect y gellir eu priodoli'n uniongyrchol yn cael eu cyfalafu ar fantolen y Gwasanaeth fel ased sefydlog diriaethol.

Mae'r driniaeth hon yn unol â:

- Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadir yn sector cyhoeddus y DU;
- Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol; a
- Chanllawiau Cyllidebu Cyfunol Trysorlys EM a'r Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM).

Bydd dibrisiant yr ased yn cael ei gymhwyso dros ei oes economaidd ddefnyddiol, y tybir fel arfer ei bod o leiaf 30 mlynedd, yn amodol ar gadarnhad terfynol gan dîm cyllid ac archwilwyr y Gwasanaeth. Mae dibrisiant yn eitem nad yw'n arian parod nad yw'n taro llinell waelod ariannol y Gwasanaeth—felly nid yw'n effeithio ar ardollau'r Gwasanaeth.

9.8.2 Refeniw a chostau gweithredol

Bydd costau gweithredol a chylch bywyd refeniw parhaus (e.e. cynnal a chadw, cyfleustodau, staffio, amnewid offer islaw trothwyon cyfalafu) yn cael eu trin fel gwariant refeniw yng nghyfrifon blyneddol y Gwasanaeth ac yn cael eu hariannu o'i gyllidebau refeniw presennol neu drwy drefniadau cydweithredol, lle bo'n berthnasol.

Bydd y costau hyn yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau ariannol tymor canolig a'u monitro fel rhan o brosesau gosod cyllideb ac adrodd arferol y Gwasanaeth.

9.8.3 Taliadau Cyfalaf

Gan mai'r rhagdybiaeth waith ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol hwn yw y bydd 100% o'r costau cyfalaf yn cael eu talu drwy gyllid Llywodraeth Cymru, nid oes unrhyw daliadau cyfalaf sy'n gysylltiedig â benthycu wedi'u modelu ar hyn o bryd.

9.8.4 TAW a Thriniaeth Treth

Gall y Gwasanaeth adennill TAW ar y rhan fwyaf o wariant o dan Adran 33 o Ddeddf TAW 1994. Fodd bynnag, bydd TAW mewnbwn sy'n gysylltiedig â defnydd esempt neu nad yw'n fusnes yn destun cyfrifiad esemptio rhannol y Gwasanaeth.

Bydd fîm y prosiect yn parhau i weithio gyda chynghorwyr cyllid a threth y Gwasanaeth i gadarnhau triniaeth TAW yr holl weithgareddau caffael ac adeiladu. Bydd y Gwasanaeth yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â chanllawiau CThEF ar adennill TAW ar gyfer cynlluniau cyfalaf.

9.8.5 Effaith a Ragwelir ar Ddatganiadau Ariannol

Yn seiliedig ar y strategaeth ariannu gyfredol a'r rhagdybiaethau cyfrifyddu, disgwylir i'r cynllun gael yr effeithiau lefel uchel canlynol ar ddatganiadau ariannol y Gwasanaeth:

- **Y Fantolen:** Bydd y cyfleuster hyfforddi newydd yn cael ei gydnabod fel ased sefydlog diriaethol ar fantolen y Gwasanaeth, gyda bywyd economaidd defnyddiol disgwylledig o 30 mlynedd o leiaf. Bydd costau cyfalaf yn cael eu cyfalafu, gan gynnwys costau adeiladu, dylunio a rheoli prosiect y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Bydd cydrannau sy'n ffurfio'r gost gyfalaf (e.e. adeiladau, propiau hyfforddi, offer arall) yn cael eu cydnabod a'u cyfrif yn unol â pholisïau'r Gwasanaeth sy'n llywodraethu triniaeth gyfrifyddu asedau sefydlog.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES):** Y prif effaith fydd gwariant reffeniw parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cyfleuster newydd (cyfleustodau, rheoli cyfleusterau, nwyddau traul hyfforddi). Nid oes unrhyw daliadau cyfalaf sy'n gysylltiedig â benthyca yn cael eu modelu ar hyn o bryd, gan ragdybio 100% o gyllid llywodraeth Cymru.
- **Datganiad Llif Arian:** Bydd gwariant cyfalaf yn digwydd yn bennaf yn ystod y cyfnod adeiladu, yn unol â'r proffil llif arian a nodir yn Adran 9.2.2. Disgwylir i lifoedd arian gweithredu aros yn gyffredinol gyson â chyllidebau reffeniw cyfredol, gyda photensial i gynhyrchu ychydig o incwm i wrthbwysu costau cynyddol yn rhannol.

Cam	Effaith ar y Fantolen	Effaith CIES	Effaith Llif Arian
Adeiladu (Blynnyddoedd 1-4)	Cyfalafu costau; ased sy'n cael ei adeiladu.	Effaith reffeniw fach iawn (costau fîm prosiect a chynghorydd nad ydynt wedi'u cyfalafu).	All-lif yn unol â phroffil llif arian cyfalaf.
